



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

79/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

08/12/2016

Gwerthusiad Proses o Brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

Teitl: Gwerthusiad Proses o Brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

Awdur(on) / Cwmni

Oliver Allies, Wavehill

Jessica Irving, Wavehill



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid.

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

Joseph Wilton

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 2663

E-bost: Joseph.Wilton@wales.gsi.gov.uk

Tabl cynnwys

1.	Crynodeb [Gweithredol].....	6
2.	Cyflwyniad.....	9
3.	Dull Methodolegol.....	12
4.	Cyd-destun Polisi	15
5.	Dyluniad Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.....	24
6.	Canfyddiadau	40
7.	Profiad y Cyfranogwyr	58
8.	Casgliadau	69
9.	Adran Gyfeirnodau	80
	Atodiad A	79
	Canllaw Trafod Cyfweiliadau Cwmpasu	79
	Canllaw Trafod Cyfweiliadau Staff Cyflenwi	82
	Canllaw Trafod Cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol.....	84
	Arolwg Cyfranogwyr Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.....	86
	Rhestr o randdeiliaid a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad	90

Rhestr o dablau

Tabl 5.1: Canlyniadau Disgwyliedig ar gyfer prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth dros y Tair Blynedd Cyntaf	32
Tabl 6.1: Canlyniadau Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn ôl Daearyddiaeth – Awst 2016.....	54
Tabl 7.1: Nifer y Cyfranogwyr a Gyfwelwyd o Bob Cyfnod.....	58
Tabl 8.1: Dilysrwydd y Tybiaethau yn y Theori Newid.....	69

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 5.1 Trosolwg o'r Broses – Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth	344
---	-----

1. Crynodeb [Gweithredol]

Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Ionawr 2016, cafodd Wavehill ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad proses o brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Nod y prosiect yw cynorthwyo rhieni di-waith i gael hyfforddiant neu swydd os mai gofal plant yw eu prif rwysr rhag gwneud hynny. Lanswyd y prosiect ym mis Hydref 2015 i rieni 25 oed a hŷn. Estynnwyd y prosiect wedyn i gynnwys rhieni 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).
- 1.2 Nod prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yw cynorthwyo 7,884 o rieni economaidd anweithgar a di-waith¹, cynorthwyo unig rieni, rhieni o aelwydydd heb waith neu gynorthwyo ail enillydd (posibl) oddi mewn i aelwyd sydd â gwaith. Mae'r prosiect yn anelu i gynorthwyo o leiaf 1,577 o rieni i dderbyn cyflogaeth addas, gan leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith.

Y Gwerthusiad

- 1.3 Comisiynwyd y gwerthusiad gyda phwyslais ar broses a'r nod o ddarparu dealltwriaeth o'r canlynol:
- y ffordd y sefydlwyd prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth
 - dyluniad y prosiect (ac yn benodol y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r awdurdodau lleol)
 - pa mor dda y caiff y prosiect ei weinyddu
 - pa mor effeithiol ydyw ar nodi'r derbynwyr arfaethedig ac ymgysylltu â hwy
 - sut mae'r prosiect yn helpu'r cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau i weithio, meithrin sgiliau sy'n berthnasol i swydd, a manteisio ar gyfleoedd sy'n berthnasol i swydd.
- 1.4 Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys:
- ymchwil ddesg i adolygu'r cyd-destun strategol a pholisi y mae prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth yn gweithredu ynddo
 - cyfres o gyfweiliadau â rhanddeiliaid yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2016 gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o ddylunio, rheoli a chyflenwi prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth

¹ Mae rhieni dros 25 oed ond yn gymwys i dderbyn cymorth gan brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth os ydynt yn cael eu hystyried yn economaidd anweithgar. Mae rhieni 16 i 24 oed yn gymwys os nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) a gallant fod yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith.

- arolwg dros y ffôn o 60 o gyfranogwyr y prosiect (yn ystod mis Mawrth 2016).

Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 1.5 Caiff y prosiect ei gyflenwi drwy 43 o Gynghorwyr Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, wedi'u cyflogi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae gan bob awdurdod lleol fynediad at Gynghorydd. Mae'r cymorth a gynigir drwy'r Cynghorwyr hyn wedi'i anelu at rieni sy'n byw y tu allan i Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r dulliau ymgysylltu fel arfer yn defnyddio seilwaith cymorth presennol gan gynnwys safleoedd Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.
- 1.6 Daw'r rhieni i gyswllt â'r prosiect yn wirfoddol, ac maent yn derbyn cymorth sy'n unigol i'w hanghenion (a nodir drwy drafodaeth un-i-un gychwynnol). Mae Cynlluniau Gweithredu Personol, a gaiff eu llunio o ganlyniad i'r drafodaeth, yn gosod allan y cymorth sydd ei angen.
- 1.7 Mae'r cymorth yn cynnwys; atebion i oresgyn rhwystrau'n ymwneud â gofal plant, nodi'r atebion gorau i rieni nad ydynt yn barod i weithio ac y mae arnynt angen profiad gwaith neu hyfforddiant, a darparu cymorth i gael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy i'r rhai sydd yn barod i weithio. Mae'r Cynghorwyr yn darparu cymorth mentora pan fo'r cyfranogwyr yn derbyn hyfforddiant neu ar brofiad gwaith i sicrhau eu bod yn parhau ar y trywydd iawn i gyrraedd eu nodau.
- 1.8 Mae Cynghorwyr y prosiect yn canfod a oes ar rieni cymwys angen cymorth ariannol i'w helpu i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth sy'n cynnwys costau gofal plant, teithio a/neu hyfforddiant, neu ai gyngor, gwybodaeth ac arweiniad fyddai fwyaf priodol.

Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion

Dylunio a Datblygu'r Prosiect

- 1.9 Mae dyluniad y prosiect yn seiliedig i raddau helaeth ar brofiad blaenorol, gan atgynhyrchu'r elfennau mwyaf llwyddiannus mewn mentrau blaenorol, ac adolygu model cyflenwi'r gwasanaeth lle y cafodd gwersi eu dysgu. Bu awdurdodau lleol yn cynorthwyo â'r broses ddylunio; er bod rhai yn pryderu ynglŷn â'r newid (o fentrau blaenorol) o staff cyflenwi yn staff ymgysylltu cymunedol wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol at Gynghorwyr y prosiect wedi'u cyflogi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, câi ei gydnabod bod y newid yn y dull gweithredu yn cynnig llwybr mwy effeithlon ar gyfer y ddarpariaeth.

- 1.10 Mae'r prosiect wedi cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Elfen bwysig arall o'r gwasanaeth fu i bartneriaid ymgysylltu â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, er bod pryder ymysg rhai bod y cyswllt hwn yn digwydd yn llai aml yn y misoedd cyn y gwaith ymchwil. Roedd dirywiad yn y cyswllt a diffyg arweiniad wedi golygu bod rhai awdurdodau lleol yn aneglur ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â phrosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth.

Argymhelliad 1: Llunio cytundeb ffurfiol, megis memorandum cyd-ddealltwriaeth, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid allweddol (awdurdodau lleol yn benodol) sy'n ymwneud â chyflenwi prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth.

Gweithredu

- 1.11 Lanswyd y prosiect mewn dau gyfnod; roedd Cyfnod 1 yn weithredol yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion cyn iddo gael ei gyflwyno wedyn yng ngweddill y wlad (Cyfnod 2). Dewiswyd ardaloedd Cyfnod 1 ar sail yr awdurdodau lleol hynny sydd eisoes yn cydweithio ac a oedd yn ystyried mabwysiadu dull tebyg. I gychwyn, gweithredwyd y prosiect heb garfan lawn o staff, heb ganllawiau clir i'r staff cyflenwi a heb fod model gwasanaeth yn ei le.
- 1.12 Cymerwyd yn hwy na'r disgwyl i roi elfennau allweddol o brosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth ar waith (darparu hyfforddiant wedi'i ariannu gan y prosiect yn benodol), gan effeithio ar y canlyniadau a gyflawnid i gychwyn. Golygodd hyn fod y prosiect yn rhedeg ar ei hôl hi o gymharu â'r proffil, o ran nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy a'r nifer a lwyddodd i gael gwaith.
- 1.13 Mae'r diffyg cychwynnol yn yr hyfforddiant a ariennir – yn ogystal ag elfennau allweddol eraill o'r hyn sydd gan y rhaglen i'w gynnig – wedi effeithio ar lefel gyflenwi'r prosiect, gydag elfennau marchnata a hyrwyddo wedi'u hosgoi ar y cyfan hyd nes bod modd sefydlu'r ddarpariaeth. Mynegwyd pryderon gan y Cynghorwyr y gallai'r diffyg deunydd hyrwyddo effeithio ar ganfyddiadau bod y rhaglen yn un ddilys.

- 1.14 Roedd arwyddion o gamddealltwriaeth hefyd ymysg Cynghorwyr y prosiect, yn arbennig mewn perthynas â chymhwyso cymorth gofal plant a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ar fudd-daliadau. Er y rhoddwyd hyfforddiant dwys i'r Cynghorwyr a recriwtiwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y prosiect hwn, roeddynt yn dymuno cael proses gynefino yn benodol i'r prosiect ac yn gofyn am arweiniad ychwanegol ar yr hyfforddiant sydd ar gael yn eu hardal.

Argymhelliad 2: Cyflenwi proses gynefino prosiect-benodol i holl Gynghorwyr y prosiect.

Argymhelliad 3: Datblygu taflen o gwestiynau cyffredin i'w defnyddio fel dogfen weithio drwy gydol gweddill y prosiect.

Argymhelliad 4: Ystyried cyflwyno system gyfeillio/mentora i alluogi Cynghorwyr y prosiect i rannu'r hyn a ddysgant gyda'i gilydd a chodi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig yn lleol i staff.

Argymhelliad 5: Ymgymryd â gwaith marchnata a hyrwyddo gan ddefnyddio deunydd clir a chryno, gan dargedu darparwyr gwasanaeth partner a chyfranogwyr posibl, i adlewyrchu'r ffaith bod y prosiect bellach yn gwbl weithredol.

Integreiddio'r Gwasanaeth

- 1.15 Mae'r rhan fwyaf o Gynghorwyr y prosiect wedi integreiddio'n llwyddiannus i'r gwasanaethau teuluoedd ehangach ym mhob cymuned. Mae'r arfer o dargedu cymorth y tu allan i ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i chroesawu gan bartneriaid, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod hyn yn fwlch mewn darpariaeth gwasanaethau. Mae rhai ardaloedd yn dangos perthnasoedd gyd-fuddiol rhwng safleoedd Cymorth i Deuluoedd a gwasanaethau Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth. Mae hyn yn benodol o bwysig wrth ystyried bod cyfranogwyr targed prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth yn aml yn wynebu rhwystrau niferus sydd fel arfer yn galw am gymorth y tu hwnt i'r hyn y gall Cynghorwyr y prosiect ei gynnig ar eu pen eu hunain.
- 1.16 Gweithiodd y dull partneriaeth yn benodol o dda lle mae Cynghorwyr y prosiect yn cynnal desg boeth oddi mewn i leoliadau teuluoedd ac yn mynychu/sicrhau safleoedd ar rwydweithiau allweddol o ddarparwyr gwasanaethau i deuluoedd. Ond mewn rhai lleoliadau, mae'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer cynnal desg boeth neu gyfarfod â chleientiaid naill ai mewn lleoliad amhriodol (e.e. yn gyfan gwbl oddi mewn i Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf) neu'n amhriodol yn gyffredinol i ganiatáu ar gyfer cyflenwi gwasanaeth, mewn ardaloedd gwledig yn benodol. Hefyd, mae'r rhieni sy'n mynychu

canolfannau teuluoedd fel arfer yn newid gyda'r tymhorau ysgol yn unig, a gall y llwybrau posibl hyn i'r farchnad gael eu disbyddu'n gyflym os yw nifer y mynychwyr yn gymharol isel. O ganlyniad i hyn, mae canolfannau Dechrau'n Deg a grwpiau chwarae eraill yn llwybrau llai cyffredin i gyfranogwyr ac i gyflenwi gwasanaethau na'r hyn a ragwelwyd yn y cynllun busnes.

- 1.17 Ar y llaw arall, mae Canolfannau Gwaith Lleol yn llwybrau ffrwythlon i recriwtio cyfranogwyr i'r prosiect, gyda rhai o Gynghorwyr y prosiect yn nodi i bron i'w llwyth achosion cyfan gael ei recriwtio drwy'r Canolfannau Gwaith. Mae'r Canolfannau Gwaith a'r adnoddau sydd ar gael i Gynghorwyr y prosiect oddi mewn i'r Canolfannau Gwaith yn cynnig ffyrdd defnyddiol i ganfod cyfranogwyr cymwys ac ymgysylltu â hwy.
- 1.18 Mae'r Canolfannau Gwaith yn elfen sylfaenol o'r prosiect ar hyn o bryd. Er hyn, dyluniwyd y prosiect ar sail darpariaeth allgymorth cymunedol, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i gyrraedd rhieni a allai fod yn amharod i ddod i gyswllt fel arall. Annhebygol yw i'r garfan hon gael ei chanfod yn y Canolfannau Gwaith. Wrth ddibynnu ar Ganolfannau Gwaith, y mae mwy o berygl hefyd y gallai'r prosiect gael ei ystyried gan gyfranogwyr posibl yn ddim mwy nag estyniad o'r ddarpariaeth sydd fel arfer yn cael ei chynnig drwy'r Canolfannau Gwaith.

Argymhelliad 6: Monitro llwybrau atgyfeirio yn agos i nodi tueddiadau a phatrymau yn yr atgyfeiriadau.

Argymhelliad 7: Archwilio dulliau ychwanegol (a'u rhannu os ydynt yn llwyddiannus) i ymgysylltu â chanolfannau Dechrau'n Deg a lleoliadau i deuluoedd er mwyn cynyddu amrywiaeth llwybrau atgyfeirio/ymgysylltu y prosiect.

Argymhelliad 8: Lle y bo tystiolaeth bod cyflenwi gwasanaethau yn fwy heriol mewn ardaloedd gwledig, dylid archwilio drwy drafodaeth gyda grwpiau gwledig allweddol, gan gynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n cyflawni'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Dull Cyflenwi'r Gwasanaeth

- 1.19 Mae'r holl randdeiliaid a'r cyfranogwyr yn croesawu'r dull hyblyg hwn, sy'n cael ei arwain gan yr unigolyn, a chaiff hyn ei gynorthwyo gan ddiffyg strwythur diffiniedig ar gyfer y prosiect. Mae'n bwysig y caiff yr hyblygrwydd hwn ei gynnal er mwyn caniatáu i Gynghorwyr y prosiect ymateb i sefyllfaoedd a chyfleoedd sy'n codi yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir ganddynt. Croesawir hefyd yr amryw adnoddau y gall Cynghorwyr y prosiect eu defnyddio, er mai aneglur ar hyn o bryd yw'r galw sydd amdanynt. Y rheswm am hyn yw bod y diffyg o ran darpariaeth hyfforddiant Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth yn debygol o fod wedi cyfyngu ar y lefel o alw am ddarpariaeth gofal plant. O ganlyniad, y mae'n aneglur p'un a gaiff y cyllidebau sydd ar gael sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn eu defnyddio'n llawn.

Argymhelliad 9: Cynnal yr hyblygrwydd sydd gan Gynghorwyr y prosiect o ran gweithredu wrth iddynt gyflenwi eu gwasanaethau.

Cyflawni Canlyniadau

- 1.20 Wrth ystyried canlyniadau, mae'n bwysig cydnabod bod y prosiect fel arfer yn ymgysylltu â phobl sydd gryn bellter o'r farchnad lafur, a chyn ymgysylltu â'r prosiect, annhebygol yw eu bod yn chwilio am waith.
- 1.21 Mae'r ffactorau hyn yn golygu bod sicrhau canlyniadau cyflogaeth cynaliadwy i 20 y cant o'r cyfranogwyr (targed y prosiect) yn her. Er hyn, mae model y prosiect yn seiliedig i raddau helaeth ar ymyriadau cyflogadwyedd diweddar, gan gynyddu'r siawns o gyrraedd y targed hwn. O ystyried y pellter o'r farchnad lafur yn achos rhai cyfranogwyr, gallai dulliau i fesur y pellter a deithiwyd yn effeithiol (sy'n debygol o gynnwys mesur hunanhyder, hunan-gred a dyheadau) ddarparu ffordd ychwanegol i fesur y buddion a ddeilliodd o'r cymorth.
- 1.22 Y mae'n nodedig nad yw'r targed a bennir i Gynghorwyr y prosiect yn rhoi ystyriaeth i leoliad. Nodwyd amrywiaeth o heriau i gyflenwi gwasanaethau'r prosiect sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig a/neu ardaloedd sy'n dioddef o seilwaith gwael.

Argymhelliad 10: Cyflwyno dulliau cadarn i fonitro taith cwsmeriaid a'u canlyniadau cyflogaeth er mwyn nodi unrhyw batrymau lleoliadol wrth gyflenwi gwasanaethau a chyflawni canlyniadau.

Argymhelliad 11: Comisiynu'r gwerthusiad cyfunol cyn gynted ag sy'n ymarferol i fesur taith cyfranogwyr a'r pellter a deithiwyd ac er mwyn llunio argymhellion amserol ar gyfer y prosiect.

Monitro

- 1.23 Dylai prosiectau a gyflawnir fel rhan o raglen Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020 ddarparu tystiolaeth glir o wariant a gweithgarwch i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhaglen ac yn gwneud defnydd priodol o adnoddau cyhoeddus ac Ewropeaidd. Mae hyn yn rhoi baich gweinyddol ar ddarparwyr gwasanaeth ac mae rhywfaint o ddryswch ymysg Cynghorwyr y prosiect ynglŷn â'r hyn ddylent fod yn ei gasglu a sut y dylid ei gasglu.
- 1.24 Ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn, bu i adolygiad o'r systemau casglu gwybodaeth nodi bylchau yn y wybodaeth a gofnodir ac mae hapwiriadau bellach yn cael eu gweithredu mewn ymateb i'r mater hwn.

Argymhelliad 12: Cynnwys enghreifftiau o dystiolaeth gymwys/anghymwys mewn canllawiau mewnol / dogfennau cwestiynau cyffredin.

Perfformiad

- 1.25 Mae'r oedi wrth weithredu'r prosiect, o gyfuno hynny â'r diffyg offer/cynigion i alluogi i'r prosiect gael ei gyflawni, wedi golygu bod y prosiect ar ei hôl hi o gymharu â'r proffil, o ran nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy a'r nifer a lwyddodd i gael gwaith.
- 1.26 Roedd Cynghorwyr y prosiect yn pryderu bod y targed a osodwyd ar gyfer cynorthwyo rhieni i gael gwaith yn heriol. Anodd yw barnu maint heriau oherwydd, ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn, nid oedd y prosiect yn gwbl weithredol. Yn ychwanegol, bydd y cyfleoedd addas sydd ar gael, sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect, yn effeithio ar ba mor gyraeddadwy yw'r targed hwn.

Argymhelliad 13: Adolygu proffil y prosiect chwe mis wedi i'r prosiect fod yn gwbl weithredol i nodi a oes angen ailbroffilio'r targedau.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Ym mis Ionawr 2016, cafodd Wavehill ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad proses o brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Nod y prosiect yw cynorthwyo rhieni di-waith i dderbyn hyfforddiant neu swydd os mai gofal plant yw eu prif rwysr rhag gwneud hynny. Lansiwyd y prosiect ym mis Hydref 2015 i rieni 25 oed a hŷn. Gweithredwyd y prosiect dros ddau gyfnod, gyda Chyfnod 1 yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2015 ar draws tri awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion), a Chyfnod 2 ar draws gweddill Cymru o fis Tachwedd 2015. Yn dilyn hynny, derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ymestyn y prosiect i gynnwys rhieni 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) ym mis Ebrill 2016².
- 2.2 Cyfanswm cost y prosiect cyfan (dros 25 oed a 16-24 oed) yw £13.5 miliwn ar gyfer 2015–18. O hyn, caiff £5 miliwn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a chaiff yr £8.5 miliwn sy'n weddill ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- 2.3 Dros oes gweithredu prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth, y nod yw cynorthwyo 7,884 o rieni economaidd anweithgar a di-waith³, cynorthwyo unig rieni, rhieni o aelwydydd heb waith neu gynorthwyo ail enillydd (posibl) oddi mewn i aelwyd sydd â gwaith. Drwy gynorthwyo'r grwpiau hyn, mae'r prosiect yn anelu i gynyddu nifer y rhieni sydd mewn gwaith (gyda tharged o o leiaf 1,577 o rieni yn cael eu cynorthwyo i dderbyn cyflogaeth addas), gan leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith. Yn ychwanegol, rhagwelir y bydd llawer yn rhagor o rieni yn gwneud gwaith gwirfoddol, yn derbyn hyfforddiant neu'n cyflawni profiad gwaith, a fydd yn eu helpu i gynyddu eu siawns o dderbyn swydd.

² Cawsant eu hôl-gymeradwyo i fis Hydref 2015

³ Mae rhieni dros 25 oed ond yn gymwys i dderbyn cymorth gan brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth os ydynt yn cael eu hystyried yn economaidd anweithgar. Mae rhieni 16 i 24 oed yn gymwys os nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) a gallant fod yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith.

- 2.4 Mae'r cymorth wedi'i anelu at rieni sy'n byw y tu allan i Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf⁴ ac mae'r dull ymgysylltu fel arfer yn ceisio defnyddio seilwaith cymorth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer grwpiau gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf.⁵ Mae gan bob awdurdod lleol⁶ fyndiad at Gynghorydd Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, sydd wedi'u recriwtio a'u cyflogi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Cynghorwyr y prosiect yn gweithio gyda thimau cymorth i deuluoedd sy'n seiliedig yn y gymuned i gynnig gwasanaethau ychwanegol i helpu i oresgyn rhwystrau ar sail gofal plant er mwyn galluogi rhieni economaidd anweithgar i baratoi ar gyfer gwaith a chael gwaith.
- 2.5 Mae'r model a fabwysiadwyd ar gyfer prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn canolbwyntio'n helaeth ar allgymorth, ac mae disgwyl i Gynghorwyr y prosiect dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y cymunedau. Mae'r rhieni yn dod i gyswllt â'r prosiect yn wirfoddol, a'r nod yw bod y cymorth a ddarperir i'r rhieni drwy'r prosiect yn unigol i'w hanghenion, a all gynnwys darparu cyllid i dalu am ofal plant (tra bo'r rhieni yn derbyn hyfforddiant neu gyfleoedd profiad gwaith), cludiant i deithio i dderbyn hyfforddiant / i fynd i gyfweiliadau, neu i dalu am ddarparu hyfforddiant.

Nodau'r Gwerthusiad

- 2.6 Comisiynwyd y gwerthusiad gyda phwyslais ar broses, a'r nod o ddarparu dealltwriaeth o'r canlynol:
- y ffordd y sefydlwyd prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
 - dyluniad y prosiect (ac yn benodol, y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r awdurdodau lleol)
 - pa mor dda y caiff y prosiect ei weinyddu
 - pa mor effeithiol ydyw ar nodi'r derbynwyr arfaethedig ac ymgysylltu â hwy
 - sut mae'r prosiect yn helpu'r cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau i weithio, meithrin sgiliau sy'n berthnasol i waith, a manteisio ar gyfleoedd sy'n berthnasol i waith.

⁴ Mae 52 o Ardaloedd (Clystyrau) Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, yn cynrychioli 24 y cant o gyfanswm y boblogaeth.

⁵ Ceir manylion am Deuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn yr adran sy'n dilyn.

⁶ Nid oes gan Flaenau Gwent na Merthyr Tudful Gynghorydd penodol, ond gall gwasanaethau gael eu darparu gan staff y prosiect sy'n seiliedig mewn awdurdodau cyfagos.

2.7 Er mwyn cyflawni'r uchod, bu'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gweithrediad y prosiect
- y rhyngweithio rhwng y staff cyflenwi a derbynwyr cymorth y prosiect, a'r rhyngweithio rhwng yr amryw gyrff cyflenwi (Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r awdurdodau lleol)
- lefel y ddealltwriaeth ynglŷn â nodau'r prosiect
- y systemau monitro sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Wrth gyflawni'n erbyn y nodau a'r amcanion hyn, mae'r gwaith ymchwil yn darparu argymhellion er mwyn cyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu'r prosiect yn y dyfodol.

Strwythur yr Adroddiad Hwn

2.8 Dyma strwythur gweddill yr adroddiad hwn.

- Mae Adran 2 yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth gynnal y gwerthusiad.
- Mae Adran 3 yn adolygu'r cyd-destun polisi hanesyddol a phresennol sydd i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.
- Mae Adran 4 yn archwilio'r sail resymegol sydd i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a'i ddyluniad.
- Mae Adran 5 yn cyflwyno adborth gan randdeiliaid, Cynghorwyr y prosiect, ac awdurdodau lleol ar gynnydd y prosiect. Mae'n archwilio'n fanwl y prosesau a ddefnyddir wrth gyflawni'r prosiect, ac yn ystyried i ba raddau y mae ei weithrediad yn adlewyrchu'r model a'r theori newid gwreiddiol.
- Mae Adran 6 yn cyflwyno adborth gan gyfranogwyr ar eu cefndir, eu rhesymau a'u llwybrau at ymgysylltu, a'u canfyddiadau o'r cymorth a dderbyniwyd drwy'r prosiect.
- Mae Adran 7 yn crynhoi'r casgliadau ac yn awgrymu cyfres o argymhellion.

3. Dull Methodolegol

- 3.1 Mae gwerthusiad proses yn canolbwyntio ar ddeall **sut** caiff ymyrraeth polisi ei chyflawni a pha ffactorau a fu'n helpu neu'n llesteirio ei heffeithiolrwydd.⁷ Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau drwy'r gwerthusiad, fel a amlinellir isod.

Ymchwil Ddesg

- 3.2 Bu ymchwil ddesg yn elfen fawr o'r gwerthusiad proses er mwyn deall y cyd-destun strategol a pholisi y mae prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn gweithredu ynddo. Drwy'r ymchwil ddesg, roedd modd cynnal adolygiad o'r cyd-destun a'r sail resymegol i fuddsoddi yn y prosiect, ynghyd â'r rhesymeg gysylltiedig sy'n sail i fodel gweithredol y prosiect (mae'r theori newid sy'n archwilio'r rhesymeg hon i'w gweld yn Adran 4).

Cyfweliadau Cwmpasu

- 3.3 Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu lled-strwythuredig â chwech o randdeiliaid allweddol ym mis Chwefror 2016 dros y ffôn. Roedd y rhain yn cynnwys staff Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau a fu'n rhan o ddylunio a rheoli'r prosiect a dau gynrychiolydd awdurdod lleol a fu'n ymwneud â chyflwyno'r prosiect yng Nghyfnod 1. Nod y cyfweliadau hyn oedd archwilio'r cyd-destun a oedd i ddatblygu'r model i gychwyn, y tybiaethau a wnaed wrth ddylunio'r prosiect, camau cynnar gweithredu'r prosiect, a'r safbwynt presennol ar weithrediad y prosiect. (Mae copi o'r canllaw trafod a ddefnyddiwyd i fframio'r cyfweliadau cwmpasu i'w gweld yn Atodiad A).

Cyfweliadau â Rhanddeiliaid – Gweithredu

- 3.4 Ym mis Mawrth 2016, yn dilyn y cyfweliadau cwmpasu a'r ymchwil ddesg, cynhaliwyd cyfweliadau â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli a chyflenwi prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Cynhaliwyd y cyfweliadau'n bennaf ar sail un-i-un (cyfwelwyd â dau aelod o staff sydd â rolau tebyg ar yr un pryd) â 14 o Gynghorwyr y prosiect a staff rheoli'r Adran Gwaith a Phensiynau.

⁷ Trysorlys Ei Mawrhydi. (2011) *The Magenta Book: Guidance for Evaluation*

- 3.5 Roedd y cyfweiliadau yn lled-strwythuredig ac fe'u cynhaliwyd ar y ffôn. Roeddynt yn archwilio'r dull a ddefnyddiwyd i gyflenwi'r prosiect. Diben hyn oedd nodi i ba raddau y mae'r model a nodir yn y cynllun busnes yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd ym mhob ardal. Roedd y cyfweiliadau hefyd yn archwilio i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â darpariaeth gwasanaethau presennol a'r dull o gasglu gwybodaeth fonitro. Mae copi o'r canllaw trafod i'w weld yn Atodiad A.
- 3.6 Cyfwelwyd â 22 yn ychwanegol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol dros y ffôn ac ar sail un-i-un. Ceisiai'r cyfweiliadau hyn archwilio'r farn ar ddulliau gweithredu a chyflenwi'r prosiect ym mhob awdurdod lleol, i ba raddau'r ystyrir bod y prosiect yn cyd-fynd â gwasanaethau presennol a gynigir ym mhob ardal, a'u safbwynt ar sut gall y prosiect gael ei wella, os o gwbl. (Unwaith yn rhagor, mae copi o'r canllaw trafod i'w weld yn Atodiad A a chyflwynir rhestr o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad yn Atodiad A).

Ymchwil i'r Cyfranogwyr

- 3.7 Cynhaliwyd arolwg ffôn gyda 60 o gyfranogwyr y prosiect hefyd. Roedd y cyfweiliadau yn ansoddol eu natur er mwyn gallu archwilio cefndiroedd y cyfranogwyr, eu llwybr at ymgysylltu, a'u taith drwy wasanaeth y prosiect. Roedd y dull hwn yn cynnig y gallu i gael darlun o gyfoeth y wybodaeth drwy sgwrs a'r gallu i archwilio rhai o'r ymatebion ymhellach. Serch hynny, anfantais y dull hwn yw bod posibilrwydd o ogwydd yn y cyfweiliadau (gan fod yr ymchwil yn ddibynol ar nodiadau a dehongliadau'r cyfwelydd).
- 3.8 Derbyniwyd manylion cyswllt y cyfranogwyr drwy Lywodraeth Cymru o gronfa ddata System Marchnad Lafur yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyda'r cyfranogwyr yn cydsynio i gyfranogi fel rhan o ymwneud â'r prosiect. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr wedyn am eu cydsyniad i gymryd rhan yn yr arolwg pan gysylltai'r cyfwelydd â hwy i gychwyn.
- 3.9 Gofynnodd Llywodraeth Cymru am amrywiaeth o gyfranogwyr gan bob un o Gynghorwyr y prosiect (dau neu dri o gyfranogwyr gan bob Cynghorydd) ac felly cael sampl fwriadus er mwyn cael amrywiaeth ddaearyddol o gyfranogwyr o bob ardal. Defnyddiwyd cwota o o leiaf un cyfranogwr o bob awdurdod lleol, gan hapddewis y cyfranogwyr oddi mewn i bob ardal awdurdod lleol.

- 3.10 Yn sgil y dull samplu, derbyniwyd 89 o gyfranogwyr i'r tîm geisio eu cyfweld, ac felly llwyddodd y tîm ymchwil i gael ymateb o 67 y cant (60 o gyfranogwyr). Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut y daethant yn ymwybodol o brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, a sut y bu iddynt ymgysylltu â'r prosiect, pa gymorth a dderbyniwyd ganddynt drwy gydol y prosiect, a'u safbwyntiau ar ba mor ddefnyddiol oedd y cymorth hwn. (Ceir copi o'r arolwg hwn yn Atodiad A).

4. Cyd-destun Polisi

- 4.1 Mae'r adran hon yn archwilio polisi hanesyddol a phresennol sy'n berthnasol i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Y mae hefyd yn adolygu sawl ymyrraeth polisi benodol lle y bu i brofiad yr ymyriadau hynny ddylanwadu ar ddyluniad y prosiect.

Polisi'r Deyrnas Unedig

- 4.2 Mae lleihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd wedi parhau i fod yn amcan polisi allweddol i lywodraethau olynol yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Bu'r ymateb polisi yn eang gan gynnwys nifer o bolisïau gweithredu cadarnhaol (ymyriadau lle y caiff hyfforddiant neu gymorth yn ymwneud â swyddi eu cynnig fel arfer) i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd. Mae'r rhain wedi cynnwys mentrau yn seiliedig ar ardaloedd, megis Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru⁸, Partneriaethau Cynhwysiant Cymdeithasol yn yr Alban⁹, a'r Fargen Newydd i Gymunedau¹⁰ a Chronfa Adnewyddu'r Gymdogaeth¹¹ yn Lloegr. Ers 2008, mae polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi troi'n yn llwyr o ganolbwyntio ar bolisïau gweithredu cadarnhaol tuag at bolisïau gweithredu negyddol, sydd fel arfer yn cynnwys gostwng budd-daliadau a bygythiad o sancsiynau. Mae'r dull hwn wedi cynnwys disodli Budd-dal Analluogrwydd â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a gostwng oedran y plentyn ieuengaf y mae gofyn i unig rieni geisio gwaith ar ôl hynny.
- 4.3 Nid yw polisi lles yng Nghymru yn gymhwysedd datganoledig, a chyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau ydyw. Bu'n destun diwygiadau sylweddol, ac yn parhau i fod felly, gan gynnwys bod disgwyl i rieni sy'n hawlio budd-daliadau chwilio am waith pan fo eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd tair blwydd oed.

⁸ <http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy> – darllenwyd ar 14^{eg} Mehefin 2016

⁹ ODS Consulting. (2006) *An overview of the Social Inclusion Partnership (SIP) programme*. Cymunedau'r Alban

¹⁰ Mae'r gwerthusiad cenedlaethol ar y Fargen Newydd i Gymunedau i'w weld fan hyn <http://extra.shu.ac.uk/ndc/> (darllenwyd ar 14^{eg} Mehefin 2016).

¹¹ Amion Consulting. (2010) *Evaluation of the National Strategy for Neighbourhood Renewal: Final Report*. Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (2010)

Polisi Llywodraeth Cymru

- 4.4 Yng Nghymru mae'r Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru, yn arbennig o berthnasol i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.
- 4.5 Mae trechu'r arfer o fod heb waith yn cyd-fynd yn agos â Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, sydd ag iddi dri amcan strategol.
- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, gan fod plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith mewn perygl penodol o fod yn byw mewn tlodi.
 - Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel fel y gallant ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n dda a sicrhau cynnydd yn y gwaith, gan fod tlodi mewn gwaith yn fater sydd ar gynnydd.
 - Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r rhai tlotaf. Mae atal tlodi yn sylfaenol i'n gweledigaeth hirdymor o gynorthwyo aelwydydd incwm isel.¹²
- 4.6 Mae'r cynllun ehangach, Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, yn pwysleisio ei ymrwymiad i drechu tlodi, gyda chamau gweithredu yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:
- tlodi
 - helpu pobl i gael gwaith
 - gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi.¹³
- 4.7 Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn cyfeirio at raglenni blaenllaw Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Thwf Swyddi Cymru fel dulliau pwysig i gyflawni ei ganlyniadau o ran trechu tlodi. Dyluniwyd prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth i adeiladu ar seilwaith y rhaglenni hyn, a rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn benodol, i gyfrannu at eu nod (ymysg cyfres o nodau eraill) o leihau nifer yr aelwydydd heb waith.

¹² Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/topics/people-and-communities/tackling-poverty/?lang=cy> [Darllenwyd ar 14^{eg} Mehefin 2016]

¹³ Ibid.,

Teuluoedd yn Gyntaf

- 4.8 Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn hybu'r arfer o ddatblygu systemau amlasiantaeth effeithiol i deuluoedd, yn arbennig y teuluoedd hynny sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais clir ar ymyrraeth gynnar ac atal ac ar ddwyn sefydliadau ynghyd i weithio gyda'r teulu cyfan i helpu i atal problemau rhag datblygu i fod yn argyfwng.
- 4.9 Caiff cynnydd Teuluoedd yn Gyntaf ei fonitro ar hyn o bryd mewn pedwar maes o ganlyniadau, ac mae prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn cyd-fynd yn agos a'r cyntaf o'r rhain.
- Bod pobl o oed gwaith mewn teuluoedd sydd ar incwm isel yn cael gwaith, ac yn gwneud cynnydd yn eu gwaith.
 - Bod plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi, yn cyflawni eu potensial.
 - Bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn mwynhau iechyd a lles.
 - Bod teuluoedd yn hyderus, yn meithrin ei gilydd, yn gallu gwrthsefyll problemau ac yn ddiogel.
- 4.10 Dylai gwasanaethau a gomisiynir drwy Deuluoedd yn Gyntaf ganolbwyntio ar o leiaf un o'r canlyniadau hyn, gyda'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni'n erbyn pob un ohonynt.
- 4.11 Caiff Teuluoedd yn Gyntaf ei gyflenwi gan awdurdodau lleol. Mae gofyn i bob awdurdod lleol ddatblygu cynllun gweithredu sy'n nodi sut caiff y rhaglen ei chyflenwi yn eu hardal leol. Mae angen i bob awdurdod lleol amlinellu eu dull gweithredu a sut byddant yn rhoi tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y pedwar maes o ganlyniadau a ddisgrifir uchod. Er mwyn cyfarwyddo'r gwaith o amcangyfrif y cynnydd, nodwyd cyfres o ddangosyddion poblogaeth allweddol. Mae'r dangosydd canlynol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn dangos ymhellach sut mae'r rhaglen yn cyd-fynd â phrosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, ac yn rhoi cyfiawnhad dros gydweithio rhwng y ddwy ymyrraeth:
- Cyfradd y plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau di-waith (ar sail prawf modd) neu'n derbyn credydau treth lle mae eu hincwm yn is na 60 y cant o'r incwm canolrifol.

Dechrau'n Deg

- 4.12 Rhaglen y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg i deuluoedd sydd â phlant o dan bedair mlwydd oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pedair elfen allweddol i raglen Dechrau'n Deg:
- gofal plant rhan amser o ansawdd uchel am ddim i blant 2-3 oed
 - gwell gwasanaeth ymweliadau iechyd
 - mynediad at gymorth rianta
 - cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- 4.13 Dyluniwyd prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth i adeiladu ar y seilwaith cymorth a gynigir drwy raglen Dechrau'n Deg, yn benodol lle mae darpariaeth Dechrau'n Deg ar gael y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lle y bydd prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn cyflenwi ei wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio safleoedd Dechrau'n Deg fel safleoedd allweddol i ymgysylltu â chyfranogwyr a'u cynorthwyo, a gweithio gyda staff Dechrau'n Deg i nodi darpariaeth gofal plant addas i'r cyfranogwyr hyn (os oes angen).

Ymyriadau Polisi Allweddol Blaenorol (Gwersi a Ddysgwyd)

- 4.14 Bu i sawl ymyrraeth polisi flaenorol ddylanwadu ar ddyluniad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Caiff eu dylanwad ar ddyluniad y prosiect ei drafod yn fanwl yn Adran 3.

Genesis Cymru 2

- 4.15 Rhaglen oedd Genesis Cymru 2 a weithredai ledled Cymru, gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Lanswyd y rhaglen ym mis Hydref 2008 gyda'r bwriad iddi redeg hyd at fis Mehefin 2014, a'r nod oedd cynyddu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ymysg grwpiau targed allweddol, sef NEETs, cyfranogwyr hŷn a merched sy'n unig rieni yn benodol.
- 4.16 Er mai nod y rhaglen oedd cynyddu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd, daeth gwerthusiad annibynnol i'r casgliad iddi ganolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu â chyfranogwyr a gwaredu rhwystrau tuag at gyflogaeth. Nifer gymharol fach (naw y cant) o'r cyfranogwyr a gafodd waith yn ganlyniad wrth adael y rhaglen. Y mae sawl mater cyd-destunol yn debygol o fod wedi dylanwadu ar y perfformiad hwn¹⁴; ond

¹⁴ Roedd y dirwasgiad economaidd, cyflwyno'r Rhaglen Waith, a leihaodd y sylfaen o gwsmeriaid cymwys yn sylweddol, a'r ffaith nad oedd modd rhannu canlyniadau cyflogaeth gyda gweithgarwch cyllido eraill, yn

ffactor allweddol oedd camddehongliad ymysg staff Genesis Cymru 2 ac yn fwy eang mai parhad o Genesis Cymru, rhaglen flaenorol a ganolbwyntiai ar waredu rhwystrau i gyflogaeth sy'n wynebu merched sy'n unig rieni, oedd Genesis Cymru 2. Deilliai'r dryswch hwn yn bennaf o'r ffaith i staff a chyfranogwyr drosglwyddo o Genesis Cymru i Genesis Cymru 2. Yn sgil methu â chyfathrebu'r newid mewn pwyslais a ddymunwyd, ni lwyddwyd i oresgyn y camddealltwriaeth hwn.¹⁵

- 4.17 Bu'r gwaith o sefydlu strwythur llywodraethu ar gyfer y rhaglen yn araf, ac roedd yn anghyson. Ac roedd y gwaith o fonitro'r rhaglen yn arbennig o anghyson, yn rhannol am i'r rhaglen gael ei gwasgaru'n eang a bod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Yn y gwerthusiad, pwysleisiwyd diffyg cysondeb o ran sut y cafodd meini prawf cymhwysedd a chanlyniadau'r rhaglen eu cyfathrebu a'u dehongli.¹⁶
- 4.18 Serch hynny, ystyriwyd bod Genesis Cymru 2 yn brosiect ymgysylltu llwyddiannus, a fu o gymorth i gyfranogwyr, yn arbennig y rhai sy'n annhebygol o fod wedi dod i gyswllt â gwasanaethau cymorth cyflogaeth prif ffrwd, i gymryd eu camau cyntaf tuag at ddod i gyswllt o'r newydd â'r farchnad lafur.¹⁷ Er hyn, daethpwyd â Genesis Cymru 2 i ben fesul cam yn 2013.

Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig

- 4.19 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot o wasanaethau cynghorol, dan arweiniad Canolfannau Byd Gwaith, mewn Canolfannau Plant Integredig rhwng 2010 a 2012. Rhoddwyd y dasg i Gynghorwyr Cyflogaeth Rhieni gydweithio'n agos â Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i gyrraedd y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mewn gwerthusiad o'r rhaglen yn 2012, nodwyd y canfyddiadau canlynol:
- Sefydlwyd perthnasoedd cryf rhwng Canolfannau Byd Gwaith, Canolfannau Plant Integredig a Chymunedau yn Gyntaf, a fu'n sylfaen i gydweithio'n effeithiol.
 - Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith i ddarpariaeth Canolfannau Byd Gwaith gael ei hychwanegu at y rhwydweithiau cymorth a sefydlwyd gan ddulliau Cymunedau yn Gyntaf a Chanolfannau Plant Integredig.

ffactorau cyffredin a nodwyd fel cyfyngiadau cyd-destunol ar berfformiad prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ystod Cronfeydd Strwythurol 2007-2013.

¹⁵ Gwerthusiad o Genesis Cymru 2, SQW ar ran Llywodraeth Cymru (2014)

¹⁶ Ibid.

¹⁷ Ibid.

- Bu i'r cynllun peilot estyn allan ac ymgysylltu â rhieni 'anodd eu cyrraedd' (er i hyn amrywio o un ardal i'r llall).
- Roedd yn ymddangos bod helpu rhieni i ddatblygu synnwyr o reolaeth dros eu gyrfaedd eu hunain, yn ogystal â hyder yn eu galluedd, yn elfen hanfodol o'r hyn a gynigwyd.
- Roedd y ffaith i staff y Canolfannau Byd Gwaith fod wedi'u lleoli yn y gymuned yn golygu bod ganddynt well dealltwriaeth o anghenion pobl leol ac roedd modd iddynt addasu'r hyn a gynigwyd yn unol â hynny.
- Wynebwyd heriau o ran mynediad at ddeunydd marchnata, cyfleusterau TG a gofod personol i gynnal cyfweiliadau oddi mewn i'r Canolfannau Plant Integredig neu Gymunedau yn Gyntaf.
- Defnyddiol hefyd fyddai annog Cyngorwyr Cyflogaeth Rhieni i ddarparu cymorth mewn-gwaith.
- Roedd Cyngorwyr Cyflogaeth Rhieni, a oedd hefyd yn chwarae rhan ffurfiol ar lefel gymunedol, yn aelodau o fyrddau Canolfannau Plant Integredig neu Gymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, yn sôn am fanteision penodol o ran rhannu gwybodaeth neu sefydlu partneriaethau i fynd i'r afael â materion lleol.¹⁸

4.20 Roedd llwyddiant y model cyflenwi hwn yn golygu y bu iddo ddylanwadu'n fawr ar ddyluniad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (a gaiff ei archwilio yn yr adran ganlynol). Aeth y cynllun peilot yn ei flaen ac ers hynny cafodd ei ymgorffori yn rhan o feysydd prosiect Cymunedau am Waith.

Ymyriadau Polisi Allweddol Presennol

4.21 Bu i sawl ymyrraeth polisi bresennol hefyd ddylanwadu ar ddyluniad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, fel a drafodir isod.

¹⁸ Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth. (2012) *Gwerthusiad o Wasanaethau Cyngori y Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig mewn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf*. Llywodraeth Cymru

Esgyn

- 4.22 Mae Rhaglen Esgyn yn adlewyrchu ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi¹⁹ i ddarparu 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw mewn aelwydydd heb waith erbyn diwedd 2017.
- 4.23 Gweithreda'r Rhaglen mewn naw o ardaloedd cyflenwi yn seiliedig mewn 12 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf²⁰ ledled Cymru. Daeth ardal gyflenwi gyntaf Esgyn yn weithredol ym mis Ionawr 2014, a lansiwyd y rhaglen yn ffurfiol ym mis Mawrth 2014 ac mae bwriad i'r rhaglen barhau hyd at fis Mawrth 2018. Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid craidd y Rhaglen, ac mae'n costio tua £1.1 miliwn y flwyddyn.
- 4.24 Ym mhob ardal gyflenwi, recriwtiwyd timau bach o fentoriaid i ymgysylltu ag oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn aelwydydd sydd heb waith yn y tymor hir (lle nad oed neb yn yr aelwyd wedi gweithio am o leiaf chwe mis). Mae cyfranogwyr cymwys yn cychwyn yn y rhaglen yn wirfoddol, ac mae'r mentoriaid yn asesu dyheadau'r cyfranogwr mewn perthynas â chyflogaeth, hyfforddiant neu addysg a'u helpu i ddatblygu cynlluniau (gweithredu) datblygu personol i roi strwythur i'w camau tuag at waith. Eir ati wedyn i geisio cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth addas.
- 4.25 Ar lefel leol, mae'r mentoriaid yn nodi cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Ar lefel genedlaethol, gwahoddwyd adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac eraill i ehangu eu cronfa o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a allai fod yn addas yn lleol i bobl sydd heb waith yn y tymor hir. Mae'r rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a chyfleoedd oddi mewn i Raglenni Addysg a Sgiliau presennol.
- 4.26 Mae Rhaglen Esgyn yn gwneud yn well na'r amcanestyniadau o ran cyflawni canlyniadau ar y cam hwn, gyda 3,622 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth wedi'u darparu, gan gynnwys 720 o bobl wedi'u cynorthwyo i gael gwaith.²¹

¹⁹ Llywodraeth Cymru (2014), *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Adroddiad Blynnyddol 2014*, Llywodraeth Cymru

²⁰ Mae cyfanswm o 52 o Glystyrau yn cwmpasu'r cymunedau mwyaf difreintiedig (10 y cant) yng Nghymru).

²¹ Hyd at 31^{ain} Gorffennaf 2016

Cymunedau am Waith

- 4.27 Mae Cymunedau am Waith hefyd wedi derbyn cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a chaiff ei chyd-noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Y mae'n fwy o ran maint a chwmpas na phrosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ond mae'n cydfynd yn agos o ran polisi a dull gweithredu. Yn benodol, mae'r rhaglen yn targedu pobl ifanc a fu (ers mwy na 12 mis) yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Rhaid i gyfranogwyr fod yn byw mewn Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf.
- 4.28 Mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn unig y caiff y rhaglen ei chyflenwi ac mae'n gweithredu fel gwasanaeth cyflogaeth yn seiliedig yn y gymuned. Caiff y rhaglen ei chyflenwi gan Gynghorwyr Cyflogaeth (a gyflogir gan y Ganolfan Byd Gwaith ond sydd wedi'u hintegreiddio i dimau Cymunedau am Waith) a Mentoriaid Cyflogaeth (a gyflogir gan Gorff Cyflenwi Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf perthnasol). Mae dau fath o gynghorwyr ac o fentoriaid: Cynghorwyr Cyflogaeth Rhieni (gan adlewyrchu cynghorwyr prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth), Cynghorwyr Cyflogaeth Cymunedol (yn seiliedig ar fodel blaenorol Yn Awyddus i Weithio), Mentoriaid Oedolion (i rai dros 25 oed) a Mentoriaid Ieuencid (i oedolion ifanc o dan 25 oed). Mae'r mentoriaid yn nodi'r rhwystrau y mae'r unigolion yn eu hwynebu wrth gael gwaith, cytuno ar gynllun gweithredu, darparu cymorth, a chynnig camau a gweithgareddau i'w helpu i ddod o hyd i waith neu addysg amser llawn (a ystyrir yn gam tuag at waith).
- 4.29 Gall unigolion sy'n cyfranogi yn rhaglen Cymunedau am Waith naill ai gael eu cynnwys drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf, gwneud cais yn annibynnol i ymuno â Chymunedau am Waith, neu gael eu hatgyfeirio gan amryw gyrff statudol a thrydydd sector. Cwbl wirfoddol yw cyfranogi.
- 4.30 Mae'r rhaglen hefyd yn ymgorffori proses frysbenno i gynorthwyo gwaith tîm a rheoli achosion effeithiol. Mae'r broses frysbenno yn cefnogi egwyddorion allweddol gweithrediad Cymunedau am Waith drwy gryfhau'r ddarpariaeth i unigolion drwy sicrhau'r canlynol:
- asesiad cynhwysfawr o anghenion pobl a'u rhwystrau i gyflogaeth
 - model gweithiwr allweddol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag anghenion unigolion yn greiddiol iddo
 - ymateb cydlynol i anghenion unigolion

- rhwydwaith o bartneriaid sydd wedi'i ddiffinio'n dda ac iddo gysylltiadau cryf
- llwybrau at gyflogaeth sydd wedi'u teilwra a'u cynllunio'n unigol
- caiff y cyfranogwyr y cymorth sydd ei angen arnynt gan yr holl bartneriaid sydd ar gael
- bod cyfarfodydd llwyth achosion wedi'u cydlynu a bod proses wedi'i rheoli yn ei lle rhwng cynghorwyr a mentoriaid.

4.31 Mae gan bob Tîm Cyflenwi Lleol, gyda chymorth Gweithiwr Cymorth Brysbennu, drefniadau yn eu lle i gyflenwi'r broses frysbennu gyda chyfarfodydd brysbennu rheolaidd wedi'u sefydlu i gydlynu rhaglen Cymunedau am Waith ar lefel leol.

5. Dyluniad Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r adran hon yn archwilio dyluniad theoretig prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ac yn cyflwyno'r theori newid. Y mae hefyd yn archwilio'r sail resymegol sydd i ymyrraeth polisi o'r natur hon.

Sail Resymegol

- 5.2 Mae pryder y llywodraeth ynglŷn â diweithdra ymysg rhieni yn deillio, yn rhannol, o'r ddealltwriaeth bod cyfnodau estynedig o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau andwyol, i'r rhieni eu hunain ac i'w teuluoedd. Mae i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor oblygiadau sylweddol, a gallant arwain at gynnydd eithriadol mewn amddifadedd materol, lles meddyliol a chorfforol yn dirywio, rhwydweithiau cymorth cymdeithasol yn gwaethygu, a mwy o allgáu cymdeithasol.
- 5.3 Ar lefel unigol, y mae corff sylweddol o dystiolaeth sy'n awgrymu bod effeithiau negyddol hirdymor i ddiweithdra ar les goddrychol a gwrthrychol. Gall cyfnodau estynedig o anweithgarwch economaidd gyfrannu at lefelau uwch o straen ac iselder, a all, yn eu tro, leihau'r tebygolrwydd bod rhywun yn dod o hyd i swydd ac yn parhau mewn swydd.²² Mae cydberthynas hefyd rhwng diweithdra â lefelau isel o hunan-effeithiolrwydd, sef hyder unigolyn yn ei (g)allu ei hun i gyflawni canlyniadau penodol. Gall diffyg hunan-effeithiolrwydd arwain at rywun sy'n ddi-waith yn rhoi'r gorau i geisio newid ei sefyllfa, gan feithrin y syniad na fydd byth yn cael gwaith.
- 5.4 Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae 15.8 y cant o'r aelwydydd yng Nghymru sydd â phlant dibynnol yn rhai heb waith (sy'n gyfwerth ag 87,000 o aelwydydd), sy'n golygu nad oes un aelod o'r aelwyd mewn swydd â thâl²³. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd am y diffyg cyflogaeth ymysg yr aelwydydd hyn yw gofalu am y teulu; rhoddwyd hwn yn brif reswm dros fod aelwyd heb waith gan 30 y cant o aelwydydd dau riant a 42 y cant o aelwydydd unig riant.²⁴

²² Crowther et al. (2000) 'Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review', BMJ: **Error! Hyperlink reference not valid.**

²³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (2016), *Working and Workless Households, October to December 2015*, Arolwg o'r Llafurlu, Setiau Data Aelwydydd, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (2011), *Families and Households in England and Wales 2011*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- 5.5 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae angen i ryw hanner (49 y cant) o'r aelwydydd sydd â phlant dibynnol drefnu gofal plant i'w plant yn rheolaidd, ac mae hanner y rhieni sydd â phlant rhwng 0 a 4 oed sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn ei chael yn anodd ei fforddio.²⁵ Yn ôl yr Adran Addysg, nodai 17 y cant o rieni sydd â phlant o dan 15 oed fod eu trefniadau gofal plant wedi'i gwneud yn anodd, neu'n amhosibl, iddynt ymgymryd â gwaith â thâl.²⁶
- 5.6 Mae teuluoedd unig riant yn arbennig o fregus, ac yn fwy tebygol o brofi tlodi plant p'un a oes ganddynt waith neu beidio. Ar draws y Deyrnas Unedig, er enghraifft, mae 43 y cant o blant mewn teuluoedd unig riant yn byw mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai. Yn cyferbynnu â hynny, 22 y cant o blant sy'n byw mewn teuluoedd cwpl sy'n byw mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai.²⁷

Effaith ar Blant

- 5.7 Ceir corff sylweddol o ymchwil sy'n ystyried y berthynas rhwng diweithdra ymysg rhieni a'i effaith ar ganlyniadau plant, gan gynnwys datblygiad gwybyddol, cyrhaeddiad addysgol, a chmau trosglwyddo i fod yn oedolyn. Yn ôl gwaith ymchwil, ceir amrywiaeth o ffactorau risg teuluol ac amgylcheddol a all danseilio datblygiad plentyn. Mae hyn yn cynnwys lefelau straen ymysg y rhai sy'n bennaf gyfrifol am roi gofal o ganlyniad i ddiweithdra, amddifadedd materol mewn aelwydydd, a diffyg mynediad at ddarpariaeth o ansawdd da, gan gynnwys gofal plant.²⁸
- 5.8 Mae plant mewn aelwydydd sydd heb waith mewn mwy o berygl o brofi amrywiaeth o ganlyniadau datblygiadol andwyol. Y mae hyn yn arbennig o bwysig i blant ifanc iawn, lle mae eu profiadau cynnar yn effeithio'n ddwfn ar eu datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol.²⁹ Gall amddifadedd materol, er enghraifft, effeithio'n negyddol ar gymeriant maethol plant ifanc. Mae plant sy'n newynog yn fwy tebygol o ddioddef o ddiffyg canolbwytio, hunan-barch isel, a blinder, a all effeithio ar ganlyniadau mewn meysydd eraill, yn arbennig dysgu.³⁰

²⁵ Llywodraeth Cymru. (2015). *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-2015*. Gwasanaeth Data y Deyrnas Unedig

²⁶ Ipsos MORI (2013) *Parents' Views and Experiences of Childcare, Research Report*. Yr Adran Addysg

²⁷ Graham H. a McQuaid R. (2014) *Exploring the impacts of the UK government's welfare reforms on lone parents moving into work – literature review*. Glasgow Centre for Population Health

²⁸ Gershoff et al. (2007) 'Income is not Enough: Incorporating Material Hardship Into Models of Income Associations With Parenting and Child Development' yn *Child Development*, 78:1, tt. 70:95

²⁹ Secombe (2004) "Beating the Odds" Versus "Changing the Odds": Poverty, Resilience, and Family Policy' yn *Journal of Marriage and Family*, 64:2, tt. 384-394

³⁰ Bridgeman et al. (1998) *New Findings on Poverty and Child Health and Nutrition: Summary of a Research Briefing*, National Academy Press, Washington DC.

- 5.9 Gall y ffaith i lwybrau datblygu plant gael eu cyfaddawdu hefyd gael effaith fawr ar yr oedolion a fyddant yn y dyfodol. Yn ôl gwaith ymchwil sy'n edrych ar ddata Astudiaeth Carfan y Mileniwm, er enghraifft, roedd diweithdra ymysg rhieni yn gysylltiedig i raddau sylweddol â chyrhaeddiad academiaidd gwael ymysg eu plant. Roedd hyn yn arwain at blant ar gyfartaledd yn treulio 11 y cant yn fwy o amser yn ddi-waith ar ôl gadael addysg amser llawn hyd nes eu bod yn 23 oed na'r plant hynny a fagwyd mewn aelwydydd sydd â gwaith.³¹

Cyfyngiadau ar Lefel Unigol

- 5.10 Mae rhieni'n aml yn mynegi'r dewis ymwybodol i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau gofalu. Mewn gwaith ymchwil ansoddol manwl, pwysleisir y ffaith bod llawer o rieni yn cyfiawnhau eu penderfyniad i aros gartref er mwyn darparu'r gofal a'r cymorth y maent yn teimlo sydd ei angen ar eu plant i ddatblygu'n emosiynol ac addysgol. Caiff aros gartref hefyd ei gyflwyno weithiau fel rhywbeth sydd y tu allan i reolaeth rhieni mewn achosion lle mae gan blant anghenion sylweddol, megis gofalu am blant sydd ag anableddau neu broblemau ymddygiad. Mae rhai rhieni'n mynegi eu penderfyniadau yn nhermau ymateb i ddisgwyliadau diwylliannol ynglŷn â rôl mamau, neu ofalu am yr aelwyd. Nid yw rhieni bob amser yn ystyried y ffactorau hyn yn rhwystr i weithio, nac yn cyfyngu ar ymwneud â'r farchnad lafur. Yn hytrach, roedd eu penderfyniadau'n aml yn cael eu derbyn fel rhan greiddiol o fod yn rhiant da. Daeth y gwaith ymchwil hefyd i'r casgliad bod ymddygiad rhieni at waith ym aml yn gadarnhaol. Y farn gyffredin ymysg aelwydydd unig riant a dau riant oedd bod gweithio yn bwysig oherwydd y manteision personol y mae'n cynnig a'r enghraifft gadarnhaol y mae'n ei roi i blant. Y penderfyniad allweddol oedd **pryd** y mae'n briodol, yn hytrach nag **os** yw'n briodol, i ddychwelyd i weithio.³² Er hyn, gall canfyddiadau fel cyflog isel a diffyg cyfleoedd gwaith diogel sydd ar gael i rieni gyfyngu ar apêl cyflogaeth fel llwybr at mwy o sicrwydd ariannol.

³¹ Schoon et al. (2012) *Intergenerational transmission of worklessness: Evidence from the Millennium Cohort and the Longitudinal Study of Young People in England*. Yr Adran Addysg

³² Gweler Bashir et al. (2011) *Families and work: Revisiting barriers to employment*, Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

- 5.11 Y tu hwnt i ymddygiad tuag at rianta a gwaith, y mae ffactorau pellach ar lefel unigol a all ddylanwadu ar ymgysylltiad. Er enghraifft, gallai unigolyn fod heb y sgiliau, y cymwysterau, y profiad neu'r hyder ar gyfer y swyddi sydd ar gael. Gall fod yn anoddach i rieni fynd i'r afael â'r materion hyn. Gall rhieni wynebu cyfres benodol iawn o amgylchiadau a chyfyngiadau a all danseilio eu gallu i ymwneud â darpariaeth addysg neu hyfforddiant. Yn gyson, nododd gwaith ymchwil rwystrau cyffredin sy'n wynebu llawer o ddarpar rieni, gan gynnwys y ffordd y caiff cyrsiau addysg a hyfforddiant eu darparu, a'r cymorth ariannol sydd ar gael i'w galluogi i'w hastudio.³³ Mae caledi ariannol yn nodwedd gyffredin ymysg rhieni sy'n fyfyrwyr, gan fod eu cyfrifoldebau gofalu yn aml yn golygu na allant dderbyn swydd â thâl i ategu eu hincwm.

Rhwystrau Strwythurol

- 5.12 Y tu hwnt i ffactorau ar lefel unigol, y mae ffactorau cyd-destunol neu strwythurol ehangach a all ddylanwadu ar ymgysylltiad rhieni â'r farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau lleol sydd ar gael i rieni, fel cyfleoedd gwaith hyblyg a diogel o fewn cyrraedd yn hawdd, yn ogystal â gofal plant fforddiadwy o ansawdd da yn y cymunedau lle maent yn byw. Yn absenoldeb rhwydweithiau cymorth anffurfiol, gan gynnwys teulu estynedig, gallai fod angen i rieni ddibynnu ar ddarpariaeth gofal plant yn lleol. Gall hyn gyfyngu ar fynediad at gyfleoedd gwaith neu astudio rhan amser er mwyn cyd-fynd ag amserau gofal plant. Mae p'un a yw'r ddarpariaeth ar gael, yn hygyrch, a'r gost, yn parhau'n faterion allweddol, yn arbennig o amgylch cyfnodau o newid. Ceir oedi'n aml rhwng cael swydd a derbyn y cyflog cyntaf, a gall hynny lesteirio mynediad rhieni at gyfleoedd gofal plant.

Canlyniadau Cyflogaeth Rhieni

- 5.13 Yn reddfol, dylai sefyllfa lle mae gofal plant fforddiadwy ar gael gynyddu'r posibilrwydd bod rhieni, ac unig rieni yn benodol a hwythau'n dwyn baich cyfrifoldebau gofal plant, yn ymgymryd â swydd â thâl. Os nad oes gofal plant ar gael neu os yw costau gofal plant yn dad-wneud y budd o weithio, bydd angen i aelod o'r teulu ofalu am y plentyn.
- 5.14 Ymddengys bod y reddf hon i raddau yn cael eu hategu wrth edrych ar ddata rhyngwladol. Mewn papur a gyhoeddwyd yn 2008 a gymharai'r sefyllfa yn yr Eidal,

³³ I weld crynodeb cynhwysfawr o'r rhwystrau unigol sy'n wynebu rhieni ifanc, gweler Dench et al. (2007) *Young Mothers Not in Learning: a Qualitative Study of Barriers and Attitudes*, Adroddiad 439 y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth: <http://www.employment-studies.co.uk/system/files/resources/files/439.pdf>

Sbaen, Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Denmarc a'r Deyrnas Unedig, daethpwyd i'r casgliad bod sefyllfa lle mae gofal plant ar gael yn cynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd bod mamau'n gyflogedig³⁴ (Del Boca et al, 2008). Y mae'r effaith hon yn fwy ymysg menywod sydd â chymwysterau is sy'n llai tebygol o weithio na rhai sydd â chymwysterau uwch. Ond y mae gwelliannau i ddarpariaeth gofal plant presennol (gan ystyried hynny ar wahân i gymorth cyflogaeth cysylltiedig) yn amcangyfrif llai o fudd, wrth i waith ymchwil diweddar yng Nghymru ragweld effaith gadarnhaol fach iawn (0.1 y cant o gynnydd mewn cyflogaeth ymysg menywod gyda lleihad bach mewn lefelau tlodi³⁵) petai Llywodraeth Cymru yn cynnig 20 awr yn ychwanegol o ofal plant i blant tair i bedair oed.³⁶

- 5.15 Mae sefyllfa lle mae gwaith rhan amser o ansawdd uchel ar gael hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael gwaith, ond mae gwaith rhan amser yn gyffredinol, a all gael ei nodweddu gan gontractau ansicr a thros dro, yn lleihau'r tebygolrwydd bod mamau'n gyflogedig.

Y Theori Newid a'r Model Rhesymeg ar gyfer Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 5.16 Mae'r dystiolaeth a amlinellir yn y sail resymegol, ynghyd â'r cyd-destun polisi a phrofiad ymyriadau polisi diweddar yn yr adran flaenorol, wedi dylanwadu'n fawr ar y theori neu'r rhesymeg sylfaenol sy'n gysylltiedig â phrosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y model rhesymeg a gyflwynir dros y dudalen.
- 5.17 Mae model rhesymeg yn ffordd o ddangos ymyrraeth (boed yn rhaglen neu brosiect) ar ffurf graffigol ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer disgrifio'n gryno ei chydrannau allweddol a'r perthnasoedd sy'n rhyngweithio ynddi. Mae'r cydrannau allweddol fel arfer yn cynnwys mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau'r prosiect³⁷.
- 5.18 Mae theori newid yn ceisio disgrifio ac egluro sut a pham y mae disgwyl i newid sy'n ddymunol ddigwydd mewn cyd-destun penodol ac, yn yr achos hwn, mewn ymateb i ymyrraeth polisi (prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth). Y mae'n nodi cyfres o

³⁴ Del Boca, D., Pasqua, S. a Pronzato, C. (2008) *Motherhood and Market Work Decisions in Institutional Context: a European perspective*, Dondena Working Paper No 11

³⁵ Lle mae'r dull "gofyniad gweithio" yn gymwys i gynnig 20 awr ychwanegol (hynny yw, bod yn rhaid i'r unig riant neu'r ddau riant mewn cwpl fod yn ennill yr hyn sy'n gyfwerth ag o leiaf 16 awr yr wythnos ar y Cyflog Byw Cenedlaethol


³⁶ Frontier Economics (2016) *Opsiynau Polisi Gofal Plant i Gymru*, Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru

³⁷ Trysorlys Ei Mawrhydi. (2011) *The Magenta Book: Guidance for Evaluation*

nodau sy'n gysylltiedig â'r newid sy'n ddymunol ac wedyn yn mapio'r gweithgareddau, y tybiaethau a'r prosesau achosol cysylltiedig a fyddai, yn ôl y ddamcaniaeth, yn arwain at gyrraedd y nodau a nodwyd.

- 5.19 At ddiben yr adroddiad hwn, mae'r model rhesymeg a'r theori newid wedi'u cyfuno mewn un darlun eglurhaol.³⁸
- 5.20 Oddi mewn i'r gwerthusiad, rhoddir pwyslais yn benodol ar brofi pa mor wir yw'r tybiaethau sy'n sail i'r theori newid. Fel gwerthusiad proses, rhoddir pwyslais ar archwilio **sut** y caiff ymyrraeth ei chyflenwi, a mewnbwn, y gweithgaredd a'r allbwn (ynghyd â'r prosesau achosol sy'n gysylltiedig â'r symud o un cam i'r cam nesaf) yw prif feysydd ffocws y theori newid ar gyfer y gwaith ymchwil hwn.
- 5.21 Mae'r adran nesaf yn archwilio'r canfyddiadau a gwyd o'r gwaith ymchwil a wnaed, ac yn profi'r tybiaethau a nodwyd yn y theori newid.

³⁸ Llywodraeth Cymru (addaswyd gan Wavehill)



Dyluniad y Prosiect

- 5.22 Rhoddwyd ystyriaeth i ddyluniad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth drwy gyfuniad o ymchwil ddesg a chanfyddiadau cyfweiliadau a gynhaliwyd â'r rhai a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddylunio'r prosiect.
- 5.23 Fel a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, bu i brofiad ymyriadau polisi blaenorol (gan gynnwys Genesis Cymru 2 a Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig) ddylanwadu'n fawr ar ddyluniad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.
- Yr angen am strwythur llywodraethu syml sy'n gweithredu ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol.
 - Pwysigrwydd darpariaeth allgymorth mewn cymunedau targed er mwyn ymgysylltu â grwpiau targed a deall eu hanghenion.
 - Sicrhau bod y cymorth wedi'i lunio'n unigol at anghenion rhieni gydag ymyriadau pwrpasol, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, darparu cyllid i dalu am ofal plant, cludiant a rhwystrau eraill a nodwyd a darpariaeth hyfforddiant.
 - Yr angen i gynghorwyr gydweithio'n agos â phartneriaethau allweddol, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdodau Lleol, a sefydliadau allweddol eraill yn eu cymunedau i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth wedi'i hintegreiddio'n effeithiol a hybu atgyfeiriadau i'r prosiect a chan y prosiect.
 - Yr angen i negeseuon ynglŷn â nodau'r cymorth fod yn glir.
- 5.24 Yn ystod y gwaith o ddatblygu prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, bu swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cyswllt ag awdurdodau lleol a weithiai ar fentrau tebyg yng ngorllewin Cymru. Roedd dyheadau'r ddwy fenter yn debyg, ond roedd y cynlluniau yng ngorllewin Cymru yn cynnwys adnoddau staffio ychwanegol er mwyn creu cyswllt rhwng gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a Chynghorwyr Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Nodwyd nad oedd pob awdurdod lleol yn teimlo bod angen hyn, ac felly ni chafodd yr elfen ychwanegol hon ei chynnwys yn nyluniad y prosiect. Ym mis Chwefror 2015, cynhaliwyd gweithdy gyda'r awdurdodau lleol hynny a oedd yn dylunio menter debyg, gyda'r bwriad o fanteisio ar eu profiad wrth ddylunio prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ac, wrth wneud hynny, cyfarwyddo sut gallai'r prosiect weithredu ar draws ardal y tri awdurdod lleol (cyfnod 1).

- 5.25 Mae'r prosiect yn disgwyl cyflawni canlyniadau ymgysylltu a chyflogaeth, sy'n berthnasol i raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a nodwyd yn nhabl 5.1 (mae canlyniadau'r prosiect wedi'u nodi yn y model rhesymeg). Y mae'n werth nodi bod y gyfradd drosi, sef cyfradd y cyfranogwyr yr ymgysylltir â hwy sy'n mynd ymlaen i gael gwaith, yn debyg i'r hyn a dargedwyd (ond heb ei gyrraedd yn y pen draw) ar gyfer Genesis Cymru 2. Mae nifer o elfennau'r model wedi newid o'r hyn a sefydlwyd drwy Genesis Cymru 2, gyda chyllido, staffio a strwythurau staffio, a ffynonellau atgyfeirio (gan dargedu'n bennaf y rhai sydd eisoes mewn cyswllt â gwasanaethau eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg) yn wahanol, a neges i gyfranogwyr sy'n fwy eglur i sicrhau eu bod yn deall bod prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn ymwneud â pharatoi at waith a symud tuag at gael gwaith. Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos symudiad gweladwy yn y dull gweithredu sy'n rhoi sylw gofalus i'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau mewn mentrau blaenorol, gan gynyddu'r siawns o gyrraedd y targedau a ddisgrifir yn nhabl 5.1.
- 5.26 Mae'r gyfradd drosi yn y tabl isod yn cyfrifo cyfradd y rhai yr ymgysylltwyd â hwy (Mewnbwn 1) y mae disgwyl iddynt gyflawni un o'r canlyniadau a restrir yn y tabl. Mae Canlyniadau 2, 3, 4 a 6 oll yn ganlyniadau gadael y mae modd eu mesur o fewn 4 wythnos i'r cyfranogwyr adael y prosiect.

Tabl 5.1: Canlyniadau Disgwyliedig ar gyfer prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth dros y Tair Blynedd Cyntaf³⁹

Dangosydd	Cyfradd Drosi *	Nifer
Allbwn		
1. Cyfanswm y rhai yr ymgysylltir â hwy.	Amh.	7,884
Canlyniad		
2. Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) a di-waith neu economaidd anweithgar (16-24 oed), heb fod mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, yn cael gwaith (gan gynnwys hunangyflogaeth) wrth adael.	20%	1,577
3. Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, yn chwilio am waith wrth adael.	25%	1,611
4. Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) a di-waith neu economaidd anweithgar (16-24 oed), heb fod mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, yn ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael.	25%	1,971
5. Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, yn cynyddu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli.	30%	1,933

Dangosydd	Cyfradd	Nifer ⁴⁰
-----------	---------	---------------------

³⁹ Cynllun Busnes Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fersiwn 1.2, Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2015)


Drosi *		
6. Di-waith neu economaidd anweithgar (16-24 oed), heb fod mewn addysg na hyfforddiant, yn derbyn addysg neu hyfforddiant wrth adael	30%	432
Canlyniad Tymor Hwy (a weinyddir drwy Arolwg Cyfranogwyr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru)		
7. Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) a di-waith neu economaidd anweithgar (16-24 oed) heb fod mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth yn cael gwaith (gan gynnwys hunangyflogaeth) 6 mis ar ôl gadael.	25%	1,971

*Canran cyfanswm y rhai yr ymgysylltwyd â hwy sy'n cyflawni'r canlyniad hwn.

- 5.27 Mae rhai canlyniadau yn annibynnol ar ei gilydd, er enghraifft ni all canlyniad cael gwaith (canlyniad 2) gael ei hawlio ynghyd â chanlyniad 3 (chwilio am waith wrth adael) ar gyfer yr un cyfranogwr. Serch hynny, gallai ennill cymhwyster (canlyniad 4), cwblhau lleoliad gwaith (canlyniad 5) a chael gwaith (canlyniad 2) oll gael eu hawlio ar gyfer un cyfranogwr gan y gallai hyn adlewyrchu taith nodweddiadol cwsmer.
- 5.28 Caiff Canlyniad 7 ei weinyddu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chaiff ei gasglu (a'i ddadansoddi) drwy Arolwg Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gomisiynir ar wahân. Nid yw felly yn rhywbeth y bydd prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn ei gasglu'n uniongyrchol.
- 5.29 Mae'r graffeg isod yn rhoi trosolwg cysylltiedig o'r prosesau allweddol sy'n rhan o gyflawni'r prosiect. Mae map y prosesau yn gynhwysfawr o ran ei theori, ond caiff elfennau gweithredu'r prosesau hyn eu defnyddio ar lefel leol i amryw raddau. Yn nes ymlaen yn yr adran hon, archwilir i ba raddau y caiff y prosesau hyn eu cyflawni.

⁴⁰ Mae'r targedau hyn yn berthnasol i Orllewin Cymru a'r Cymoedd ac i'r garfan Dros 25 Oed neu Hŷn yn unig.

Ffigur 5.1 Trosolwg o'r Broses – Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth



Llywodraethu / Strwythur Staffio

Rheoli Prosiect

- 5.30 Oddi mewn i Lywodraeth Cymru, caiff prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ei reoli gan Uwch Reolwr Gweithrediadau a chaiff gymorth tri o Reolwyr Cyfrif y prosiect, ill tri â chyfrifoldeb dros ranbarth daearyddol. Mae'r Rheolwr Cyfrif yn goruchwyllo gwaith gweinyddol a gweithredu'r prosiect ym mhob ardal ddaearyddol ac mae'n yn rhan o'r tîm monitro. Mae swydd ychwanegol yn rhoi cymorth gweinyddol i'r tîm ac mae hefyd gan y prosiect dîm Llywodraethu a Chyllid penodol.
- 5.31 Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r model llywodraethu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, er bod rhai yn ddryslyd ynglŷn â rôl y Rheolwyr Cyfrif a sut maent yn wahanol i'r Rheolwyr Gweithredol a Chynghorwyr y prosiect a ddisgrifir isod.
- 5.32 Oddi mewn i'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae tîm prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn cynnwys Tîm Cyllid a Chydymffurfio sy'n sicrhau bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cydymffurfio â gofynion archwilio Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae pedwar Rheolwr Cyflenwi cyfwerth ag amser llawn sy'n rheolwyr llinell uniongyrchol i Gynghorwyr y prosiect. Mae'r Rheolwr Cyflenwi yn gyfrifol am ardaloedd daearyddol ac maent hefyd yn gyfrifol am feithrin partneriaethau â rhanddeiliaid lleol.

Bwrdd Strategol

- 5.33 Caiff prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ei oruchwyllo gan Fwrdd Strategol (sydd hefyd yn gweithredu fel y bwrdd ar gyfer Cymunedau am Waith). Caiff ei gadeirio am yn ail rhwng Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau a Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Plant a Chwarae yn Llywodraeth Cymru, gydag uwch gynrychiolwyr eraill o Adrannau Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwrfoddol Cymru.

Cynghorwyr Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 5.34 Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am gyflogi 43 o Gynghorwyr Cyflogaeth Rhieni ar gyfer y prosiect. Cafodd dosbarthiad daearyddol y Cynghorwyr ei gyfarwyddo gan nifer o ddangosyddion.
- Cyfran y boblogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n byw y tu allan i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf.
 - Nifer yr unig rieni sy'n byw ym mhob ardal awdurdod lleol.⁴¹
 - Daearyddiaeth awdurdod lleol – yn benodol mewn perthynas â dwysedd y boblogaeth a'r seilwaith trafnidiaeth.
- 5.35 Am fod cynifer o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ym Merthyr Tydfil a Blaenau Gwent a'r boblogaeth gyfyngedig sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd hyn, penderfynwyd y gallai'r ardaloedd hyn gael eu gwasanaethu gan Gynghorwyr y prosiect mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos.
- 5.36 Y disgwyl oedd y byddai hanner y Cynghorwyr a benodid i'r prosiect wedi'u recriwtio'n allanol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyda'r gweddill yn cael eu trosglwyddo'n fewnol oddi mewn i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ond cafodd mwy nag 80 y cant o Gynghorwyr y prosiect eu recriwtio'n allanol, a olygodd fwy o bwysau ar hyfforddiant na'r disgwyl. Cafodd llwybr hyfforddi cyffredinol y Cynghorwyr ei fireinio a'i deilwra i ddiwallu anghenion y Cynghorwyr hynny a oedd newydd eu penodi, gan gadw at ddull dwys yn seiliedig ar sgiliau, ond gan alluogi i'r cwrs fod ychydig yn fyrrach o ran hyd.
- 5.37 Roedd y broses recriwtio yn cyd-daro â chyfyngiad ar draws y Deyrnas Unedig ar recriwtio yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan olygu bod angen cyflwyno achos busnes i'r gweinidog i gyfiawnhau'r ymarferiad recriwtio, a achosodd oedi cyn penodi. Cafodd y broses recriwtio ei hun ei chyflwyno fesul cam gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a hynny wedi'i ddylanwadu'n rhannol gan y dull fesul cam o gyflwyno'r prosiect. Roedd Cynghorwyr y prosiect yn parhau i gael eu penodi ym mis Ionawr 2016, ac erbyn mis Mai 2016 roedd nifer fach o swyddi'r Cynghorwyr yn dal i fod yn wag. Bu i'r oedi hwn ddylanwadu ar gyflwyno Cyfnod 2, a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref 2015 ond a gychwynnodd ym mis Chwefror 2016.

⁴¹ Gydag amcangyfrifon pellach o nifer yr unig rieni sy'n economaidd anweithgar a nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n ofalwyr ar gyfer y cartref neu'r teulu

5.38 Mewn gwerthusiadau ymyriadau polisi tebyg i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, nodwyd y pwysigrwydd sy'n gysylltiedig â bod Cynghorwyr y prosiect yn seiliedig yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt (neu fod modd iddynt eu seilio eu hunain yn y cymunedau hynny). Y teimlad oedd bod y dull hwn o gyflawni yn galluogi i wasanaethau gael eu darparu mewn mannau hygrych a chyfarwydd sy'n wahanol i adeiladau'r llywodraeth. Y disgwyl felly oedd y byddai'r rhan fwyaf o Gynghorwyr y prosiect yn seiliedig mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, ac yn defnyddio darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, a gwasanaethau eraill sy'n seiliedig ar deuluoedd. Roedd camau bwriadol i osgoi lleoli Cynghorwyr y prosiect mewn Canolfannau Gwaith er mwyn pwysleisio bod yr hyn sydd gan y prosiect i'w gynnig yn wahanol i ddarpariaeth lles brif ffrwd.

Rôl Cyngorydd Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

5.39 Mae'r cynllun busnes yn priodoli'r swyddogaethau canlynol i rôl Cyngorydd y prosiect:

- Cynnig cyngor arbenigol ac arweiniad drwy ddiagnosteg un i un cychwynnol a nodi sut i fynd i'r afael ag anghenion y cyfranogwyr a'u rhwystrau cymhleth i gael gwaith.
- Cytuno ar Gynlluniau Gweithredu Personol Unigol.
- Cwmpasu a chanfod atebion i oresgyn rhwystrau i dderbyn gofal plant ar gyfer anghenion y rhiant a'r plentyn er mwyn eu hwyluso i gael gwaith.
- Darparu cyngor ar fudd-daliadau drwy "Well Cyfrifiadau".
- Darparu cymorth i gael gwaith cynaliadwy, gan sicrhau bod sgiliau a dyheadau yn cyd-fynd â chyfleoedd yn y farchnad lafur.
- Nodi'r atebion gorau i'r rhai hynny nad ydynt yn barod i weithio ac y mae angen hyfforddiant arnynt.
- Darparu gwasanaeth cydlynu i gael mynediad at ofal plant, profiad gwaith a darpariaeth sgiliau, a'u canfod a'u trefnu, yn unol â'r Cynlluniau Gweithredu Personol Unigol.
- Darparu gwasanaeth mentora i'r rhai hynny sy'n cychwyn ar brofiad gwaith a hyfforddiant i sicrhau bod y cyfranogwyr yn parhau ar y llwybr cywir i gyflawni eu nodau.

- Meithrin gwaith partneriaeth gyda gweithwyr allweddol, gan gynnwys Timau Cymorth i Deuluoedd (gan gynnwys Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd) a rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, i helpu prosesau atgyfeirio.
- Cydlynu a chydgrynhoi'r holl waith papur ar gyfer llwybr archwilio Cronfa Gymdeithasol Ewrop.⁴²

5.40 Y mae rhywfaint o nerfusrwydd yn parhau, yn arbennig ymysg cynrychiolwyr awdurdodau lleol, ynghylch nad oes modd i Gynghorwyr y prosiect gynnig y lefel o fentora a allai fod ei angen, yn eu barn hwy, ar y grwpiau o gleientiaid. Mae'r nerfusrwydd hwn yn arbennig o amlwg ymysg y rhanddeiliaid hynny a gafodd brofiad uniongyrchol o Genesis Cymru 2 ac a deimlai fod y pwyslais ar fentora yn agwedd hanfodol ar y model hwnnw.

Cyllid Penodol

5.41 Mae hefyd gan Gynghorwyr y prosiect fynediad at y tair ffurf o ddarpariaeth benodol i'w cynorthwyo i gyflenwi cymorth a goresgyn rhwystrau'r cyfranogwyr.

- Darparu hyfforddiant prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth i gyfranogwyr, wedi'i gaffael gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer darparu hyfforddiant nad yw ar gael yn hawdd.
- Arian (wedi'i gymeradwyo gan Reolwyr Cyfrif y prosiect) i dalu costau gofal plant ('cronfa rhwystrau i ofal plant') tra bod cyfranogwr yn derbyn cyfleoedd hyfforddiant a/neu brofiad gwaith.
- Cronfa rwystrau sy'n darparu cymorth ariannol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, a allai gynnwys:
 - arian i dalu am ddillad ar gyfer cyfweiliadau neu waith
 - offer (offer gwaith coed, er enghraifft) i ddechrau gweithio
 - costau teithio i fynd i hyfforddiant neu waith.⁴³

⁴² Addaswyd o Lywodraeth Cymru (Gorffennaf 2015) *Cynllun Busnes Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fersiwn 1.2*, [Heb ei gyhoeddi].

⁴³ Ibid.

Awdurdodau Lleol

- 5.42 Nodir yn y cynllun busnes bod awdurdodau lleol yn bartneriaid cyflenwi allweddol, gan ddylanwadu ar ddull gweithredu prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn eu hardal ddaearyddol a chynnig llwybr atgyfeirio allweddol i Gynghorwyr y prosiect. Mae hefyd gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb i nodi pa ddarparwyr gofal plant sy'n cynnig gwasanaeth hyblyg, gan sicrhau y caiff y rhiant-gyfranogwr wybod am y ddarpariaeth honno.
- 5.43 Mae'r cynllun busnes hefyd yn amlinellu y byddai rôl awdurdodau lleol yn cynnwys:
- awgrymu sut a ble gallai Cynghorwyr y prosiect fod yn seiliedig a'u hintegreiddio mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf neu o'u cwrdd
 - helpu Cynghorwyr y prosiect i integreiddio i'r timau cymorth i deuluoedd / seiliedig yn y gymuned (ar sail model Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig)
 - cynnig gofod i Gynghorwyr y prosiect gwrdd â chyfranogwyr
 - helpu Cynghorwyr y prosiect i ddeall y ddarpariaeth gofal plant yn lleol a helpu i nodi atebion i rieni sydd â rhwystrau i dderbyn gofal plant
 - cwrdd yn rheolaidd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru ar lefel leol a rhanbarthol i rannu arferion gorau ac adolygu cynnydd.⁴⁴

⁴⁴ Ibid.

6. Canfyddiadau

6.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o brofiad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ers iddo gael ei lansio yn 2015. Mae'n cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil cynradd gyda'r amryw randdeiliaid (yr Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, a Chynghorwyr y prosiect) a fu'n ymwneud â'r gwaith ymchwil ac yn disgrifio:

- lansiad y prosiect
- lleoliadau cyflawni'r prosiect
- natur y rhyngweithio rhwng yr amryw staff sy'n rheoli a chyflawni'r prosiect
- gwaith marchnata a hyrwyddo'r prosiect
- y gweithgareddau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect.

Gweithredu'r Prosiect – Lansio'r Prosiect

6.2 Cychwynnodd Cyfnod 1 prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ym mis Mehefin 2015. Ar y pryd, nid oedd rhai o'r elfennau allweddol a fyddai'n debygol o fod yn sail i lwyddiant y prosiect yn eu lle, gan gynnwys:

- **prosesau ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Rwystrau**
- **prosesau ar gyfer gweinyddu Cronfa Rhwystrau i Ofal Plant** – roedd diffyg proses fewnol i ddyfarnu arian ar gyfer gofal plant yn cyfyngu ar i ba raddau yr oedd modd i Lywodraeth Cymru gymeradwyo ceisiadau (darparwyd adnoddau i'r gronfa gan yr Adran Gwaith a Phensiynau rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Chwefror 2016). Cymeradwywyd a lansiwyd proses ariannu gofal plant Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016
- Cymrwyd mwy o amser na'r disgwyl i gaffael **Darpariaeth Hyfforddiant y Prosiect** i ariannu hyfforddiant pwrpasol i gyfranogwyr, lle nad oedd darpariaeth ar gael am ddim. Daeth darpariaeth hyfforddiant y prosiect ar gael ym mis Ebrill 2016; er hynny, cyn y dyddiad hwn, bu'n rhaid i Gynghorwyr y prosiect ddibynnu ar ddarpariaeth hyfforddiant a oedd eisoes ar gael am ddim yn unig.

6.3 Yn sgil hyn, disgrifiwyd y prosiect gan rai rhanddeiliaid fel "awyren a adeiladwyd tra ei bod yn hedfan". Am y rhesymau hyn, ac am i'r prosiect ddechrau mewn tri awdurdod lleol i gychwyn, ni roddwyd lawer o sylw i lansiad y prosiect.

Lleoliad

- 6.4 Ni lwyddodd pob un o Gynghorwyr y prosiect i gael lle desg yn eu cymunedau. Mewn rhai ardaloedd, roedd y cyfleusterau naill ai'n llawn, yn amhriodol (mewn adeilad dros dro) neu o faint annigonol i fod yn lle desg (naill ai â desg barhaol neu desg boeth) i Gynghorwyr y prosiect. Mae canolfannau Dechrau'n Deg hefyd yn seiliedig yn bennaf mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a theimlai rhai partneriaid y gallai hyn gynyddu'r posibilrwydd o ddryswch ymysg cyfranogwyr a darparwyr gwasanaeth partner (gan fod rhieni sy'n byw mewn Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith yn hytrach na phrosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth).
- 6.5 Oddi mewn i ardaloedd Cyfnod 1, nododd Rheolwyr Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau fod Cynghorwyr y prosiect yn dueddol o fod yn seiliedig mewn Canolfan Waith o leiaf ddeuddydd yr wythnos i ymdrin â'r elfennau gweinyddol a nodi atgyfeiriadau posibl gan gydweithwyr yn y canolfannau. Fel arfer, byddai gweddill yr wythnos yn cael ei dreulio yn cynnal cyswllt â chyfranogwyr drwy ganolfannau Teuluoedd yn Gyntaf, mewn canolfannau Dechrau'n Deg neu fannau yn y gymuned fel caffis cymunedol.
- 6.6 Er bod manteision i amgylchedd mannau yn y gymuned, yn y ffaith eu bod yn 'gyfforddus' ac yn fannau sydd wedi ennill eu plwyf, meddai rhai o Gynghorwyr a Rheolwyr Cynghori'r prosiect fod y garfan o gyfranogwyr arfaethedig yn y mannau hyn yn weddol gyfyngedig, gyda grŵp cymharol ddigyfnewid o rieni yn y canolfannau i deuluoedd o gymharu â'r unigolion lu sy'n defnyddio'r Ganolfan Waith. Mewn sawl achos, mae gan staff y prosiect drefniadau yn eu lle gyda'r Ganolfan Waith sy'n caniatáu iddynt nodi a chwrdd â'r holl gleientiaid sy'n gymwys ar gyfer y prosiect, a nodwyd bod hyn yn ddull effeithiol i gyrraedd nifer eang o gyfranogwyr ac a all alluogi ffordd 'gynnes' o'u trosglwyddo o'r Hyfforddwyr Gwaith yn y ganolfan.
- 6.7 Caiff lleoliadau eraill hefyd eu defnyddio gan Gynghorwyr y prosiect i ddod i gyswllt â rhieni, fel llyfrgelloedd, ysgolion, grwpiau chwarae, neu oddi mewn i wasanaeth gwirfoddol fel Canolfan Cyngor ar Bopeth. Mae staff cyflenwi yn yr ardaloedd hyn yn dal i ddweud bod y Ganolfan Waith yn llwybr allweddol i ddod i gyswllt â chyfranogwyr.

- 6.8 Her arall a nodwyd gan Gynghorwyr y prosiect yw'r seilwaith TG mewn lleoliadau cymunedol. Mae cyfyngiadau diogelwch yn eu lle sy'n golygu na allant fel arfer gael mynediad at systemau'r Adran Gwaith a Phensiynau o bell, a gall sicrhau cyswllt band eang da neu signal ffôn symudol hyd yn oed fod yn broblematic mewn rhai lleoliadau, yn arbennig lleoliadau gwledig.

Rhyngweithio Rhwng Staff – Llywodraethu a Rheoli

Yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru

- 6.9 Ar lefel strategol, credai cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau fod prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn darparu cyfle pellach a thystiolaeth bod y berthynas yn cryfhau rhwng y ddau sefydliad (yn gyffredinol, ni chynigodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chynghorwyr y prosiect eu barn ar y berthynas rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru). Meddai sawl un fod y berthynas yn debygol o fod wedi'i chynorthwyo gan gefndir rheolwr prosiect Llywodraeth Cymru yn y prosiect, a arferai weithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac, yn sgil hynny, bod ganddo/ganddi gysylltiadau cryf â staff allweddol yno a phrofiad uniongyrchol o systemau a phrosesau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Partneriaid Awdurdodau Lleol

- 6.10 Roedd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol (yn arbennig y rhai a fu'n rhan o Gyfnod 1 y prosiect) yn croesawu eu cyswllt a'u rhan yn y gwaith o ddylunio'r prosiect. Er hyn, barn gyson oedd bod amlder y cyfathrebu wedi gostwng ers lansio'r prosiect gan olygu bod rhai awdurdodau lleol yn aneglur ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y prosiect.
- 6.11 Awgrymodd un cynrychiolydd y byddai cytundeb mwy ffurfiol, fel memorandwm cydddealltwriaeth⁴⁵, yn helpu iddynt ddeall eu rôl fel partner. O'r ymchwil ddesg, gwelwyd bod hyn wedi'i gynnig yng Nghynllun Busnes y prosiect.

Cynghorwyr Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 6.12 Roedd Cynghorwyr y prosiect yn disgrifio perthynas â'u rheolwyr llinell a oedd yn bennaf gadarnhaol. Mae'r rheolwyr llinell yn hawdd oedd cael gafael arnynt ar y ffôn a chânt eu hysbysu'n ddyddiol o leoliad eu staff.

⁴⁵ Mae Memorandwm Cydddealltwriaeth yn gytundeb ffurfiol rhwng dau neu ragor o bartïon. Gall cwmnïau a sefydliadau ddefnyddio Memoranda Cydddealltwriaeth i sefydlu partneriaethau swyddogol. Nid yw Memoranda Cydddealltwriaeth yn rhwymo yn y gyfraith, ond y mae iddynt elfen o ddifrifoldeb a pharch rhwng y naill barti a'r llall.

- 6.13 Mae Rheolwyr Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau fel arfer yn cynnig ymateb sydyn i unrhyw ymholiadau gan Gynghorwyr y prosiect, a chât hyn ei groesawu'n fawr am na chât effaith sylweddol ar gyflenwi'r gwasanaeth. Er hyn, teimlai rhai Cynghorwyr y prosiect, pan gât ymholiad ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, mai annhebygol ydoedd y ceid ymateb mor sydyn, a allai, ar adegau, achosi oedi wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Rhyngweithio Rhwng Staff – Cyflenwi'r Gwasanaeth

I Ba Raddau mae Darpariaeth Gwasanaeth yn Cyd-fynd â Gwasanaethau Eraill

- 6.14 Yn ôl ymatebwyr o'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, mae prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn cyd-fynd yn dda â darpariaeth bresennol, ac mae'n llwyddo i lenwi bylchau presennol yn y gwasanaethau a ddarperir. Bu'r ffaith bod Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn anghymwys i gael eu cynnwys ym mhrosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth o gymorth i osgoi achosion o ddyblygu neu orgyffwrdd mewn gwasanaethau, gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol ystyried bod bwlch mewn darpariaeth o'r natur hon yn y rhan fwyaf o ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r broses o atgyfeirio yn parhau i fod yn bryder mewn lleiafrif o ardaloedd awdurdodau lleol, gydag un cynrychiolydd awdurdod lleol yn awgrymu y gallai model o broses enghreifftiol helpu i oresgyn y mater.
- 6.15 Mae'r berthynas rhwng Cynghorwyr y prosiect, timau Teuluoedd yn Gyntaf, a darparwyr eraill hefyd yn cryfhau yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ac maent yn cyfathrebu'n gynyddol amlach wrth i ardaloedd lleol ymgyswngwddo mwy â Chynghorydd y prosiect. Mae mwyafrif Cynghorwyr y prosiect yn gyfforddus i dderbyn atgyfeiriadau gan raglenni eraill, ac atgyfeirio unigolion i raglenni eraill mewn achosion lle nad ydynt yn cyrraedd meini prawf prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.
- 6.16 Caiff cyfathrebu a rhwydweithio effeithiol eu hystyried yn lawer o Gynghorwyr y prosiect yn elfennau hanfodol i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol heb ddyblygu gwasanaethau presennol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, bu Cynghorwyr y prosiect yn cysgodi personél Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn eu cyfarfodydd er mwyn datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau. Mewn ardaloedd eraill, bu Ymwelwyr Iechyd yn cyflwyno Cynghorwyr y prosiect i staff gofal plant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer a gaiff eu hatgyfeirio.

“Dyma Gynghorwyr y prosiect, ar y cychwyn, yn cysgodi ein swyddogion allgymorth mewn gwahanol leoliadau, fel grwpiau babanod, grwpiau plant bach ac ati, a dod i adnabod y rhai allweddol yn y canol a’r holl bobl hynny yn y gymuned, felly roedd modd iddynt ddweud wrth bobl am y prosiect. Hefyd, am eu bod yng nghwmni gweithwyr allgymorth Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd sydd eisoes yn adnabyddus yn y gymuned, credaf fod hyn wedi’u helpu i gael ffordd i mewn yn syth.”

[Cynrychiolydd awdurdod lleol]

- 6.17 Teimlai Cynghorwyr y prosiect hefyd y cafodd hyblygrwydd y model gweithredol effaith gadarnhaol ar weithgareddau rhwydweithio: *“Yr hylifedd rhwng y sefydliadau sydd wedi’i gwneud yn haws inni ymgysylltu ag ymgeiswyr perthnasol... Mae rhwydweithio yn gweithio’n dda iawn.”*

“Y gwaith allgymorth a’r rhwydweithio a wnaethom [a weithiodd orau i ymgysylltu â chyfranogwyr]. Gan na fu strwythur yn ei le a diffyg atgyfeiriadau yn gyffredinol, bu’n rhaid inni fwrw ati ein hunain.”

[Cynghorydd y prosiect]

- 6.18 Bu i’r lleoliadau hynny lle y cynigwyd y safbwyntiau mwyaf cadarnhaol (gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol) ynglŷn â’r graddau y mae’r ddarpariaeth yn cydfynd â gwasanaethau eraill, ddisgrifio model brysbennu. Yn yr ardaloedd hyn, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd fu’n ymgymryd â’r brysbennu, gan gyfeirio at brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth pe byddai’n ymddangos mai gofal plant oedd y prif rwystr, neu gyfeirio at wasanaeth arall os oedd y rhwystrau yn seiliedig ar faterion eraill, gan gynnwys tai, trais domestig, ysgol ac ati.

Dealltwriaeth o Brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 6.19 Disgrifid y prosiect gan y Cynghorwyr fel prosiect cyflogadwyedd sy’n benodol i rieni lle mae gofal plant yw’r prif rwystr iddynt rhag gweithio. Caiff y cynllun ei ystyried gan lawer o Gynghorwyr y prosiect fel *“cam ar y ffordd at gyflogaeth”* ac, yn sgil hynny, ceir rhywfaint o bryder ymysg y Cynghorwyr ynglŷn â’r graddau y mae modd cyflawni’r canlyniadau cael gwaith (a drafodir yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adran hon). Mae’r safbwynt hwn yn adlewyrchiad agos o grynodedb y prosiect a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru:

‘Bydd yr Ymgyrch yn helpu rhieni sy’n economaidd anweithgar...i gael gwaith cynaliadwy, lle mae gofal plant yw eu prif rwystr. Nod yr ymgyrch yw darparu atebion i oresgyn eu rhwystrau o ran gofal plant er mwyn galluogi’r rhiant i baratoi a chael mynediad at gyfleoedd gwaith. Bydd rhieni’n derbyn cymorth unigol drwy Gynghorydd Cyflogaeth Rhieni yn eu cymuned leol.’⁴⁶

- 6.20 Roedd Cynghorwyr y prosiect hefyd yn pwysleisio bod natur wirfoddol y prosiect yn elfen gadarnhaol o fodel Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, gan ei fod yn ei wneud yn nodedig o gymharu â darpariaeth y Ganolfan Waith neu raglenni gorfodol eraill lle y gall budd-daliadau’r cyfranogwyr gael eu heffeithio o beidio â chyfranogi.
- 6.21 Mynegwyd rhwystredigaeth gan rai o Gynghorwyr y prosiect ynglŷn â’r hyn sydd, yn eu barn hwy, yn “*arweiniad mewnol gwael*” yn gysylltiedig â phrosesau’r prosiect (er y deallir i ddogfen Canllawiau Gweithredol gael ei darparu i’r staff) a diffyg strwythur cychwynnol. Credir i hyn arwain at oblygiadau i ddealltwriaeth y Cynghorwyr o’r prosiect, ac, ar y cyd â lansiad heb lawer o sylw a diffyg deunyddiau marchnata/hyrwyddo, y farn gyffredin yw bod hyn wedi tanseilio’r lefel o ddealltwriaeth ymysg yr awdurdodau lleol.
- 6.22 Er i Gynghorwyr y prosiect dderbyn rhaglen hyfforddiant helaeth fel rhan o’r gweithgarwch recriwtio, thema a ddaeth i’r amlwg o ymgynghori â’r Cynghorwyr oedd yr awydd am gwrs cynefino cyn cychwyn ar gyflawni’r prosiect. Hefyd, mynegodd Cynghorwyr y prosiect bryderon nad oes gan eu cydweithwyr, efallai, ddealltwriaeth gyflawn o’r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch budd-daliadau, gydag anghysondebau cysylltiedig yn nealltwriaeth y Cynghorwyr o ddiben bwriadol y gyllideb gofal plant. Teimlir y byddai hyfforddiant safonol ar ddeddfwriaeth yn cael ei groesawu fel rhan o gwrs cynefino.
- 6.23 Gofynnai Cynghorwyr y prosiect hefyd am hyfforddiant, neu arweiniad, ar y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael yn lleol i gyfranogwyr. Ystyrid bod hyn arbennig o ddefnyddiol, o ystyried nad oedd cyllideb hyfforddiant ar gael i gychwyn, gan y byddai gwell dealltwriaeth o’r hyn sydd ar gael yn lleol yn helpu i fanteisio’n llawn ar y posibilrwydd o sicrhau hyfforddiant priodol i gyfranogwyr drwy ddarpariaeth bresennol yn eu hardal leol.

⁴⁶ Llywodraeth Cymru (2015) *Tabl Rhesymeg ar gyfer Gweithrediadau Arfaethedig yr UE – Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)*, Crynodeb, [heb ei gyhoeddi]. Darparwyd datganiad tebyg ar gyfer y rhai dan 25 oed drwy Gyllid Blaenoriaeth 3.

Marchnata a Hyrwyddo Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 6.24 Lansiwyd y prosiect yn fwriadol “feddal” am nad oedd model llawn yn ei le. Ers ei lansio, bu i’r ffaith mai cyfyngedig oedd y gwaith marchnata ar adeg cynnal y gwaith ymchwil beri i gynrychiolwyr awdurdodau lleol, Cynghorwyr y prosiect a rheolwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau nodi lefelau isel o ymwybyddiaeth a rhai elfennau o gamddealltwriaeth o’r prosiect.
- 6.25 Mynegodd mwyafrif Cynghorwyr y prosiect a chynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfwelwyd bryder ynglŷn ag ansawdd ac amrywiaeth y deunydd marchnata a hyrwyddo. Ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn, y teimlad cyffredin oedd nad oedd y deunydd hyrwyddo a oedd ar gael i’r Cynghorwyr yn addas i’r diben. Mewn rhai achosion, bu’n rhaid i’r Cynghorwyr, a hwythau heb gyfle i ddefnyddio argraffydd, ddibynnu ar fersiynau electronig neu wneud llungopiâu. Yn sgil diffyg deunyddiau, aeth rhai Cynghorwyr ati i lunio eu deunydd eu hunain, ac mae’r Cynghorwyr hynny yn cael gwell llwyddiant ar ddenu atgyfeiriadau na’r hyn a gawsant yn flaenorol. Ond heb reolaeth ganolog dros ddeunydd marchnata, y mae mwy o berygl o gyflwyno negeseuon cymysg.

“Mae’r marchnata yn wael iawn. Llungopiâu du a gwyn – nid yw’n edrych yn broffesiynol. Bu’r marchnata yn oer, yn gorfforaethol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac edrychai’n ymosodol... Dydyn ni ddim eisiau i bobl ein clymu wrth y Ganolfan Waith a meddwl na allan nhw ymddiried ynom gan fod ofn cael eu gorfodi.” [Cynghorydd y prosiect]

- 6.26 Gallai’r diffyg deunydd hyrwyddo digonol fod wedi dylanwadu hefyd ar lefel yr ymgysylltiad drwy’r Ganolfan Waith. Mynegodd rhai o Gynghorwyr y prosiect bryderon bod y diffyg deunydd hyrwyddo, a hynny wedi’i waethygu gan absenoldeb y cynllun ar-lein, yn effeithio ar eu dilysrwydd yng ngolwg y cyhoedd. Mae’r deunydd y gofynnai Cynghorwyr y prosiect amdanynt amlaf – cardiau busnes wedi’u brandio a stondinau codi i’w defnyddio mewn ffeiriau – yn adlewyrchu’r pryderon hyn: “...mae angen iddynt weld ein bod yn ddilys... y mae ychydig yn amheus, yn arbennig am nad ydyn ni ar-lein ac felly nid oes modd ein gwirio.”

Atgyfeirio ac Ymgysylltu â Chyfranogwyr

- 6.27 Mae patrymau ymgysylltu yn amrywio, yn dibynnu ar leoliad. Dywed mwyafrif Cynghorwyr y prosiect eu bod yn dibynnu'n fawr ar atgyfeiriadau gan hyfforddwyr gwaith y Ganolfan Waith, gyda llwyth gwaith rhai Cynghorwyr y prosiect yn cynnwys unigolion a atgyfeiriwyd o'r Ganolfan Waith leol yn unig. Caiff hyn ei adlewyrchu gan ymatebion cyfranogwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad (gweler Adran 6). Caiff yr adnoddau a gynigir gan y Canolfannau Gwaith eu defnyddio mewn amryw ffyrdd i arwain nifer y rhai a atgyfeirir a ph'un a ydynt yn gymwys. Caiff System Marchnad Lafur y Ganolfan Waith ei defnyddio gan rai Cynghorwyr i nodi cleientiaid cymwys posibl, ac mae eraill yn adolygu dyddiaduron Hyfforddwyr Gwaith i nodi ymgeiswyr sy'n gymwys i dderbyn cymorth, a darparu cyfrifiadau 'gwell yn gweithio' sydyn.
- 6.28 Cafodd y prosiect ei hyrwyddo i Hyfforddwyr Gwaith yn y Canolfannau Gwaith ac mae Cynghorwyr y prosiect yn derbyn atgyfeiriadau drwyddynt hwy, er bod y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr yn osgoi targedu cleientiaid posibl mewn Canolfannau Gwaith: *"Dydw i byth yn mynd atynt [cyfranogwyr posibl] yn y Ganolfan Waith; cawn ein hannog i fynd allan i'r gymuned... er fy mod yn cael atgyfeiriadau ganddynt."* Mae ansawdd (mewn perthynas â chymhwysedd) a nifer yr atgyfeiriadau yn aml yn dibynnu ar ba mor gryf yw'r cysylltiadau â Chanolfan Waith leol y Cynghorydd.
- 6.29 Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd hefyd yn manteisio'n effeithiol ar Ddechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Theuluoedd yn Gyntaf fel ffyrdd i ymgysylltu (fel a ragwelwyd yn y model gweithredol), yn arbennig felly mewn ardaloedd trefol lle mae digon o bobl yn mynychu canolfannau Dechrau'n Deg. Yn yr un modd, mae rhai o Gynghorwyr y prosiect yn llwyddo i ymgysylltu â lleoliadau eraill i deuluoedd (grwpiau chwarae, llyfrgelloedd, ac ati); ond unwaith eto y mae'r rhain yn fwy hygyrch mewn ardaloedd trefol lle mae'r grwpiau yn dueddol o elwa ar nifer fwy o bobl a chyfradd uwch o fynychwyr newydd na grwpiau mewn ardaloedd gwledig. Yn sgil hyn, mae'r gwerth a roddir i'r llwybrau hyn er mwyn recriwtio ac ymgysylltu yn amrywio'n sylweddol o un ardal ddaearyddol i'r nesaf.

"Yr her fwyaf yw'r ffaith ein bod mor wledig, felly nid oes modd imi weld cymaint o gleientiaid posibl ...Y diwrnod o'r blaen, fe wnes i gwrdd â rhywun yn [enw'r lle wedi'i dynnu], sydd yn awr o daith i ffwrdd, wedyn fe wnes i yrru i [enw'r lle wedi'i dynnu], sydd yn ddwy awr o daith, i gwrdd â chleient arall, ac wedyn roedd yn rhaid imi yrru'n ôl i [y lle cyntaf] unwaith eto yn y prynhawn am fod atgyfeiriad arall wedi dod i

mewn! Hefyd, os yw cleient yn fwy na 40 milltir i ffwrdd ac nad oes car gwaith ar gael, mae'n rhaid imi hurio car." [Cynghorydd y prosiect]

- 6.30 Ar adeg cynnal y gwaith ymchwil, meddai Cynghorwyr y prosiect fod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau a dderbyniant yn briodol (cymwys), ond roedd rhai wedi derbyn nifer fawr o atgyfeiriadau anghymwys yn flaenorol. I gyfyngu ar nifer yr atgyfeiriadau anghymwys a dderbyniant, cymerodd y Cynghorwyr gamau i godi ymwybyddiaeth ymysg sefydliadau atgyfeirio o'r meini prawf cymhwysedd. Er enghraifft, rhoddodd un Cynghorydd gyflwyniadau i sefydliadau partner ar y meini prawf cymhwysedd a bu Cynghorydd arall yn ffonio atgyfeirwyr ar ôl derbyn unigolyn anghymwys i bwysleisio'r amodau. Ni dderbyniodd yr un ohonynt atgyfeiriadau anghymwys wedi hynny.
- 6.31 Nododd Cynghorwyr y prosiect amrywiadau eang yn natur/sefyllfa cyfranogwyr cymwys. Wrth gychwyn yn y prosiect, roedd y cyfranogwyr ar wahanol gamau o ran 'parodrwydd i weithio' a'u dyheadau a'u nodau uniongyrchol. Mae cynnig cymorth ymatebol a hyblyg sydd wedi'i deilwra i anghenion unigolyn a'i arwain gan y cleient yn hanfodol yn hyn o beth, a chroesawir hyblygrwydd y prosiect i ymateb i'r anghenion hyn yn fawr.
- 6.32 Caiff y prosiect ei 'werthu' yn ofalus i gyfranogwyr posibl; mae'r cynigion yn debygol o gael eu disgrifio heb lawer o fanylder i gychwyn, gyda Chynghorwyr y prosiect yn pwysleisio ei natur wirfoddol, un-i-un, a'r ffaith y caiff ei gyflwyno ar gyflymder sy'n briodol i'r cleient. Er mwyn pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng y dull hwn a dull y Ganolfan Byd Gwaith, mae rhai o Gynghorwyr y prosiect yn dewis gwisg a naws anffurfiol wrth ddod i gyswllt â chleientiaid.

Rhwystrau i Ymgofrestru ac Ymgysylltu

- 6.33 Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhieni di-waith sydd â gofal plant yn brif rwystr iddynt rhag cael gwaith neu dderbyn hyfforddiant yn ymwneud â gwaith, teimlai mwyafrif o Gynghorwyr y prosiect a holwyd fod rhwystrau eraill hefyd yn cyfyngu ar allu'r cyfranogwyr i ymuno â'r farchnad lafur. Er enghraifft, nid yw cyfran fawr o gyfranogwyr y prosiect erioed wedi gweithio am iddynt fod yn magu plant; oherwydd hyn, cyfeirient at ddiffyg sgiliau ac ymddygiad yn ymwneud â chyflogadwyedd, cymwysterau a hyfforddiant, a phrofiad gwaith, sy'n eu gosod ar fwy o bellter o'r farchnad swyddi.

- 6.34 Cyfeiriodd bron i bob un o Gynghorwyr y prosiect at ddiffyg hyder a hunan-gred isel, ynghyd â nifer o ffactorau ehangach, fel iechyd meddwl gwael, anawsterau emosiynol neu fywyd teuluol caotig. Yn sgil y diffyg hyder a nodwyd, rhoddwyd blaenoriaeth i adeiladu ymddiriedaeth gyda Chynghorwyr y prosiect fel bod modd datblygu perthynas gynhyrchiol.
- 6.35 Mae'r materion eraill a nodwyd gan Gynghorwyr y prosiect yn cynnwys sgiliau TG gwael, fel anallu rhai i ddefnyddio e-bost, diffyg sgiliau meddal ac ymddygiad negyddol tuag at gyflogaeth. Mae rhwystrau lluosog yn bodoli na all cyllid gofal plant yn unig fynd i'r afael â hwy, gan gyfiawnhau darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant a goresgyn rhwystrau eraill yn ymwneud â sefyllfa.

Cymorth Ariannol – Gofal Plant

- 6.36 Er i Gynghorwyr y prosiect nodi mai cyllid ar gyfer gofal plant yw pwynt gwerthu unigryw'r prosiect, ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn, tri o'r 14 o Gynghorwyr a gyfwelwyd yn unig a oedd wedi manteisio ar y gyllideb.
- 6.37 Y canfyddiad cyffredin ymysg y Cynghorwyr yw mai dewis 'pan fetho popeth arall' yw'r cyllid ar gyfer gofal plant a neilltuwyd fel rhan o'r prosiect, a hwythau wedi'u hannog drwy ganllawiau'r prosiect i fanteisio ar ffynonellau eraill o gyllid yn gyntaf. Mae'r diffyg cyllid ar gyfer hyfforddiant yng nghanau cynnar y prosiect hefyd yn debygol o fod wedi cyfyngu ar lefel y galw: *"Un o'r rhesymau amlycaf pam y gallai fod angen gofal plant arnoch fyddai ar gyfer hyfforddiant, ond rydym naw mis i mewn i'r prosiect ac rydym yn dal i aros am y gyllideb."*
- 6.38 Mae dryswch ymysg Cynghorwyr y prosiect ynglŷn â sut mae cyfranogwyr yn gymwys i gael cyllid gofal plant. Diben cyllideb gofal plant y prosiect yw ar gyfer rhieni y mae angen gofal plant arnynt tra eu bod yn derbyn hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith eraill, yn hytrach na threfniant rheolaidd i rai sydd mewn swyddi parhaus. Er hyn, ni fu i bob un o Gynghorwyr y prosiect ddangos dealltwriaeth lawn o sut caiff yr arian ei ddyrannu. Er enghraifft:

"Byddwn yn ei ddefnyddio ar ryw bwynt. Rwy'n credu, pan fyddaf yn gweithio gyda rhywun sydd wedi cael gwaith neu sydd mewn rhywbeth rheolaidd, dyna pryd y bydd y gyllideb gofal plant yn dod yn weithredol." [Cynghorydd y prosiect]

6.39 Awgrymodd un Cynghorydd y gallai'r dryswch fod yn deillio o farchnata gwael:

“Rwy’n credu ei fod ychydig yn gamarweiniol yn y modd y caiff y [prosiect] ei hysbysebu ... ar y daflen, mae’n dweud, ‘A ydych chi’n rhiant sydd heb waith? A yw gofal plant yn eich rhwystro rhag cael gwaith neu hyfforddiant?’ Mae’n gamarweiniol am nad oes modd iddo dalu am ofal plant pan fyddant yn mynd i’r gwaith.” [Cynghorydd y prosiect]

6.40 Mae cyllideb y prosiect a neilltuwyd ar gyfer gofal plant yn sylweddol (gyda £7.2m wedi'i neilltuo i ddarparu gofal plant). Er mai anodd yw barnu lefel y galw, ar sail y canfyddiadau hyn, byddai'n ymddangos yn annhebygol y caiff yr adnodd cyfan a ddyrannwyd ei ddefnyddio yn ystod oes y prosiect heb i newidiadau gael eu gwneud i'r modd y caiff y prosiect ei gyflawni.

6.41 Mae'n ymddangos bod ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar alw am y gyllideb, unwaith eto, yn ymwneud â natur wledig yr ardaloedd, gyda Chynghorwyr y prosiect mewn ardaloedd gwledig yn benodol yn nodi nad oes darpariaeth yn bodoli o gwbl, bron iawn, gyda'r nos neu ar benwythnosau. Yn fwy cyffredinol, defnydd ad hoc neu dymor byr a wneid o'r ddarpariaeth gofal plant yn aml. Ni all rhai darparwyr gofal plant ddarparu'r lefel hon o hyblygrwydd.

“Gall y natur ad hoc sydd i ba bryd y mae angen gofal plant fod yn broblem. Gwyddom am rai meithrinfeydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r plant fod yn mynychu'n fwy rheolaidd nag ar achlysur unigol.”
[Cynghorydd y prosiect]

Cymorth Ariannol – Hyfforddiant wedi'i Gaffael a Chronfa Rwysrau

6.42 Mae adnoddau hyblyg ar gael (a ddisgrifir fel “cronfa rwystr”) i brynu eitemau penodol, e.e.:

- dillad addas ar gyfer cyfweiliadau swydd neu i ddechrau mewn swydd
- cludiant i fynd i hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith
- offer hanfodol i gychwyn gweithio.

6.43 Yn ychwanegol, os nad oes modd i Gynghorwyr y prosiect nodi hyfforddiant priodol i'r cyfranogwyr yn eu hardal leol sydd ar gael am ddim, gallant gyfeirio'r cyfranogwyr at Hyfforddiant ACT, sydd â contract i gyflenwi hyfforddiant i gyfranogwyr prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a Chymunedau am Waith.

- 6.44 Fel a amlinellwyd yn flaenorol yn yr adran hon, cafwyd achosion o oedi wrth roi'r elfennau hyn ar waith.
- 6.45 Canfyddiad y rhanddeiliaid a Chynghorwyr y prosiect oedd bod diffyg hyfforddiant y prosiect (a lansiwyd yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2016) wedi effeithio ar y gwaith o gyflenwi'r prosiect. Bu Cynghorwyr y prosiect yn ddibynnol ar nodi darpariaeth bresennol sydd ar gael am ddim ac yn hygyrch i'r cyfranogwyr.
- 6.46 Mae'r canfyddiad ynglŷn ag i ba raddau mae'r ddarpariaeth hyfforddiant ar gael yn amrywio'n fawr; cyfeiriodd rhai Cynghorwyr at fod mynediad ar gael at amrywiaeth o ddarpariaeth am ddim, ond teimlai eraill nad oedd dim ar gael i'w gynnig i'r cyfranogwyr. Roedd hyn yn nodweddiadol o'r natur wledig sydd i leoliad, ac ardaloedd gwledig sydd yn pryderu fwyaf am ddarpariaeth hyfforddiant hygyrch annigonol. I fynd i'r afael â hyn, lluniodd rhai o Gynghorwyr y prosiect gysylltiadau â cholegau lleol i weld a oes modd cynnig cyrsiau byr wedi'u teilwra.

Nodi Cyfleoedd Gwaith a Gwirfoddoli Addas

- 6.47 Er y cysylltiadau agos sydd gan Gynghorwyr y prosiect â Chanolfannau Gwaith lleol, barn gyffredin ymysg y Cynghorwyr hynny yw mai her yw canfod cyfleoedd gwaith cynaliadwy i rieni sy'n rhan o'r prosiect. Bernir yn aml bod y cyfleoedd a nodir gan Gynghorwyr y prosiect yn amhriodol yn sgil natur dymhorol y gwaith, y defnydd o gontractau dim oriau (sy'n golygu na all rai rhieni gyrraedd y trothwy o 16 awr yr wythnos er mwyn derbyn Cymorth Incwm), neu batrymau shifft anodd i'w gweithio o amgylch gofal plant. Ceir canfyddiad hefyd o ddiffyg cyfleoedd gwaith, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.
- 6.48 Mae Cynghorwyr y prosiect yn gyffredinol gadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ac amrywiaeth y cyfleoedd hynny; er hyn, maent yn nodi y gall annog cyfranogwyr i ymgysylltu weithiau arwain at anawsterau yn sgil y canfyddiad o ddiffyg enillion diriaethol (o ran cyflog neu gymwysterau). Mae'r Cynghorwyr hefyd yn frwdfrydig ynglŷn â manteision yr arfer o wirfoddoli ei hun. Mae Cynghorwyr y prosiect yn aml yn nodi cyfleoedd gwag i wirfoddoli drwy'r cysylltiadau sydd ganddynt sydd wedi ennill eu plwy yn y gymuned.
- 6.49 Mae'r cyfleoedd i gael profiad yn amrywio o ranbarth i ranbarth, ac yn fwy felly nag yn achos gwirfoddoli. Mae Cynghorwyr y prosiect sydd o'r farn bod profiad gwaith ar gael yn hawdd yn dueddol o gael eu hysbysu am gyfleoedd drwy eu cysylltiadau yn y Ganolfan Waith.

Monitro

6.50 Ym marn y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli a chyflawni'r prosiect, mae gofynion monitro a gweinyddu sylweddol yn gysylltiedig ag ef. Mewn adolygiad cychwynnol o'r camau monitro a wnaed gan Lywodraeth Cymru, nodwyd rhai bylchau yn y dystiolaeth a grynhowyd, a gwelwyd bod angen cynnal adolygiadau rheolaidd o brosesau casglu data.

6.51 Er bod canllaw gweithredol wedi'i ddarparu⁴⁷, ymysg Cyngorwyr y prosiect roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â pha dystiolaeth sy'n ofynnol a sut mae bwydo hyn i mewn i'r system fonitro. Mae hyn yn awgrymu bod angen hyfforddiant a chanllawiau pellach ar brosesau monitro.

“Rwyf wedi'i chael yn anodd cael ateb cwbl glir ynglŷn â darparu tystiolaeth... gwybod yn union beth sydd i'w ddisgwyl ac a yw'r wybodaeth yn iawn i hawlio allbwn.” [Cynghorydd y prosiect]

6.52 Mae anawsterau ynghlwm wrth gael tystiolaeth ategol gan gyfranogwyr; teimla rhai o Gynghorwyr y prosiect bod gofyn am dystiolaeth yn gyffredinol yn ddigon i beri i gleientiaid posibl beidio â bod eisiau cymryd rhan drwy fethu a rhoi ystyriaeth i'r cyfyngiadau technolegol ac amser y gallant fod yn eu hwynebu.

“Byddaf yn esbonio bod angen iddynt ddod ag ID ond heb os bydd 50 y cant ohonynt yn cyrraedd hebddo... Weithiau mae gadael y tŷ yn fwy o beth na chofio dod â rhywbeth gyda nhw, felly gall fod yn rhywfaint o anhawster.” [Cynghorydd y prosiect]

6.53 Caiff yr anawsterau o ran cael tystiolaeth ategol gan gyfranogwyr eu gwaethygu gan ba mor llym yw'r gofynion o ran tystiolaeth er mwyn hawlio allbwn — meddai un Cynghorydd fod hyn fel “[gorfod] neidio drwy gylchoedd er mwyn profi canlyniadau”. Roedd hyn yn arbennig o heriol wrth geisio cael y dystiolaeth angenrheidiol gan gyflogwr: “Dwedwyd wrthym i gychwyn am gael tystiolaeth gan y cyflogwr, ond nid yw llawer o gyflogwyr yn hoff o ymwneud â'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi iddynt roi gwaith i rywun.”⁴⁸ Roedd Cyngorwyr y prosiect yn ystyried bod y gofynion yn aneglur a chymhleth.

⁴⁷ Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, Canllawiau Gweithredol Fersiwn 2 (Mai 2016)

⁴⁸ Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru bellach wedi cadarnhau bod hunan-ddatgan canlyniadau cyflogaeth yn ddigonol

“Ar gyfer y person cyntaf, ni fyddent yn derbyn rhai pethau penodol, fel e-bost yn cadarnhau ei fod wedi dechrau yn ei swydd. Fe wnaethon ni ddarparu slip cyflog, ond am nad oedd hwn yn cynnwys dyddiad nid oedd modd inni ei ddefnyddio, ac nid oedd ganddo gontract ysgrifenedig. Oherwydd hyn, nid oedd modd inni gyfri'r person fel canlyniad er ei fod wedi dod o hyd i waith.” [Cynghorydd y prosiect]

Perfformiad

- 6.54 Er i'r prosiect fod yn weithredol ers naw mis, cafodd ei gyflwyno fesul cyfnod (gyda Chyfnod 1 yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2015 a Chyfnod 2 ym mis Hydref 2015). Nid oes gan y prosiect garfan lawn o Gynghorwyr eto, ond y mae pob elfen o'r pecyn gwasanaeth bellach yn eu lle. Bu hyn yn cyfyngu ar y gallu i gyflenwi'r gwasanaeth a'r farn gyffredin yw bod y targedau sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn arbennig o heriol, o ystyried y diffyg darpariaeth hyfforddiant llawn sydd ar gael.
- 6.55 Mae mwyafrif Cynghorwyr y prosiect yn teimlo bod y targed o chwe chofrestriad y mis yn rhy uchel. Mae pryderon penodol hefyd ynglŷn â'r gyfradd drosi ddisgwyliedig o ran canlyniadau cyflogaeth y cyfranogwyr a'r gofynion cysylltiedig i'w cyflawni. Ceir y synnwyr nad yw'r ffocws ar dargedau swyddi yn cydnabod pellter cyfranogwyr y prosiect o'r farchnad lafur a'r pellteroedd cysylltiedig y gallent fod yn eu teithio tuag at gael gwaith heb i ganlyniad cyflogaeth gael ei gyflawni. Pryder sy'n gysylltiedig â hyn yw y gall targedau ddylanwadu ar ymddygiad, gan arwain at rai cyfranogwyr yn cael eu brysio i gael gwaith a allai fod yn amhriodol iddynt.
- 6.56 Mae'r anawsterau ynghylch profi canlyniadau yn dwysau'r canfyddiad o heriau o ran cyrraedd y targedau, a theimla rhai o Gynghorwyr y prosiect nad yw cyfradd lwyddo/drosi y prosiect yn cael ei chynrychioli'n gywir o ganlyniad i hyn: *“Ledled Cymru, credaf y bu ryw 200 o bobl nad oedd modd eu cyfri yn ganlyniadau yn sgil diffyg tystiolaeth.”*
- 6.57 Mae Tabl 6.1 isod yn rhoi trosolwg o nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy a'r nifer a lwyddodd i gael gwaith yn ganlyniad i dderbyn cymorth. Y mae'n dangos bod y nifer sy'n cael gwaith yn is na'r lefel ddisgwyliedig (llai na chwarter y nifer fyddai'n cael gwaith yn ôl y proffil erbyn mis Awst 2016 oedd wedi gwneud hynny). Mae'r cynnydd hyd at fis Awst 2016 wedi'i ddominyddu gan ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n debygol o adlewyrchu'n rhannol y ffaith i ardal Cyfnod 1 fod yn gyfan gwbl oddi mewn i ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Tabl 6.1: Canlyniadau Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn ôl Daearyddiaeth – Awst 2016

Ardal	Cael Gwaith			Gwir Ymgysylltu		
	Targed	Cyflawnwyd	Amrywiad	Targed	Cyflawnwyd	Amrywiad
Dwyrain Cymru	172	13	-92%	906	149	-84%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	353	104	-71%	1,926	911	-53%
Cyfanswm	525	117	-78%	2,832	1,060	-63%

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth – Llywodraeth Cymru

Cyfraniad at Themâu Trawsbynciol

- 6.58 Rhaid i bob prosiect a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd gynnwys gweithgarwch yn yr hyn y mae'n cyflenwi, a hynny'n canolbwyntio ar gyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy, a threchu tlodi. Caiff y rhain eu galw'n themâu trawsbynciol.

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio ar Sail Rhyw

- 6.59 Mae gofyn i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth adrodd yn erbyn y dangosyddion canlynol ar gyfer y thema hon:
- camau gweithredu cadarnhaol - menywod
 - gweithgarwch gwahanu galwedigaethol
 - darpariaeth gofal plant.
- 6.60 Mewn perthynas â chyfle cyfartal, mae'r prosiect yn cefnogi rhieni, waeth beth yw eu rhyw, cefndir ethnig, ac anabledd neu unrhyw grŵp nodweddion gwarchodedig eraill. Cafodd hyn ei gynorthwyo drwy adeiladu ar seilwaith presennol (Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg) fel bod modd cyfathrebu â phob grŵp.
- 6.61 Er hyn, mae'r prosiect yn gweithredu mewn maes lle mae ystrydebau ar sail rhyw yn bodoli, e.e. mewn perthynas â'r syniad ymysg rhai cynulleidfaoedd mai dynion sy'n ennill bara menyyn yr aelwyd ac nad yw eu horiau gweithio yn ffafriol iddynt chwarae rhan lawn mewn bywyd teuluol.⁴⁹ O'r herwydd, aeth prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ati i geisio cyfeirio'n glir at ddynion a menywod a mamau a thadau. Ystyrir mai annigonol yw defnyddio'r term "rhieni", gan mai'r canfyddiad yw

⁴⁹ Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2015) *Cynllun Busnes Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fersiwn 1.2*, [Heb ei gyhoeddi].

y caiff ei ddehongli'n aml i olygu mamau a gallai dynion deimlo nad yw'r polisïau wedi'u bwriadu ar eu cyfer hwy.⁵⁰

- 6.62 Wrth gyflenwi gwasanaethau, mae Cyngorwyr y prosiect yn cydweithio â sefydliadau partner a theuluoedd i ddod i gyswllt â thadau ac annog cyflogwyr a chyfranogwyr i oresgyn gogwyddiadau ystrydebol ymhlyg wrth ganfod rolau i ymgeiswyr (e.e. disgrifiodd un o Gynghorwyr y prosiect sut y gwnaeth gynorthwyo menyw o gyfranogwr i gofrestru ar gwrs gyrru lori, sy'n alwedigaeth a gysylltir yn ystrydebol â dynion).
- 6.63 Hefyd, caiff yr holl ddeunydd hyrwyddo ei gynnig yn ddwyieithog; ond, ar adeg cynnal y gwaith ymchwil, mynegwyd un pryder nad oedd gallu yn y Gymraeg yn bodoli ymysg Cyngorwyr y prosiect mewn un ardal awdurdod lleol lle mae'r Gymraeg yn gyffredin, gan godi pryderon ynglŷn â'r gallu i ymgysylltu â chyfranogwyr. Pan ofynnwyd am wasanaethau yn y Gymraeg, byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig drwy Gynghorwyr y prosiect sydd â gallu yn y Gymraeg o ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.

Datblygu Cynaliadwy

- 6.64 Mae gofyn i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth adrodd yn erbyn y dangosydd canlynol ar gyfer y thema hon:
- Datblygu cynllun teithio'r sefydliad a mentrau teithio cynaliadwy.
- 6.65 Mae'r prosiect yn ceisio annog y defnydd o e-ddysgu a ffurfiau amgen o deithio i helpu i leihau defnydd ynni, teithio a gwastraff. Er hyn, ni allai Cyngorwyr y prosiect gynnig enghreifftiau diriaethol o fod wedi defnyddio'r dull hwn yn ymarferol. Mae'r prosiect hefyd wedi datblygu capasiti ymysg y Cyngorwyr a recriwtiwyd ac a benodwyd i'r prosiect.

Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

- 6.66 Mae gofyn i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth adrodd yn erbyn y dangosydd canlynol ar gyfer y thema hon:
- mentora
 - cynlluniau gwirfoddoli.

⁵⁰ Ibid.

- 6.67 Mae trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn ganolog i'r prosiect. Mae rhieni sydd heb waith yn fwy tebygol o fod mewn aelwydydd sydd â thlodi, yn arbennig teuluoedd unig rieni (gyda'r disgwyl mai unig rieni fydd 70 y cant o gyfranogwyr y prosiect). Ar draws y Deyrnas Unedig, er enghraifft, mae 43 y cant o'r plant mewn teuluoedd unig rieni yn byw mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai.⁵¹
- 6.68 Y mae disgwyliad y bydd gweithgareddau a gynhelir drwy'r prosiect yn arwain at ostyngiadau mewn tlodi, ac y dylai datblygu hyder ac ailymgysylltu mewn addysg brif ffrwd a chyflogaeth arwain at gynhwysiant cymdeithasol. Mae ffactorau rhwng un genhedlaeth a'r llall hefyd yn amlwg, gyda phlant mewn aelwydydd sydd heb waith mewn fwy o berygl o brofi amrywiaeth o ganlyniadau datblygiadol andwyol. Y mae hyn yn arbennig o bwysig i blant ifanc iawn, lle y mae eu profiadau cynnar yn effeithio'n fawr ar eu datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol.⁵²
- 6.69 Newidiadau i statws cyflogaeth neu enillion yw'r prif achosion dros symud i mewn i dlodi neu allan o dlodi⁵³ (er i lefelau tlodi mewn gwaith godi dros y 10 mlynedd diwethaf).⁵⁴ Mae bod yn ddi-waith yn cynyddu'n sylweddol y siawns o brofi amddifadedd materol. Mae hyn yn cynnwys bod heb elfennau hanfodol fel arian ar gyfer gweithgareddau hamdden, tŷ digonol, a dillad addas. Mae diweithdra hefyd yn cynyddu'r perygl o dlodi tanwydd, yr anallu i gynhesu neu oleuo cartref. I lawer, mae hyn hefyd yn golygu byw heb fynediad at weithgareddau cymdeithasol arferol, fel mynd i'r sinema, a all waethygu allgáu cymdeithasol. Caiff diffyg cyflogaeth ei hun ei ystyried yn ffurf ar allgáu cymdeithasol, a gall bod heb waith am gyfnod estynedig gyfrannu at arwahanrwydd a lleihad mewn cymorth cymdeithasol.⁵⁵
- 6.70 Mae'n gyffredin i ofalwyr amser llawn ddisgrifio teimladau o arwahanrwydd cymdeithasol⁵⁶. Gallai darparu'r adnodd i alluogi ymgyfranogiad a'r defnydd o ddarpariaeth gofal plant arwain at chwarae fwy o ran yn y gymuned.

⁵¹ Graham H. a McQuaid R. (2014) *Exploring the impacts of the UK government's welfare reforms on lone parents moving into work – literature review*. Glasgow Centre for Population.

⁵² Seccombe (2004) "Beating the Odds" Versus "Changing the Odds": Poverty, Resilience, and Family Policy' yn *Journal of Marriage and Family*, 64:2, tt. 384-394

⁵³ Pantazis (2006) *Poverty and Social Exclusion in Britain: The Millennium Survey*. Bryste, The Policy Press

⁵⁴ Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2016) *Living standards, poverty and inequality 2016*, Sefydliad Joseph Rowntree

⁵⁵ Tinson, A. et al. (2013) *Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales*, New Policy Institute

⁵⁶ Wavehill (2015) *Gwerthusiad o'r Prosiect Sgiliau Bywyd*, Y Gronfa Loteri Fawr.

6.71 Mae'r gronfa rwystrau yn cynnig llwybr uniongyrchol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys darparu tocynnau bws, dillad ar gyfer cyfweliadau, ac offer i ddechrau gweithio. Gall hefyd oresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol drwy'r ddarpariaeth hyfforddiant sydd wedi'i chaffael. Hefyd, gall y nod yn y pen draw o helpu rhiant sy'n economaidd anweithgar i gael gwaith ddarparu incwm ychwanegol i aelwydydd, gan wella'n sylweddol y siawns bod teulu'n cael ei godi allan o dlodi.

7. Profiad y Cyfranogwyr

Cyflwyniad

- 7.1 Ar ôl derbyn manylion cyswllt 89 o gyfranogwyr prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, cyfwelwyd â 60 o gyfranogwyr, gan olygu cyfradd ymateb o 67 y cant.

Canfyddiadau'r Ymchwili

- 7.2 O'r 60 o gyfranogwyr a gyfwelwyd, roedd 57 yn fenywod. Caiff dosbarthiad y cyfranogwyr o Gyfnod 1 a Chyfnod 2 ei amlinellu yn Nhabl 7.1. Nid yw'r dosbarthiad yn gynrychioliadol o gyfanswm cyfranogwyr y prosiect oherwydd y dechneg samplu fwrriadus a ddefnyddiwyd (gweler adran 2 i gael rhagor o fanylion). Erbyn mis Ebrill 2016, roedd 59 y cant o'r cyfranogwyr a fu'n rhan o'r prosiect yn ardal Cyfnod 1 (o gymharu â 32 y cant o ymatebwyr yr arolwg).

Tabl 7.1: Nifer y Cyfranogwyr a Gyfwelwyd o Bob Cyfnod

Ardal	<i>n</i>
Cyfnod 1 (Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin)	19
Cyfnod 2 (pob ardal awdurdod lleol arall)	41

- 7.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pryd oedd y tro diwethaf iddynt fod mewn swydd â thâl. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr wedi bod heb waith am o leiaf dair blynedd neu heb weithio erioed, ac felly ystyriwyd eu bod gryn bellter o'r farchnad lafur (ac felly gallai fod arnynt angen cymorth dwys hirdymor i'w symud tuag at gael gwaith, a chael gwaith yn y pen draw), a phump o ymatebwyr yn unig a nododd iddynt fod mewn swydd â thâl yn y chwe mis blaenorol.

Astudiaeth Achos

Mae nifer o'r rhai sy'n derbyn cymorth gan brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth wedi bod yn ddi-waith ers amser hir, fel yn achos Angharad⁵⁷. Bu Angharad yn ddi-waith am fwy nag 14 mlynedd er mwyn gofalu am ei phlant. Meddai Angharad iddi golli hyder o beidio â bod wedi gweithio am amser mor hir, ac roedd yn ceisio cymorth i ddychwelyd i weithio.

Cafodd Angharad ei hatgyfeirio i'r prosiect yn ei chyfweliad 'Dychwelyd i'r Gwaith 6 mis' gyda'r Ganolfan Waith a bu'n ymwneud â'r prosiect ers dechrau 2016, gan dderbyn gwahanol fathau o gymorth. Roedd ar Angharad angen cymorth gofal plant ar gyfer ei mab 15 oed sydd â Syndrom Down ac roedd Cynghorydd y prosiect yn ymchwilio i hyn ar ei rhan ar adeg cynnal y cyfweliad. Nododd Angharad bod diffyg hyder yn rhwystr iddi rhag dychwelyd i'r gwaith.

Astudiaeth Achos

Ni fu gan Kelly⁵⁸ swydd gyflogedig erioed, a hithau wedi *beichiogi* yn ifanc. Credai Kelly ei bod yn bryd iddi chwilio am waith / dychwelyd i addysg, am fod ei mab ar fin cychwyn mewn addysg amser llawn a daeth yn ymwybodol o'r prosiect drwy weithiwr cymorth.

Derbyniodd Kelly gymorth i ddiweddarau ei CV a chynghor ar ble i chwilio am gyfleoedd gwaith, e.e. gwahanol wefannau ac ati. Mynegodd fod diffyg hyder yn rhwystr iddi rhag dychwelyd i'r gwaith. Roedd wedi'i bodloni â'r cymorth a gafodd hyd yma, gan ddweud: *'Mae wedi fy ngwneud yn fwy hyderus ynof i fy hun i fynd allan i weithio a bod yn annibynnol a gallu edrych am gyfleoedd fy hun.'*

- 7.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ynglŷn â'u sefyllfaoedd cyn iddynt gofrestru gyda'r prosiect. Roedd llawer o'r ymatebion yn ymwneud â diweithdra neu'n cyfeirio at ofalu am eu plant. Mae hyn yn gyson â'r llenyddiaeth sy'n nodi bod rhieni'n aml yn mynegi'r penderfyniad i flaenoriaethu eu cyfrifoldebau gofalu dros gyflogaeth â thâl fel dewis ymwybodol. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys eu bod wedi gorffen addysg neu hyfforddiant yn ddiweddar, neu anweithgarwch yn sgil salwch hirdymor neu gyfrifoldebau gofalu.

⁵⁷ Defnyddiwyd ffugenw er mwyn cadw enw iawn yr ymatebydd yn gyfrinachol.

⁵⁸ Defnyddiwyd ffugenw er mwyn cadw enw iawn yr ymatebydd yn gyfrinachol.

- 7.5 Dim ond yn ddiweddar y daeth y cyfranogwyr a gyfwelwyd i ymwneud â'r prosiect, a daeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i gyswllt â'r prosiect lai na thri mis cyn i'r cyfweliad gael ei gynnal. Mae hyn yn awgrymu mai cyfyngedig fu profiad llawer ohonynt o'r prosiect hyd yma.

Ymwybyddiaeth o'r prosiect ac ymgysylltiad ag ef

- 7.6 Pan ofynnwyd iddynt sut y daethant i wybod am brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, roedd pwysigrwydd y Ganolfan Waith leol yn amlwg yn yr ymatebion, gyda'r mwyafrif ohonynt yn nodi y cawsant eu hatgyfeirio gan gynghorydd yn y Ganolfan Waith, fel arfer tra eu bod yn y Ganolfan Waith i gael cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith neu wedi hynny.

“Drwy'r Ganolfan Waith. Roedd yn rhaid imi gael cyfweliad ynglŷn â chymorth incwm a dychwelyd i'r gwaith ac wedyn dyma fi'n cael galwad gan ddynes o'r enw xxx a ofynnodd a fyddai gen i ddiddordeb yn y prosiect ac y byddai'n digwydd yr un pryd â'r cyfweliad yn y Ganolfan Waith.” [Cyfranogwr]

“Roeddwn i yn y Ganolfan Waith i gael cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith ac roeddwn yn dweud wrthynt bod angen hyblygrwydd arnaf ac o bosib bod yn hunangyflogedig, a dyma nhw'n dweud wrthyf am [Cynghorydd y prosiect], a oedd yn y Ganolfan Waith ar y pryd.” [Cyfranogwr]

- 7.7 Amrywiai'r ymatebion eraill yn fawr, a chyfeiriwyd yn aml at ymwybyddiaeth drwy fod yn rhan o grŵp chwarae, staff cyflenwi yn dod i gyswllt â hwy, cynrychiolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ac ar lafar.

“Mae fy merch fach yn mynd i grŵp chwarae yn... a daeth dynes i mewn i siarad gyda ni i weld a oedd unrhyw un yn ystyried dychwelyd i weithio ac meddai y gallai helpu.” [Cyfranogwr]

- 7.8 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ble'r oeddynt wedi cwrdd â'r Cynghorydd y tro cyntaf. I'r mwyafrif, roedd hyn yn y lleoliad lle cawsant eu hatgyfeirio i'r prosiect. Yn achos y rhan fwyaf o ymatebwyr, y Ganolfan Waith oedd hyn, ac roedd y gweddill mewn rhyw fath o ganolfan deuluoedd. Mae hyn yn dangos bod y rhai a ddaeth yn ymwybodol o'r cynllun drwy Ganolfannau Gwaith yn aml yn mynd yn eu blaen i gwrdd â Chynghorydd y prosiect yno. Soniwyd hefyd am apwyntiadau mewn llyfrgelloedd lleol ac ymweliadau â'r cartref mewn nifer o achosion.

Astudiaeth Achos

Bu Heulwen⁵⁹, sy'n 24 oed, yn ddi-waith ers iddi orffen ei swydd ran amser yn 2013, ac anodd oedd iddi ddod o hyd i gyfleoedd gwaith. Bu'n derbyn cymorth gan y Ganolfan Waith am dair blynedd ond heb lwyddiant. Roeddynt yn cadw ei chynnig am swyddi yn y sector gofal, er nad oedd hyn yn addas iddi: *'Fe fyddwn i wedi casáu hynny ac ni fyddwn wedi dal ati.'* Cafodd Heulwen felly ei hatgyfeirio i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ym mis Ionawr 2016 ac, yn ôl Heulwen, *'mae Cynghorydd X⁶⁰ wedi bod yn wych, i feddwl ei fod wedi llwyddo i roi trefn ar hyn imi mor gyflym'*.

Rhoddodd y Cynghorydd wybod i Heulwen am yr opsiynau sydd ar gael iddi, ac yn dilyn trafodaeth gynhyrchiol, awgrymodd gwrs galwedigaethol a fyddai'n addas iddi: *'Neidiais at y cyfle a rhoddodd ef bethau ar waith.'* Ar adeg y cyfweiliad, roedd Heulwen wedi cwrdd â'i goruchwylydd ddwywaith ac roedd y cais bron yn barod i fynd, yn amodol ar ddatgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bu'r Cynghorydd yn rhoi cymorth i Heulwen gyda phethau eraill hefyd. Er enghraifft, roedd y feithrinfa yr oedd ei mab yn ei mynychu eisiau taliad am fis ymlaen llaw ac roedd modd i Gynghorydd y prosiect fynd i'r afael â'r mater ar ei rhan. Roedd cyllid gofal plant ar gael i Heulwen hefyd ar gyfer y cyfnod y bydd yn mynychu'r cwrs, a theimlai y byddai hynny'n eithriadol o ddefnyddiol.

Bu'r ymyrraeth cymorth hwn yn gadarnhaol iawn i Heulwen ac roedd ei chyffro a'i chanmoliaeth i'r cymorth yn amlwg yn y cyfweiliad a gafwyd ganddi: *'Rwy'n teimlo mor gyffrous; dyma'r tro cyntaf erioed imi edrych ymlaen at wneud rhywbeth er fy mwyn i. Mae Cynghorydd X wedi bod yn wirioneddol wych... pan gynigodd y syniad yma, doeddwn i'n methu credu'r peth; roedd fel manna o'r nefoedd. Ar y cwrs hwn rwy am gael profiad a chyfle i drïo am swyddi. Rwy wedi gwirioni'n lân. Rwy'n teimlo mor gyffrous, ac yn methu credu fy lwc.'*

⁵⁹ Defnyddiwyd ffugenw er mwyn cadw enw iawn yr ymatebydd yn gyfrinachol.

⁶⁰ Gwnaed hyn yn ddienw er mwyn cadw enw'r darparwr cymorth yn gyfrinachol.

- 7.9 Roedd amrywiaeth o resymau a gymhellai'r cyfranogwyr i gofrestru ar brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Yn nodedig, sut gallai'r prosiect chwarae rhan i'w helpu i gael gwaith a goresgyn rhwystrau ar sail gofal plant.

"Roeddwn eisiau cymorth gyda gofal plant er mwyn imi ddychwelyd i weithio." [Cyfranogwr]

"Rwyf eisiau dychwelyd i'r gwaith. Mae gen i dri o blant ac nid yw'r ieuengaf o oedran ysgol amser llawn eto. Byddai angen cryn dipyn o gymorth gofal plant arnaf. Roedd angen imi gael CV. Roeddwn i'n feichiog pan adawais y coleg, felly dydw i erioed wedi creu CV."
[Cyfranogwr]

"Roeddwn i'n arfer gweithio cyn imi gael fy merch ac ar ôl fy nghyfnod mamolaeth roeddwn i am ddychwelyd ond roedd yr oriau'n wirion ac roedd yn anodd dod o hyd i rywun i ofalu amdani bryd hynny, felly dyma fi'n penderfynu edrych am rywbeth arall a fyddai'n gweithio o amgylch fy merch yn well a lle byddai'r oriau'n fwy addas."
[Cyfranogwr]

- 7.10 Cofrestrodd rhai ar y prosiect heb syniad penodol o'r hyn yr oeddent am elwa ohono.

"Roeddwn i'n meddwl man a man imi fynd i weld beth oedd o. Doeddwn i ddim yn gwybod amdano cyn hynny." [Cyfranogwr]

"Doeddwn i ddim yn gwybod. Es i ddim yno gyda dim mewn golwg. Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n rhy hen i fynd i'r coleg ond roeddwn i eisiau dod o hyd i rywbeth. Hefyd, roeddwn i'n sengl ac roeddwn i'n poeni am arian ac a fydden nhw'n cymryd arian oddi arnaf." [Cyfranogwr]

- 7.11 Roedd ffactorau eraill a oedd yn cymell cyfranogwyr yn cynnwys cael profiad gwaith, hyfforddiant, cymwysterau neu ddatblygu hunan-gred.

"Roeddwn i'n gobeithio cael gwybodaeth am hyfforddiant, a help gyda chyfweliadau i gael gwaith a gofal plant." [Cyfranogwr]

"Roeddwn i eisiau datblygu fy hyder, ac archwilio gwahanol bethau a gweld pa opsiynau sydd gen i. Roedd gofal plant yn rhywbeth roeddwn i'n meddwl amdano hefyd." [Cyfranogwr]

Astudiaeth Achos

Cyn-athrawes yw Gemma⁶¹, sy'n 39 oed, a bu'n ddi-waith ers 2014 (derbyniodd dâl mamolaeth hyd at fis Mawrth 2015) cyn iddi gofrestru ar brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ym mis Tachwedd 2015. Roedd Gemma yn ddi-waith wedi iddi wneud newid i'w *'ffordd o fyw... i edrych ar ôl fy merch a threulio mwy o amser gyda'n gilydd fel teulu'*. Daeth yn ymwybodol o gymorth y prosiect drwy grŵp chwarae yr oedd ei merch yn ei fynychu, lle daeth darparwr cymorth i siarad gyda rhieni ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael i ailgychwyn yn y farchnad swyddi. Nid oedd hyn yn rhywbeth yr oedd Gemma yn ei ddisgwyl, ond neidiodd at y cyfle: *'Doeddwn i ddim yn meddwl y gallwn gael dim, felly roedd y cyfan yn fonws mewn gwirionedd... gwyh.'*

Yn dilyn y cyfarfod cychwynnol gyda Chynghorydd X⁶² yn y grŵp chwarae, cafodd Gemma gyfarfod gyda'r darparwr cymorth yn unigol yn safle'r awdurdod lleol i drafod pethau ymhellach. Roedd ganddi ddiddordeb mewn sefydlu ei busnes ei hun fel tiwtor mathemateg ac roedd modd i'r darparwr cymorth drefnu i Gemma fynd ar dridiau o gwrs 'sefydlu eich busnes eich hun', a oedd yn *'wych'*. Yn dilyn hyn, cafodd gymorth pellach i sefydlu'r busnes, gan gynnwys cyllid i brynu offer fel argraffydd a sganiwr, *'sy'n gymorth mawr i fy musnes'*. Ffactor pwysig yw i Gemma hefyd dderbyn cymorth ariannol i gael gofal plant er mwyn iddi allu mynd ar y tridiau o gwrs: *'Fyddwn i ddim wedi gallu ei wneud fel arall.'*

Er bod eisoes gan Gemma uchelgais i ddatblygu'r busnes cyn dod yn ymwybodol o'r prosiect, yr oedd y prosiect yn elfen gadarnhaol fawr iddi, gan iddo roi'r sbardun iddi symud pethau yn eu blaen o ddifri: *'Roedd cychwyn fel tiwtor yn ddelfrydol, gan y gallwn ei wneud gyda'r nos o adref ond roedd angen imi roi cychwyn ar bethau.'*

- 7.12 Er i'r holl ymatebwyr a holwyd ymwneud â'r prosiect, meddai llawer ohonynt nad oeddynt hyd yma wedi derbyn cymorth drwy'r prosiect ers cofrestru. Roedd rhai heb dderbyn cymorth am mai'n ddiweddar yn unig yr oeddynt wedi cofrestru ar y prosiect. Cyfeiriai eraill at newid yn eu sefyllfa bersonol, fel beichiogrwydd newydd, ac roedd sawl un arall heb glywed yn ôl gan Gynghorydd y prosiect.

⁶¹ Defnyddiwyd ffugenw er mwyn cadw enw iawn yr ymatebydd yn gyfrinachol.

⁶² Gwnaed hyn yn ddiennw er mwyn cadw enw'r darparwr cymorth yn gyfrinachol.

Rhwystrau i Weithio

- 7.13 Holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'r prif heriau sy'n eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith. Meddai llawer mai diffyg gofal plant fforddiadwy ("*Gofal plant, mae mor ddrud*") yw'r prif rwystr iddynt rhag cael gwaith, neu'r ffaith nad oes gofal plant ar gael sy'n addas yn eu barn hwy.

"Gofal plant, pan oedd hi'n fach byddwn i wedi poeni am ei gadael hi'n unrhyw le." [Cyfranogwr]

"Am wn i mai gofal plant yw'r brif broblem. Dydw i ddim yn hoff o'u gadael ac rwy'n poeni am fy mhlentyn ieuengaf." [Cyfranogwr]

"Gofal plant, mae'n anodd iawn bod yn unig riant sy'n gweithio o amgylch dau o blant a gallu mynd ar gyrsiau. Mae eisoes gen i lefel 2 mewn harddwch ac mae angen imi ddod o hyd i ffordd i gael lefel 3." [Cyfranogwr]

- 7.14 Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at fwy nag un rhwystr at gael gwaith, gan ddangos bod mwy o amrywiaeth o anghenion na darpariaeth gofal plant sy'n fforddiadwy a hygyrch yn unig. Nodwyd yn y sail resymegol bod rhwystrau lluosog yn gyffredin ymysg grwpiau targed, a phan fo'r rhwystrau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd gallant yn aml waethygu'r pellter o'r farchnad lafur.
- 7.15 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr wedyn a oeddynt yn teimlo y llwyddwyd i oresgyn unrhyw rai o'r heriau hyn ers iddynt gofrestru gyda'r prosiect. Lle y llwyddwyd i oresgyn heriau, cyfeiriai'r ymatebwyr yn fwyaf cyffredin at y canlynol:
- cymorth gyda CV
 - cymorth i gael mynediad at ofal plant
 - cymorth i gael mynediad at brofiad gwaith perthnasol.

Astudiaeth Achos

25 oed yw Rhiannon⁶³ a dechreuodd dderbyn cymorth gan brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ym mis Ionawr 2016. Cyn hyn, bu Rhiannon yn gofalu am ei merch 3 oed, a hithau wedi bod mewn gwaith a thâl ddiwethaf yn haf 2015.

Roedd wedi gwahanu oddi wrth ei gŵr ac roedd eisiau gofalu am ei merch ei hun: *'Gyda'r holl newidiadau, rwy'n teimlo'n anghyfforddus yn gadael fy merch yn unrhyw le.'* Roedd ei merch yn yr ysgol yn rhan amser ac, o'r herwydd, roedd Rhiannon yn chwilio am swydd ran amser i'w hun.

Roedd dau brif rwystr i Rhiannon rhag dychwelyd i weithio. Yn gyntaf, am swyddi rhan amser yn unig y gallai ymgeisio, oherwydd *'Rwy'n teimlo'n anghyfforddus iawn yn gadael fy merch gydag unrhyw un ar wahân i fy rheulu'*. Yn ail, roedd angen cymorth arni i ddatblygu CV. Roedd Rhiannon wedi trefnu cyfweiliad yn y Ganolfan Waith i chwilio am gyfleoedd gwaith sy'n addas i'w hanghenion, a chafodd ei hatgyfeirio i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Cafodd alwad ffôn gan ddarparwr cymorth y prosiect a threfnodd i gyfarfod yn y ganolfan alwadau, lle y cytunwyd y byddai Rhiannon yn cael cymorth ynglŷn ag ysgrifennu CV, ymgeisio am swyddi, a pharatoi at gyfweiliadau.

Ar adeg y cyfweiliad, roedd y cymorth a dderbyniodd Rhiannon yn bennaf yn ymwneud â datblygu CV, oherwydd *'Dydw i erioed wedi gwneud CV o'r blaen'*. Bu mewn cyswllt rheolaidd â'r darparwr cymorth, bob tair wythnos / mis, ac mae Rhiannon hefyd wedi derbyn gwybodaeth a chynghor am gyrsiau posibl i'w mynychu. Dyma sut y gwnaeth Rhiannon grynhoi'r hyn mae'n ei feddwl am y cymorth a gafodd hyd yma: *'Does dim pwynt gwael o gwbl. Rwy'n hapus iawn gyda Chynghorydd X'*⁶⁴.

- 7.16 Gofynnwyd i'r rhai sydd eisoes yn derbyn cymorth a oeddynt wedi gofyn am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant i'w galluogi i dderbyn y cymorth hwnnw. Nifer fach iawn o gyfranogwyr a ddwedodd iddynt ofyn am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant. Teimlai llawer o'r rhai nad oeddynt wedi derbyn cymorth ariannol ar gyfer gofal plant ei bod yn rhy gynnar yn y broses iddynt wneud hynny. Er hynny, meddai rhai unigolion, yn anghywir, nad oeddynt yn gymwys i dderbyn cyllid am nad oeddynt wedi cael gwaith eto: *"Mae'n ddyddiau cynnar hyd yma, ond byddaf yn gwneud cais amdano pan fyddaf yn dod o hyd i waith."* Unwaith eto, mae hyn yn dangos y camddealltwriaeth ynglŷn â rôl y cyllid ar gyfer gofal plant.

⁶³ Defnyddiwyd ffugenw er mwyn cadw enw iawn yr ymatebydd yn gyfrinachol.

⁶⁴ Gwnaed hyn yn ddienw er mwyn cadw enw'r darparwr cymorth yn gyfrinachol.

Astudiaeth Achos

31 oed yw Emily⁶⁵ ac nid oedd wedi dychwelyd i weithio ar ôl cael ei merch. Ar adeg y cyfweiliad, yn 2014 y bu mewn swydd â thâl ddiwethaf. Nid oedd modd iddi ddychwelyd i'w gwaith blaenorol am fod yr oriau yn rhy anodd i gael rhywun i ofalu am ei merch. Yn sgil hynny, penderfynodd Emily chwilio am fath gwahanol o waith sydd ag oriau mwy addas a fyddai'n galluogi iddi weithio o amgylch anghenion ei merch. Cafodd Emily ei hatgyfeirio i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth gan y Ganolfan Waith ar ddechrau 2016 a chafodd gwrdd â Chynghorydd i drafod ei chefnidir, yr hyn yr hoffai wneud yn y dyfodol, a materion gofal plant. Roedd modd i'r prosiect ddarparu cyllid gofal plant er mwyn i Emily ddilyn ei chysiau, ac roedd hyn yn *'ddefnyddiol iawn'*. Nododd Emily mai costau gofal plant oedd y prif rwstr iddi rhag dychwelyd i weithio, ond roedd modd i Gynghorydd y prosiect gymryd gofal o'r mater hwn, gan wneud y ffordd yn glir i Emily ddychwelyd i weithio.

Daeth y darparwr cymorth hefyd o hyd i nifer o gyrsiau addas iddi eu dilyn. Ar adeg y cyfweiliad, roedd Emily wedi cwblhau un cwrs ac ar fin cychwyn ar gwrs arall. Gan grynhoi, meddai Emily fod y prosiect yn *'brosiect da iawn'*. *'Mae Cynghorydd X⁶⁶ yn rhoi llawer o gymorth ac mae'n ffonio bob wythnos neu bythefnos i weld sut mae pethau'n mynd.'*

- 7.17 Roedd gweddill yr ymatebwyr a ddwedodd nad oedd angen cymorth gofal plant arnynt naill ai heb fod yn chwilio am waith ar hyn o bryd, yn derbyn cyllid o ffynhonnell arall, neu bod eu plentyn ar fin dechrau'n yr ysgol ac felly'n gwaredu'r angen am ofal plant. O'r rhain, roedd rhai wedi gwneud dewis ymwybodol i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau gofalu dros ailgychwyn yn y farchnad lafur, er mwyn darparu'r gofal a'r cymorth a deimlent sydd ei angen ar eu plant er mwyn datblygu yn emosiynol ac addysgol.

"Dydw i ddim yn gweithio ar hyn o bryd am fod angen imi allu casglu fy mab o'r ysgol. Y tro diwethaf roeddwn i'n gweithio llawer ac roedd fy mab yn y clwb brecwast a'r clwb ar ôl ysgol ac roedd yr athrawon yn dweud wrthyf ei fod yn syrthio i gysgu yn yr ysgol. Roedd yn ddiwrnod rhy hir iddo. Fy mlaenoriaeth yw ei addysg a gallu gofalu amdano."

[Cyfranogwr]

⁶⁵ Defnyddiwyd ffugenw er mwyn cadw enw iawn yr ymatebydd yn gyfrinachol.

⁶⁶ Gwnaed hyn yn ddiennw er mwyn cadw enw'r darparwr cymorth yn gyfrinachol.

“Yn ddiweddar [cefaïs fywyd] yn llawn newidiadau. Rwy’n teimlo’n anghyfforddus yn gadael fy merch yn unrhyw le. Y mae yn yr ysgol yn rhan amser; dim ond 3 oed ydi hi. Fyddwn i ddim ar fy ennill o fod yn gweithio gan mai gweithio’n rhan amser yn unig fyddwn i’n medru gwneud ar hyn o bryd.” [Cyfranogwr]

“Rwy’n meddwl am fynd i weithio ym mis Medi pan fydd fy mab yn yr ysgol yn amser llawn. Dydw i ddim yn meddwl y bydd angen [cymorth gofal plant] arnaf.” [Cyfranogwr]

Gwerthusiad y Cyfranogwyr o Brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

- 7.18 O’r ymatebwyr a deimlai bod modd iddynt fynegi barn am y cymorth a gawsant, roedd y mwyafrif helaeth yn gadarnhaol ynglŷn â’u profiad.

“Mae’n dda iawn ac yn ddiddorol. Doeddwn i ddim yn gwybod bod cymorth neu gefnogaeth fel hyn i’w gael. Rwy’n gwybod y gallwch gael rhywfaint o help yn y Ganolfan Waith ond mae’n rhaid ichi wneud apwyntiad ac mae’n fwy ffurfiol. Gyda [Chynghorydd y prosiect] mae’n hamddenol ac mae’n llawn cymorth.” [Cyfranogwr]

“Rwy’n teimlo mor gyffrous; dyma’r tro cyntaf erioed imi edrych ymlaen at wneud rhywbeth er fy mwyn i. Mae [Cynghorydd y prosiect] wedi bod yn wirioneddol wych... y tro cyntaf imi gwrdd ag o, roeddwn i’n dweud y gallwn fod yn glerc swyddfa neu rywbeth. Pan gynigodd y syniad yma, doeddwn i’n methu credu’r peth. Mae wedi bod fel manna o’r nefoedd.” [Cyfranogwr]

“Rwyf eisoes wedi ei gweld hi dair gwaith. Mae’n fy helpu i wneud y pethau rwy’n eu gweld yn anodd iawn. Mae wedi bod yn gwbl ragorol. Roedd yn rhaid imi wneud penderfyniad er mwyn symud ymlaen. Penderfynais lansio fy musnes yn gyntaf a’i adeiladu a chael cleientiaid felly dyna rwy’n symud ymlaen ag e’n awr. Mae angen imi fynd ar gwrs i gychwyn fy musnes fy hun a sefydlu gwefan. Erbyn y bydd fy mhlentyn ieuengaf yn yr ysgol yn rhan amser, byddaf wedi gwneud hyn i gyd, felly ni fydd angen gofal plant.” [Cyfranogwr]

- 7.19 Gofynnwyd i’r cyfranogwyr a oeddynt wedi derbyn cymorth yn y gorffennol i gyrraedd eu nodau o ran cyflogaeth o ffynonellau eraill ar wahân i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at gymorth blaenorol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys Canolfannau Gwaith, cynlluniau

Dychwelyd i'r Gwaith, a sefydliadau elusennol. O'r rhai a oedd wedi derbyn cymorth blaenorol, meddai llawer fod yn well ganddynt y cymorth a gafwyd gan brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Ni ddwedodd yr un cyfranogwr fod y prosiect hwn wedi darparu gwasanaeth gwaeth. Er hynny, nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi derbyn cymorth blaenorol, a allai awgrymu bod prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn ymgysylltu ag unigolion anoddach eu cyrraedd. Serch hynny, gellid dweud hefyd bod y cynllun yn cyrraedd unigolion sydd, fel rhieni newydd, wedi dod yn gymwys yn ddiweddar yn unig i dderbyn cymorth o'r natur hon.

8. Casgliadau

Trosolwg

- 8.1 Tanseiliwyd perfformiad cychwynnol prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth gan ddiffyg darpariaeth gwasanaeth gyflawn. Er i'r dechrau fod yn anodd, mae'r prosiect wedi magu momentwm yn raddol, yn arbennig o ganlyniad i waith partneriaeth cryfach ac integreiddio'r gwasanaeth ym mhob lleoliad, a chaiff ei ystyried bellach yn gwbl weithredol, naw mis ar ôl y lansiad cychwynnol.

Myfyrdodau ar y Theori Newid

- 8.2 Mae Tabl 8.1 isod yn rhestru'r tybiaethau sy'n sail i'r theori newid ac, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil, rhoddir barn ar eu dilysrwydd. Y mae'n dangos y meysydd lle y dylid cynnal gweithgarwch i sicrhau bod y theori newid (ac felly canlyniad prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) yn parhau'n gyflawnadwy.

Tabl 8.1: Dilysrwydd y Tybiaethau yn y Theori Newid

Tybiaethau	Dilysrwydd
Tybiaethau Mewnbwn i Weithgaredd	
1. Mae'r cyfranogwyr arfaethedig yn bodoli a gellir dod o hyd iddynt / cysylltu â nhw	Er y dwedir mai heriol yw'r niferoedd a gofrestrwyd, mae'r prosiect wedi parhau i gyflawni gyda gwaith marchnata a hyrwyddo cyfyngedig ac mae hyn yn parhau i fod yn dybiaeth ddilys
2. Safleoedd, offer TG a lleoliadau yn addas i gyflenwi'r gwasanaeth	Mae rhai o Gyngorwyr y prosiect wedi cael trafferth gyda'r holl elfennau hyn ac mae angen adolygu'r seilwaith TG er mwyn galluogi i'r gwasanaeth gael ei gyflenwi'n effeithiol ar draws pob lleoliad
3. Systemau monitro yn casglu manylion buddiolwyr yn ddigonol	Mae'r systemau monitro yn ddigonol i gasglu manylion y buddiolwyr; er hynny, mae bylchau yn y dystiolaeth a gesglir a rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r gofynion o ran tystiolaeth
4. Gall staff yr Adran Gwaith a Phensiynau gael eu recriwtio a'u hyfforddi, a gellir cynnal gwiriadau diogelwch arnynt	Cafodd staff yr Adran Gwaith a Phensiynau eu recriwtio a'u hyfforddi a chynhaliwyd gwiriadau diogelwch arnynt, ond cymrodd yn hwy na'r disgwyl
5. Hyfforddiant staff yn ddigonol	Mae'r dryswch ynglŷn â deddfwriaeth budd-daliadau yn awgrymu bod angen hyfforddiant ychwanegol neu broses gynefino sy'n benodol i'r prosiect
6. Ni chaiff cyfranogwyr eu hatal rhag derbyn y gwasanaethau	Ychydig o dystiolaeth sydd bod buddiolwyr yn cael eu rhwystro rhag derbyn y gwasanaeth, er i'r angen i ddarparu tystiolaeth ategol fod yn rhwystro i leiafrif

Tybiaethau	Dilysrwydd
Tybiaethau Mewnbwn i Weithgaredd	
7. Mae'r ddarpariaeth yr un mor hygyrch ledled Cymru	Er bod y ddarpariaeth ar gael ledled Cymru, y mae fel arfer yn fwy hygyrch mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig
Tybiaethau Gweithgaredd i Allbwn	
8. Mae gan staff yr Adran Gwaith a Phensiynau wybodaeth ac arbenigedd digonol	Mae bylchau mewn gwybodaeth am fudd-daliadau lles yn ogystal ag elfennau allweddol o'r prosiect yn amlwg ymysg cyflogeion y prosiect
9. Mae cymorth y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'r awdurdodau lleol yn fuddiol a hygyrch	Gwnaed cysylltiadau â'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac maent yn fuddiol iawn i Gynghorwyr y prosiect
10. Mae modd creu cysylltiadau â chyflogwyr a. Llwybrau presennol ar gael drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau b. Nid yw'r prosiect yn rhoi baich ychwanegol ar gyflogwyr	Mae'n rhy gynnar yn y prosiect i fwrw barn ar y dybiaeth hon
11. Buddiolwyr yn ymgysylltu â'r gwasanaeth cynghori	Mae'n ymddangos bod mwyafrif y buddiolwyr yn barod i ymgysylltu (neu bod ganddynt ddiddordeb mewn ymgysylltu) â'r gwasanaeth cynghori
12. Rhieni'n awyddus i gael gwaith ac yn barod i ymwneud â'r prosiect yn wirfoddol	Mae cyfran sylweddol o'r rhieni yn awyddus i gael gwaith ac mae'r lefelau ymgysylltu'n awgrymu parodrwydd i ymwneud â'r prosiect yn wirfoddol
13. Rhieni eisiau i'w plant dderbyn gofal plant	Er ei bod yn gyffredin i rieni gyfeirio at ofal plant fel rhwystr, gallai Cynghorwyr y prosiect nodi atebion gwahanol o ran gofal plant ar gyfer y rhwystr hwn, ac o ganlyniad i hynny, nifer isel a dderbyniodd gyllid gofal plant drwy'r prosiect ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn. Caiff ei gydnabod hefyd y gall cyflwyno darpariaeth hyfforddiant y prosiect (a gynhalid adeg cynnal y gwaith ymchwil) gynyddu'r galw am ofal plant.
14. Hyrwyddo yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o'r prosiect ac ymgysylltiad ag ef	Nid oes llawer i awgrymu bod y dybiaeth hon annhebygol o ddigwydd a bu i'r Cynghorwyr hynny a luniodd eu deunydd eu hunain gael llwyddiant; er hyn, yn fwy cyffredinol, mae angen mwy o hyrwyddo i hybu lefelau o ymwybyddiaeth

Dylunio a Datblygu'r Prosiect

- 8.3 Mae dyluniad y prosiect yn seiliedig i raddau helaeth ar brofiad blaenorol, gan nodi ac ailadrodd elfennau mwyaf llwyddiannus mentrau blaenorol; a myfyrio ar y model cyflenwi gwasanaeth a'i adolygu pan fo gwersi wedi'u dysgu. Bu awdurdodau lleol yn cynorthwyo â'r broses ddylunio; er bod rhai yn pryderu ynglŷn â'r newid (o fentrau blaenorol) o staff cyflenwi yn staff ymgysylltu cymunedol wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol at Gynghorwyr y prosiect wedi'u cyflogi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, câi ei gydnabod bod y newid yn y dull gweithredu yn cynnig llwybr mwy effeithlon ar gyfer y ddarpariaeth.
- 8.4 Mae'r prosiect wedi cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Elfen bwysig arall o'r gwasanaeth fu i bartneriaid ymgysylltu â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, er bod pryder ymysg rhai bod y cyswllt hwn ar lefel reoli a strategol yn digwydd yn llai aml yn y misoedd diwethaf. Roedd dirywiad yn y cyswllt a diffyg arweiniad wedi golygu bod rhai awdurdodau lleol yn aneglur ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r prosiect.

Argymhelliad

1. Llundio cytundeb ffurfiol, megis memorandwm cyd-ddealltwriaeth, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid allweddol (awdurdodau lleol yn benodol) sy'n ymwneud â chyflenwi prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth.

Gweithredu

- 8.5 Lanswyd y prosiect mewn dau gyfnod, ac er i gyfnod 1 gael ei lansio mewn ardaloedd a oedd eisoes yn ystyried mabwysiadu dull tebyg, gweithredwyd y prosiect i gychwyn heb ganllawiau clir i'r staff cyflenwi, heb holl aelodau'r staff, a heb fod strwythurau ac elfennau allweddol o'r model gwasanaeth yn eu lle.
- 8.6 Cymerwyd yn hwy na'r disgwyl i roi elfennau allweddol o brosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth ar waith, gan achosi oedi nad oedd wedi'i ragweld a chan effeithio ar y lefel o gyflawni canlyniadau i gychwyn. Golygodd hyn fod y prosiect yn rhedeg ar ei hôl hi o gymharu â'r proffil o ran nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy a'r nifer a lwyddodd i gael gwaith.

- 8.7 Mae'r diffyg cychwynnol yn yr hyfforddiant a ariennir – yn ogystal ag elfennau allweddol eraill o'r hyn sydd gan y rhaglen i'w gynnig – wedi effeithio ar lefel gyflenwi'r prosiect, gydag elfennau marchnata a hyrwyddo wedi'u hosgoi ar y cyfan hyd nes bod modd sefydlu'r ddarpariaeth. Mynegwyd pryderon gan y Cynghorwyr y gallai'r diffyg deunydd hyrwyddo effeithio ar ganfyddiadau bod y rhaglen yn un ddilys.
- 8.8 Mae arwyddion o gamddealltwriaeth hefyd ymysg Cynghorwyr y prosiect, yn arbennig mewn perthynas â chymhwyso cymorth gofal plant a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ar fudd-daliadau. Er y rhoddwyd hyfforddiant dwys i'r Cynghorwyr a recriwtiwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y prosiect hwn, roeddynt yn dymuno cael proses gynefino yn benodol i'r prosiect ac yn gofyn am arweiniad ychwanegol ar y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael yn eu hardal.

Argymhellion

2. Cyflenwi proses gynefino prosiect-benodol i holl Gynghorwyr y prosiect.
3. Datblygu taflen o gwestiynau cyffredin a'i defnyddio fel dogfen weithio drwy gydol gweddill y prosiect.
4. Ystyried cyflwyno system gyfeillio/mentora i alluogi Cynghorwyr y prosiect i rannu'r hyn a ddysgant gyda'i gilydd a chodi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig yn lleol i staff.
5. Ymgymryd â gwaith marchnata a hyrwyddo gan ddefnyddio deunydd clir a chryno, gan dargedu darparwyr gwasanaeth partner a chyfranogwyr posibl, i adlewyrchu'r ffaith bod y prosiect bellach yn gwbl weithredol.

Integreiddio'r Gwasanaeth

- 8.9 Mae'r rhan fwyaf o Gynghorwyr y prosiect wedi integreiddio'n llwyddiannus i'r gwasanaethau teuluoedd ehangach ym mhob cymuned. Mae'r arfer o dargedu cymorth y tu allan i ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i chroesawu gan lawer o'r partneriaid, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod hyn yn fwlch mewn darpariaeth gwasanaethau. Lle y mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol, mae Cynghorwyr y prosiect yn elwa o atgyfeiriadau gan leoliadau Cymorth i Deuluoedd ac yn dychwelyd y berthynas honno. Mae hyn yn benodol o bwysig wrth ystyried bod cyfranogwyr targed y prosiect yn aml yn wynebu rhwystrau neu anghenion niferus sydd fel arfer yn galw am gymorth y tu hwnt i'r hyn y gall Cynghorwyr y prosiect ei gynnig ar eu pen eu hunain.

- 8.10 Gweithiodd y dull partneriaeth yn benodol o dda lle mae Cynghorwyr y prosiect yn cynnal desg boeth oddi mewn i leoliadau teuluoedd ac yn mynychu/sicrhau safleoedd ar rwydweithiau allweddol o ddarparwyr gwasanaethau i deuluoedd. Ond mewn rhai lleoliadau, mae'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer cynnal desg boeth neu gyfarfod â chleientiaid naill ai mewn lleoliad amhriodol (e.e. yn gyfan gwbl oddi mewn i Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf) neu'n amhriodol yn gyffredinol i ganiatáu ar gyfer cyflenwi gwasanaeth (yn arbennig mewn ardaloedd gwledig). Hefyd, mae proffil y rhieni sy'n mynychu'r canolfannau i deuluoedd yn gymharol ddigynfawr (gyda'r rhai sy'n bresennol fel arfer yn newid o un tymor i'r llall yn unig) a gall y llwybrau posibl hyn i'r farchnad gael eu disbyddu'n gyflym os yw nifer y mynychwyr yn gymharol isel. O ganlyniad i hyn, mae canolfannau Dechrau'n Deg a grwpiau chwarae eraill yn llwybrau llai cyffredin i gyflenwi gwasanaethau na'r hyn a ragwelwyd yn y cynllun busnes.
- 8.11 Ar y llaw arall, mae Canolfannau Gwaith Lleol yn llwybrau ffrwythlon i recriwtio cyfranogwyr i'r prosiect, gyda rhai o Gynghorwyr y prosiect yn nodi i bron i'w llwyth achosion cyfan o gyfranogwyr gael eu recriwtio drwy'r Canolfannau. Nid yw'n glir a yw'r heriau o ran ymgysylltu â phartneriaid, canfod lleoliadau mewn cymunedau neu ymgysylltu â'r systemau a'r prosesau yn y Canolfannau Gwaith, wedi dylanwadu ar y ddibyniaeth hon ar atgyfeiriadau gan y Canolfannau Gwaith. Er hyn, mae Canolfannau Gwaith a'r adnoddau sydd ar gael i Gynghorwyr y prosiect yn cynnig ffyrdd defnyddiol i ganfod cyfranogwyr cymwys ac ymgysylltu â hwy.
- 8.12 Mae'r Canolfannau Gwaith felly yn elfen sylfaenol o'r prosiect ar hyn o bryd. Er hyn, dyluniwyd y prosiect ar sail darpariaeth allgymorth cymunedol, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i ymgysylltu â rhieni a allai fod yn amharod i ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn fel arall. Annhebygol yw i'r garfan hon gael ei chanfod yn y Canolfannau Gwaith. Wrth ddibynnu ar Ganolfannau Gwaith, y mae mwy o berygl hefyd y gallai'r prosiect gael ei ystyried gan gyfranogwyr posibl yn ddim mwy nag estyniad o'r ddarpariaeth sydd fel arfer yn cael ei chynnig drwy'r Canolfannau Gwaith.

Argymhellion

6. Monitro llwybrau atgyfeirio yn agos i nodi tueddiadau a phatrymau yn yr atgyfeiriadau.
7. Gan adeiladu ar lwyddiant peilot Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig, archwilio dulliau ychwanegol (a'u rhannu os ydynt yn llwyddiannus) i ymgysylltu â chanolfannau Dechrau'n Deg a lleoliadau i deuluoedd er mwyn cynyddu amrywiaeth llwybrau atgyfeirio/ymgysylltu y prosiect.

8. Lle y bo tystiolaeth bod cyflenwi gwasanaethau yn fwy heriol mewn ardaloedd gwledig, dylid archwilio drwy drafodaeth gyda grwpiau gwledig allweddol, gan gynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n cyflawni'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Dull Cyflenwi'r Gwasanaeth

- 8.13 Mae'r holl randdeiliaid a'r cyfranogwyr yn croesawu'r dull hyblyg hwn, sy'n cael ei arwain gan yr unigolyn, a chaiff hyn ei gynorthwyo gan ddiffyg strwythur diffiniedig ar gyfer y prosiect. Mae'n bwysig y caiff yr hyblygrwydd hwn o ran gweithredu ei gynnal er mwyn caniatáu i Gynghorwyr y prosiect ymateb i sefyllfaoedd a chyfleoedd sy'n codi yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir ganddynt. Croesawir hefyd yr amryw adnoddau y gall Cynghorwyr y prosiect eu defnyddio, er mai aneglur ar hyn o bryd yw'r galw sydd amdanynt. Y rheswm am hyn yw bod y diffyg o ran darpariaeth hyfforddiant Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth yn debygol o fod wedi cyfyngu ar y lefel o alw am ddarpariaeth gofal plant. O ganlyniad, y mae'n aneglur ble y caiff y cyllidebau sydd ar gael eu defnyddio'n llawn.

Argymhelliad

9. Cynnal yr hyblygrwydd o ran gweithredu sydd gan Gynghorwyr y prosiect wrth iddynt gyflenwi eu gwasanaethau.

Cyflawni Canlyniadau

- 8.14 Wrth ystyried sut caiff canlyniadau eu cyflawni, mae'n bwysig cydnabod bod y prosiect fel arfer yn ymgysylltu â phobl sydd gryn bellter o'r farchnad lafur, a chyn ymgysylltu â'r prosiect, annhebygol yw eu bod yn chwilio am waith.
- 8.15 Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu bod sicrhau canlyniadau cyflogaeth cynaliadwy i 20 y cant o'r cyfranogwyr (targed y prosiect) yn her. Er hyn, mae model y prosiect yn seiliedig i raddau helaeth ar ymyriadau cyflogadwyedd diweddar, gan gynyddu'r siawns o gyrraedd y targed hwn. O ystyried y pellter o'r farchnad lafur yn achos rhai cyfranogwyr, gallai dulliau i fesur y pellter a deithiwyd yn effeithiol (sy'n debygol o gynnwys mesur hunanhyder, hunan-gred a dyheadau) ddarparu ffordd ychwanegol i fesur y buddion a ddaeth o'r cymorth.

8.16 Y mae hefyd yn nodedig nad yw'r targed a bennir i Gynghorwyr y prosiect yn rhoi ystyriaeth i nodweddion y lleoliad. Nodwyd amrywiaeth o heriau i gyflenwi gwasanaethau'r prosiect sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig a/neu ardaloedd sy'n dioddef o seilwaith gwael.

Argymhellion

10. Cyflwyno dulliau cadarn i fonitro taith cwsmeriaid a'u canlyniadau cyflogaeth er mwyn nodi unrhyw batrymau lleoliadol wrth gyflenwi gwasanaethau a chyflawni canlyniadau.
11. Comisiynu'r gwerthusiad cyfunol cyn gynted ag sy'n ymarferol i fesur taith cyfranogwyr a'r pellter a deithiwyd ac er mwyn llunio argymhellion amserol ar gyfer prosiect Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth.

Monitro

- 8.17 Mae angen i brosiectau a gyflawnir fel rhan o raglen Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014–2020 ddarparu tystiolaeth glir o wariant a gweithgarwch i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhaglen ac yn gwneud defnydd priodol o adnoddau cyhoeddus ac Ewropeaidd. Mae hyn yn rhoi baich gweinyddol ar ddarparwyr gwasanaeth, ond mae rhywfaint o ddryswch ymysg Cynghorwyr y prosiect ynglŷn â'r hyn ddylent fod yn ei gasglu a sut y dylid ei gasglu.
- 8.18 Ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn, bu i adolygiad o'r systemau casglu gwybodaeth nodi bylchau yn y wybodaeth a gofnodir ac mae hapwiriadau bellach yn cael eu gweithredu mewn ymateb i'r mater hwn.

Argymhelliad

12. Cynnwys enghreifftiau o dystiolaeth gymwys/anghymwys mewn canllawiau mewnol / dogfennau cwestiynau cyffredin.

Perfformiad

- 8.19 Mae'r oedi wrth weithredu'r prosiect, o gyfuno hynny â'r diffyg offer/cynigion i alluogi i'r prosiect gael ei gyflenwi, wedi golygu bod y prosiect ar ei hôl hi o gymharu â'r proffil, o ran nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy a'r nifer a lwyddodd i gael gwaith.

8.20 Roedd Cynghorwyr y prosiect yn pryderu bod y targed a osodwyd ar gyfer cynorthwyo rhieni i gael gwaith yn heriol. Anodd yw barnu maint heriau oherwydd, ar adeg cynnal y gwaith ymchwil hwn, nid oedd y prosiect yn gwbl weithredol. Yn ychwanegol, bydd y cyfleoedd addas sydd ar gael, sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect, yn effeithio ar ba mor gyraeddadwy yw'r targed hwn.

Argymhelliad

13. Dylai proffil y prosiect gael ei adolygu mewn chwe mis (wedi i'r prosiect fod yn gwbl weithredol) i nodi a oes angen ailbroffilio'r targedau.

9. Adran Gyfeirnodau

Amion Consulting. (2010) *Evaluation of the National Strategy for Neighbourhood Renewal: Final Report*. Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (2010)

Bashir et al. (2011) *Families and work: Revisiting barriers to employment*, Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Bridgeman et al. (1998) *New Findings on Poverty and Child Health and Nutrition: Summary of a Research Briefing*. National Academy Press, Washington DC.

Crowther et al. (2000) 'Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review', BMJ: <http://www.bmj.com/content/322/7280/204>

Del Boca, D., Pasqua, S. a Pronzato, C. (2008) *Motherhood and Market Work Decisions in Institutional Context: a European perspective*, Dondena Working Paper No 11

Dench et al. (2007) *Young Mothers Not in Learning: a Qualitative Study of Barriers and Attitudes*, IES Report 439, Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth: <http://www.employment-studies.co.uk/system/files/resources/files/439.pdf>

Frontier Economics (2016) *Opsiynau Polisi Gofal Plant i Gymru*, Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru

Gershoff et al. (2007) 'Income is not Enough: Incorporating Material Hardship Into Models of Income Associations With Parenting and Child Development' yn *Child Development*, 78:1, tt. 70:95

Graham H. a McQuaid R. (2014) *Exploring the impacts of the UK government's welfare reforms on lone parents moving into work – literature review*. Glasgow Centre for Population Health

Trysorlys Ei Mawrhydi. (2011) *The Magenta Book: Guidance for Evaluation*

Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth. (2012) *Gwerthusiad o Wasanaethau Cynghori y Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig mewn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf*. Llywodraeth Cymru

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2016) *Living standards, poverty and inequality 2016*, Sefydliad Joseph Rowntree

Ipsos MORI (2013) *Parents' Views and Experiences of Childcare, Research Report*. Yr Adran Addysg

ODS Consulting. (2006) *An overview of the Social Inclusion Partnership (SIP) programme*. Communities Scotland

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (2011). *Families and Households in England and Wales 2011*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Pantazis, C, Gordon, D. a Levitas, R. (Eds) (2006) *Poverty and Social Exclusion in Britain: The Millennium Survey*. Bryste, The Policy Press

Pettit, B. a Hook, J. (2005) 'The structure of women's employment in comparative perspective', *Social Forces*, Cyfrol 84, Rhif 2

Schoon et al. (2012) *Intergenerational transmission of worklessness: Evidence from the Millennium Cohort and the Longitudinal Study of Young People in England*. Yr Adran Addysg.

Secombe (2004) "Beating the Odds" Versus "Changing the Odds": Poverty, Resilience, and Family Policy' yn *Journal of Marriage and Family*, 64:2, tt. 384-394

SQW. (2014) *Gwerthusiad o Genesis Cymru 2*. Llywodraeth Cymru

Sheffield Hallam, *The national evaluation of the New Deal for Communities*
<http://extra.shu.ac.uk/ndc/> (darllenwyd ar 14^{eg} Mehefin 2016).

Tinson, A. et al. (2013) *Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales*, New Policy Institute

Wavehill (2015) *Gwerthusiad o'r Prosiect Sgiliau Bywyd*, Y Gronfa Loteri Fawr.

Tudalen we Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru <http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy> – [Darllenwyd ar 14^{eg} Mehefin 2016]

Trosolwg Llywodraeth Cymru o Deuluoedd yn Gyntaf <http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/families-first/outcomes/?lang=cy> [Darllenwyd ar 15^{fed} Mehefin 2016]

Llywodraeth Cymru (2015) *Tabl Rhesymeg ar gyfer Gweithrediadau Arfaethedig yr UE – Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)*, Crynodeb, [heb ei gyhoeddi].

Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2015) *Cynllun Busnes Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fersiwn 1.2*, [heb ei gyhoeddi].

Llywodraeth Cymru. (2015). *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-2015*. Gwasanaeth Data y Deyrnas Unedig

Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi
<http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/tackling-poverty/?lang=cy> [Darllenwyd ar 14^{eg} Mehefin 2016]

Llywodraeth Cymru (2014), *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Adroddiad Blynyddol 2014*, Llywodraeth Cymru

Atodiad A

Canllaw Trafod Cyfveliadau Cwmpasu

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r materion yr hoffem eu trafod gyda chi mewn perthynas â gwerthuso prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi disgrifiad byr o gefndir y gwerthusiad, a diben y cyfweiliad. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gymryd ychydig amser i ymgysfarwyddo â'r canllaw cyn y cyfweiliad.

Cefndir

Ar ran Llywodraeth Cymru, cafodd Wavehill ei benodi i gynnal gwerthusiad proses annibynnol o brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Yn gyffredinol, bydd y gwerthusiad yn archwilio'r ffordd y cafodd y rhaglen ei sefydlu ym mhob ardal, sut caiff y prosiect ei weinyddu, a dyluniad y prosiect. Bydd hefyd yn ceisio nodi effeithiolrwydd y prosiect o ran helpu'r cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau i weithio, meithrin sgiliau perthnasol i waith, a manteisio ar gyfleoedd gwaith perthnasol.

Cyfveliadau Cwmpasu Cychwynnol

Diben y cyfweiliad hwn yw casglu amrywiaeth o farn y rhanddeiliaid hynny a fu'n gyfrifol am ddylunio a gweithredu'r prosiect. Diben hyn yw bod modd inni ddatblygu dealltwriaeth o'r sail resymegol i'r dyluniad a'r prosesau a ddefnyddiwyd yng nghanau cynnar gweithredu'r prosiect. Bydd y wybodaeth a geir drwy'r cyfveliadau hyn yn sylfaen i'r gwerthusiad, gan arwain y ffocws wrth archwilio wedyn i'r modd y gweithredir y rhaglen yn ehangach.

Pynciau i'w Trafod

Bydd y cyfweiliad yn archwilio nifer o bynciau, gan gynnwys:

1. **Cyd-destun**, fel cyfraniad eich adran/tîm i'r rhaglen, a sut mae'n cyd-fynd â nodau rhaglenni eraill.
2. **Y broses ddylunio**, gan edrych ar sail resymegol y rhaglen.
3. **Gweithredu'r prosiect**, gan gynnwys eich barn ar sut mae'n dod yn ei flaen, ac unrhyw risgiau posibl a allai rwystro'r rhaglen rhag cyrraedd y nodau arfaethedig.

Mae rhestr fanwl o gwestiynau a allai gael eu cynnwys yn y cyfweiliad wedi'u nodi isod.

Cyfrinachedd

Caiff unrhyw sylwadau neu adborth a rowch yn y cyfweiliad hwn eu trin ym gyfrinachol. Caiff yr holl ddata ei wneud yn ddienw, heb fod modd ei briodoli i neb, ar draws yr holl ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir o ganlyniad i'r gwerthusiad hwn. Caiff y wybodaeth a ddarparwch ei defnyddio at ddiben y gwerthusiad hwn yn unig.

Canllaw Trafod:

Mae nifer o gwestiynau a phynciau yr hoffem eu harchwilio yn ystod y sgwrs. Efallai na fydd rhai cwestiynau yn berthnasol.

Cyflwyniad

1. Fel cyflwyniad, a allech roi disgrifiad cryno o'ch rôl?
2. Sut ydych wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r prosiect neu ei roi ar waith i gychwyn?

Cyd-destun a Sail Resymegol

3. Mae'r model rhesymeg (ar y dudalen nesaf) yn rhoi amlinelliad o'r cyd-destun a'r materion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen – sut gwnaeth y materion hyn ddylanwadu ar ddyluniad y prosiect?
4. A oes modd ichi roi sylwadau ar y broses o ddatblygu'r model i gychwyn?
 - a. Os felly, a allech roi disgrifiad cryno o'r broses?
 - b. Ym mha ffyrdd y gwnaeth y profiad gyda Rhaglen Genesis ddylanwadu ar y model?

Gweithredu

5. Pa fath o gymorth a ddarparwyd yn y broses o weithredu'r prosiect?
6. I bwy y rhoddwyd y cymorth?
7. Gan droi'n ôl at y model rhesymeg unwaith eto, gan gymryd pob un o'r Tybiaethau Mewnbwn i Weithgaredd yn ei thro, pa rai o'r tybiaethau y teimlwch allai fod mewn mwy o berygl o beidio â chael eu cyflawni?
 - a. A oes unrhyw ffactorau a allai danseilio'r gallu i bob un o'r tybiaethau hyn gael eu cyflawni?

Rheoli/Llywodraethu'r Rhaglen:

8. A allech roi disgrifiad cryno o'r trefniadau rheoli a llywodraethu sydd yn eu lle ar gyfer y prosiect?
9. A ydych o'r farn bod y trefniadau hyn yn addas ac effeithiol o ran mynd i'r afael â'r materion rheoli a llywodraethu sy'n wynebu'r prosiect neu a oes modd gwneud gwelliannau (ac os felly, beth)?

Cyflawni'r Rhaglen

10. O'ch safbwynt chi, sut ydych yn teimlo mae'r rhaglen yn dod yn ei blaen?
11. Gan droi'n ôl at y model rhesymeg, gan gymryd pob un o'r Tybiaethau Gweithgaredd i Allbwn yn ei thro, pa rai o'r tybiaethau y teimlwch allai fod mewn mwy o berygl o beidio â chael eu cyflawni?
12. A oes unrhyw risgiau strategol neu weithredol pellach a allai rwystro'r rhaglen rhag bod yn llwyddiannus?
13. O'r hyn a wyddoch chi, i ba raddau y mae'r model darparu gwasanaeth yn wahanol o'r naill ardal i'r llall?

Casgliadau:

14. A oes unrhyw gwestiynau y credwch sy'n bwysig neu'n werthfawr i'r gwerthusiad hwn eu harchwilio?

A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

Canllaw Trafod Cyfweiliadau Staff Cyflenwi

Canllaw Trafod:

Mae nifer o gwestiynau a phynciau yr hoffem eu harchwilio yn ystod y sgwrs. Efallai na fydd rhai cwestiynau yn berthnasol.

Cyflwyniad

1. Fel cyflwyniad, a allech roi disgrifiad cryno o'ch rôl?
2. Pa hyfforddiant a gawsoch er mwyn eich helpu gyda'r rôl?
3. Pa mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant hwn? Esboniwch os gwelwch yn dda.
4. Pe byddech yn disgrifio'r prosiect i rywun sydd erioed wedi clywed amdano, sut byddech yn disgrifio'r hyn mae'n ei gynnig?

Cyflawni'r Rhaglen

5. Soniwch wrthyf am y dull o gyflawni'r rhaglen yn eich ardal chi.
6. Yn fras, faint o atgyfeiriadau a dderbyniwch?
7. A yw'r atgyfeiriadau a dderbyniwch yn briodol i gyfranogi yn y rhaglen neu i elwa ohoni? Esboniwch os gwelwch yn dda.
8. Pa mor ddefnyddiol yw'r gyllideb ar gyfer gofal plant?
9. Sut ydych yn sicrhau bod cyfleoedd digonol yn eich ardal chi?
10. Pa mor dda mae'r rhaglen yn cyd-fynd â darpariaethau eraill yr awdurdod lleol? [hynny yw, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau am Waith]
11. Pa mor dda mae brand y prosiect a'r cymorth sydd ar gael wedi'u marchnata / hyrwyddo yn eich ardal chi?
12. O'ch safbwynt chi, sut ydych yn teimlo mae'r rhaglen yn dod yn ei blaen?

Monitro / tystiolaeth:

13. Pa mor effeithiol yw'r systemau monitro a roddwyd ar waith ar gasglu gwybodaeth allweddol?
14. Sut ydych yn perfformio yn erbyn y targed?
15. Soniwch wrthyf am y math o dystiolaeth y mae'n rhaid ichi ddarparu er mwyn hawlio allbwn.

Trefniadau Rheoli:

16. Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r rhaglen yn cael ei rheoli?
17. A allwch roi disgrifiad cryno o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle ar gyfer y prosiect?

Themâu Trawsbynciol

18. Gan feddwl am y gwaith cyflenwi hyd yma, pa gamau penodol, os o gwbl, a gymeroch i helpu i gyfrannu at;
 - a. Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio ar Sail Rhyw
 - b. Datblygu Cynaliadwy
 - c. Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Myfyrio

19. Er ei bod yn dal i fod yn ddyddiau cynnar, pa wersi y credwch y mae modd eu dysgu o'r gwaith o weithredu'r prosiect hyd yma?
20. Pa welliannau yr hoffech eu gweld er mwyn mireinio neu wella'r rhaglen wrth symud ymlaen?

Casgliadau:

21. A oes unrhyw gwestiynau y credwch sy'n bwysig neu'n werthfawr i'r gwerthusiad hwn eu harchwilio?
22. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

Diolch

Canllaw Trafod Cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol

Canllaw Trafod:

Mae nifer o gwestiynau a phynciau yr hoffem eu harchwilio yn ystod y sgwrs. Efallai na fydd rhai cwestiynau yn berthnasol.

Cyflwyniad

1. Fel cyflwyniad, a allech roi disgrifiad cryno o'ch rôl?
2. Sut ydych wedi bod yn rhan o weithredu'r prosiect?
3. Beth ydych yn ei ddeall yw rôl y prosiect?

Cyflawni'r Rhaglen

4. Soniwch wrthyf am y dull o gyflawni'r rhaglen yn eich ardal chi;
 - a. O'r hyn a wyddoch chi, sut mae/bydd cyfranogwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen?
 - b. Beth sydd wedi gweithio'n dda hyd yma o ran ymgysylltu â chyfranogwyr / cofrestru cyfranogwyr?
 - c. Pa heriau a wynebwyd (neu ba heriau a ragwelwch) o ran ymgysylltu â chyfranogwyr?
 - d. Ar wahân i ofal plant, pa heriau eraill y mae cyfranogwyr yn debygol o wynebu wrth gofrestru ar y rhaglen?

Gweithredu

5. Pa fath o gymorth, cyngor neu arweiniad a ddarparwyd i chi / eich tîm i helpu i weithredu'r rhaglen?
6. Pa mor dda mae'r rhaglen yn cyd-fynd â darpariaethau eraill yr awdurdod lleol? [hynny yw, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau am Waith]
7. Pa mor dda mae brand y prosiect a'r cymorth sydd ar gael wedi'u marchnata / hyrwyddo yn eich ardal chi?
8. O'ch safbwynt chi, sut ydych yn teimlo mae'r rhaglen yn dod yn ei blaen?

Rheoli/Llywodraethu'r Rhaglen:

9. A allech roi disgrifiad cryno o'r trefniadau rheoli a llywodraethu sydd yn eu lle ar gyfer y prosiect?
10. Er ei bod yn dal i fod yn ddyddiau cynnar, pa wersi y credwch y mae modd eu dysgu o'r gwaith o weithredu'r prosiect hyd yma?
11. Pa welliannau yr hoffech eu gweld er mwyn mireinio neu wella'r rhaglen wrth symud ymlaen?

Casgliadau:

12. A oes unrhyw gwestiynau y credwch sy'n bwysig neu'n werthfawr i'r gwerthusiad hwn eu harchwilio?
13. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

Diolch

Arolwg Cyfranogwyr Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

Rhywfaint o Cefndir

Helo – Rwy'n ffonio o gwmni ymchwil o'r enw Wavehill. Ffonio ydw i ar ran Llywodraeth Cymru sydd wedi ein penodi ni i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).

Rhoddwyd eich enw inni fel rhywun sydd wedi cofrestru ar y prosiect a hoffem ofyn ychydig gwestiynau byr ichi ynglŷn â'r profiad hyd yma. Ni ddylai'r cyfweiliad gymryd mwy na 5/10 munud, yn dibynnu wrth gwrs ar faint sydd gennych i'w ddweud.

Bydd unrhyw sylwadau a wnewch yn gyfrinachol a chaiff y wybodaeth a rowch ei defnyddio at ddiben y gwerthusiad hwn yn unig. Ni chaiff y sylwadau a wnewch eu priodoli ichi oni bai y cawn eich caniatâd penodol i wneud hynny. Y mae hefyd yn bwysig nodi *nad* yw'r tîm sy'n cynnal y gwerthusiad yn gweithio i Lywodraeth Cymru na'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn *annibynnol*.

A ydych yn hapus i gymryd rhan yn y cyfweiliad?

Ydw / Nac ydw (os nad ydyw, dewch â'r arolwg i ben fan hyn)

A hoffech i'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg neu'n Saesneg?

Saesneg	Cymraeg
---------	---------

I'w gwblhau gan y cyfwelydd:

Awdurdod Lleol	
Enw'r cyfranogwr	
Rhyw'r cyfranogwr, hynny yw, Dyn neu Fenyw	
Oedran y cyfranogwr	
Dyddiad y cyfweiliad	

Cwestiynau'r Arolwg

1. Sut ddaethoch yn *ymwybodol* gyntaf o'r cymorth sy'n cael ei gynnig drwy'r prosiect?
[Nodyn i'r cyfwelydd: nodwch air am air ac wedyn codiwch]

--

Gweld taflen / poster	
Ar lafar	
Atgyfeirio gan gynghorydd yn y Ganolfan Waith	
Atgyfeirio gan weithiwr mewn canolfan Dechrau'n Deg	
Atgyfeirio gan weithiwr Teuluoedd yn Gyntaf	
Atgyfeirio gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd	
Atgyfeirio gan rywun mewn canolfan sy'n darparu gofal plant (nodwch ba un) a/neu ba ddarparwr gofal plant	

2. Ers pryd rydych wedi bod yn ymwneud â'r prosiect?
3. Soniwch wrthyf am y broses o gofrestru ar y prosiect?
 - a. Pwy wnaethoch chi gwrdd gyntaf? Hynny yw, Cynghorydd y prosiect?
 - b. Ble wnaethoch chi gwrdd â'r Cynghorydd?
 - c. Beth wnaethoch chi drafod yn ystod y cyfarfod cyntaf?
4. Pa gymorth, os o gwbl, a dderbynioch drwy'r prosiect hyd yma? (ateb agored yn crynhoi disgrifiad o'r cymorth a dderbyniwyd, a chodio wedyn)

--

- a. (Os yw'n derbyn cymorth drwy'r prosiect) A wnaethoch ofyn am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant i'ch galluogi i gymryd rhan yn y cymorth?
 - i. (Os do) Pa mor ddefnyddiol oedd y cyllid hwn?
 - ii. (Os naddo) Beth yw'r rhesymau nad oedd angen cymorth gofal plant arnoch?
- b. (os nad yw wedi derbyn cymorth eto) Beth yw'r rhesymau nad ydych wedi derbyn cymorth hyd yma drwy'r prosiect?

5. Gan feddwl yn ôl i'r adeg y gwnaethoch gychwyn gyda'r prosiect, beth oeddech chi'n gobeithio ei gael ohono? *[Nodyn i'r cyfwelydd: nodwch air am air ac wedyn codiwch]*

--

	Ticiwch
Ennill cymwysterau?	
Cael rhywfaint o brofiad gwaith?	
Cael rhywfaint o hyfforddiant?	
Cael rhywfaint o gyfleoedd gwirfoddoli?	
Cael cymorth gofal plant er mwyn fy ngalluogi i ddychwelyd i weithio?	
Datblygu fy hunanhyder?	
Bod yn gam tuag at gael gwaith?	
Gosod esiamp! gadarnhaol i fy mhiant?	
Arall (nodwch beth)	

6. A ydych wedi derbyn cymorth yn y gorffennol i gyrraedd y nodau hyn o leoedd ar wahân i brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth?

Ydw	Nac ydw
-----	---------

7. Os ydych,
- Gan bwy arall y cawsoch gymorth?
 - Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cymorth gan brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a'r cymorth a gawsoch o rywle arall?
8. Gan feddwl am yr amser *cyn* ichi gofrestru ar brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, beth oeddech chi'n gwneud?

	Ticiwch
Gwirfoddoli	
Di-waith	
Mewn addysg / hyfforddiant	
Anweithgar (e.e. salwch hirdymor, gofalwr di-dâl)	
Gofalu am fy mhientyn/plant	
Arall (nodwch beth)	

9. Pryd oedd y tro diwethaf ichi fod mewn swydd â thâl?

--

10. Cyn ichi gofrestru ar brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth;

- a. Beth fydddech chi'n dweud oedd y prif heriau oedd yn eich wynebu o ran canfod gwaith? (digymell, a chodiwch isod)
- b. A oes unrhyw rai o'r heriau hyn wedi'u goresgyn ers cofrestru ar y prosiect?

	Cyn cofrestru ar y prosiect	Wedi'u goresgyn ers cofrestru ar y prosiect
Diffyg cymwysterau neu sgiliau		
Diffyg profiad gwaith perthnasol		
Diffyg gofal plant fforddiadwy		
Cyfrifoldebau gofalu		
Anawsterau teithio		
Eisiau gweithio rhan amser yn unig		
Credu na fydddech ar eich ennill yn ariannol yn gweithio		
Dim un o'r uchod		
Nid oeddwn yn chwilio am swydd		
Arall (nodwch beth)		

11. A oes unrhyw beth arall yr ydych eisiau dweud wrthym am eich profiad gyda'r prosiect hyd yma?

Diolch yn fawr iawn!

Rhestr o randdeiliaid a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad

Sefydliad	Rôl
Cyfweliadau Cwmpasu	
Llywodraeth Cymru	Uwch Reolwr Gweithrediadau
Cyngor Sir Caerfyrddin	Rheolwr Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion	Rheolwr Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Uwch Reolwr Partneriaeth, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Rheolwr Cymunedau am Waith / Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Staff Cyflenwi	
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Gwynedd	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Ceredigion	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Ceredigion	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Rhondda Cynon Taf	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Gwynedd	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Sir Gaerfyrddin	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Conwy	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Ceredigion	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Sir Ddinbych	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Rhondda Cynon Taf	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Ynys Môn	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Sir Benfro	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Sir Benfro	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Sir Benfro	Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni
Cyfweliadau Awdurdodau Lleol	
Ynys Môn	Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd
Blaenau Gwent	Rheolwr y Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Pen-y-bont ar Ogwr	Rheolwr Tîm Gofal Plant
Caerffili	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Caerdydd	Uwch Swyddog Cymorth Busnes Gofal Plant
Ceredigion	Rheolwr Dechrau'n Deg

Conwy	Rheolwr Gwaith Amdani / Tîm o Amgylch y Teulu
Sir Ddinbych	Rheolwr Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf
Sir y Fflint	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Gwynedd	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Merthyr Tudful	Cydlynnydd y Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg
Sir Fynwy	Rheolwr Dechrau'n Deg
Casnewydd	Cydlynnydd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Sir Benfro	Rheolwr Dechrau'n Deg
Rhondda Cynon Taf	Uwch Rheolwr Gofal Plant a Safleoedd Dechrau'n Deg
Abertawe	Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf
Torfaen	Rheolwr Gofal Plant
Bro Morgannwg	Rheolwr Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Wrecsam	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd